# Newid



# Chwe cham Llafur i newid Cymru

1. Sicrhau sefydlogrwydd economaidd
2. Lleihau amseroedd aros y GIG
3. Lansio Rheolaeth Diogelwch y Ffin newydd
4. Sefydlu Great British Energy
5. Cosbi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llym
6. Recriwtio athrawon newydd

Welsh Labour Llafur Cymru

2340_24 Reproduced from electronic media, promoted by Joe Lock on behalf of Welsh Labour,
both at 1 Cathedral Road, Cardiff, CF11 9HA.

# Newid

Maniffesto Llafur Cymru 2024

# RHAGAIR

Dyma'r cyfle rydyn ni wedi bod yn aros amdano – y cyfle i'r Blaid Lafur ryddhau potensial llawn Cymru. Llywodraeth Llafur Cymru, yn gweithio gyda llywodraeth Lafur yn San Steffan, dan arweiniad Keir Starmer. Mae'n rhaid i ni achub arno. Yng ngeiriau Seamus Heaney, mae'n bryd i ni adael i hanes greu gobaith.

Y maniffesto hwn yw ein glasbrint ar gyfer newid. Ar gyfer Cymru well, Cymru decach. Gan ddilyn pum cenhadaeth allweddol, rydyn ni'n barod i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau ac achub ar y cyfleoedd sydd i ddod.

Mae economi sy'n gweithio i bawb wrth wraidd ein gweledigaeth. Mae'r argyfwng costau byw wedi gwthio llawer o deuluoedd dros y dibyn. Mae morgeisi sy'n saethu i fyny, biliau ynni sy'n codi i'r entrychion, a chostau bwyd sy'n cynyddu'n raddol yn troi'r siopa wythnosol yn brofiad brawychus. Dyna pam y bydd Llafur yn cyflawni sefydlogrwydd economaidd, i ailgychwyn twf a helpu pobl sy'n gweithio i fod ar eu hennill.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn buddsoddi £100 miliwn o gyllid Trawsnewid Trefi i adnewyddu trefi a strydoedd mawr Cymru, ailfywiogi economïau lleol a chreu cymunedau bywiog. Trwy gefnogi pobl sy'n gweithio i ddatblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol, a gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth Lafur yn San Steffan, byddwn yn sicrhau bod Cymru yn arweinydd yn economi'r byd. O galedi economaidd i ffyniant cyffredin.

Dylai Cymru fod yn arweinydd byd-eang yn y chwyldro ynni gwyrdd ac mae Llafur wedi ymrwymo i wireddu'r potensial hwn. Byddwn yn lleihau biliau ynni'n barhaol, gan arbed cannoedd o bunnoedd i deuluoedd. Trwy sefydlu Great British Energy, byddwn yn creu swyddi newydd medrus mewn diwydiannau gwyrdd, gan adfer cryfder ein broydd diwydiannol. Manteisio ar ein hadnoddau naturiol ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Y GIG yw ein sefydliad mwyaf gwerthfawr. Ond mae'n haeddu





mwy na'n cariad a'n hedmygedd – mae'n haeddu moderneiddio a buddsoddiad gofalus. Bydd Llafur yn sicrhau bod y GIG yn esblygu i fodloni gofynion y dyfodol. Byddwn yn hyfforddi mwy o feddygon a nyrsys nag erioed o'r blaen ac yn gwarchod presgripsiynau am ddim i bawb. Trwy ddarparu mwy o wasanaethau trwy feddygon teulu a fferyllfeydd, byddwn yn cyflymu mynediad at ofal ac yn lleihau'r pwysau ar ysbytai. Bydd agor ysgol feddygol newydd yng Ngogledd Cymru yn sicrhau bod gennym y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y mae arnom eu hangen. Gofal iechyd sy'n hygyrch, yn effeithlon, ac yn agos i gartref.

Mae diogelwch yn hawl sylfaenol, a bydd Llafur yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod ein strydoedd yn ddiogel. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i gynyddu hyder y cyhoedd. Trwy leoli mwy o heddweision cymdogaeth a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru, byddwn yn syrthio'n drwm ar ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddwn yn mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a merched, gan ychwanegu at waith Llywodraeth Llafur Cymru. A byddwn yn lansio Awdurdod Diogelwch y Ffin newydd, i chwalu gangiau cychod troseddol. Meithrin ymddiriedaeth, sicrhau diogelwch, ac amddiffyn ein cymunedau.

# Y maniffesto hwn yw ein glasbrint ar gyfer newid. Ar gyfer Cymru well, Cymru decach. Gan ddilyn pum cenhadaeth allweddol, rydyn ni'n barod i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau ac achub ar y cyfleoedd sydd i ddod

Mae Llafur yn credu mewn chwalu rhwystrau sy'n dal pobl yn ôl. Byddwn yn ymestyn ein cynnig gofal plant blaengar ac yn darparu prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd. Bydd buddsoddiad Llywodraeth Llafur Cymru yn y Warant i Bobl Ifanc Cymru a phrentisiaethau o ansawdd da i bobl o bob oed yn sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Byddwn yn ymestyn cyfleoedd dysgu am ddim i'r gweithwyr sy'n cael y tâl isaf, gan hybu rhagolygon ac enillion. Trwy roi terfyn ar seibiannau treth i ysgolion preifat, byddwn yn talu am recriwtio athrawon newydd mewn pynciau allweddol. Creu cymdeithas lle mae pawb yn cael y cyfle i lwyddo.

Yng Nghymru, rydyn ni'n aml ar ein gorau mewn adfyd. Safwn yn un, gan frwydro dros yr amhosibl, cefnogi'r gwan, a sefyll o blaid y gorthrymedig. Nawr yw'r amser i gymryd cam mwy uchelgeisiol tuag at ein dyfodol cyffredin. Mae'n rhaid i ni anelu'n uwch a gofyn, Beth nesa' i Gymru?

Mae'r maniffesto hwn yn amlinellu sut rydyn ni'n bwriadu newid Prydain, a chreu dyfodol mwy disglair i Gymru, dyfodol lle mae pobl ifanc yn teimlo'n obeithiol a lle mae potensial ein gwlad yn cael ei wireddu'n llawn.

**Vaughan Gething**
**Prif Weinidog Cymru ac Arweinydd Llafur Cymru**

# FY NGHYNLLUN AR GYFER NEWID

Mae'r etholiad hwn ynglŷn â newid.

Cyfle i atal anhrefn ddiderfyn y Ceidwadwyr sydd wedi niweidio sefyllfa ariannol pob teulu ym Mhrydain yn uniongyrchol.

Cyfle i ni gefnu ar gyfres o syniadau sydd, dros 14 blynedd, wedi gadael Prydain yn gyson fwy bregus mewn byd sy'n fwyfwy anwadal.

A chyfle i ddechrau gwaith adnewyddu cenedlaethol gyda dwy lywodraeth Lafur yn cydweithio i newid dyfodol Cymru a Phrydain. Ailadeiladu ein gwlad, fel ei bod yn gwasanaethu buddiannau pobl sy'n gweithio unwaith eto.

**Adfer gobaith**

Mae pob cenedl fawr yn cael ei dal ynghyd gan gredoau cyffredin. Efallai na fyddant yn ymddangos yn eithriadol neu'n unigryw i bobl o'r tu allan, ond maen nhw'n hanfodol i ymdeimlad o ddiben cenedlaethol cyfunol. Maen nhw hefyd yn hanfodol i'n hymdeimlad o gydberthynas ar draws undeb sy'n gwasanaethu ac yn dathlu pob un o'r gwledydd yn unigol ac yn gyfunol. Nid yw Prydain yn wahanol, ond mae dwy o'n credoau pwysicaf mewn perygl mawr ar hyn o bryd.

Yn gyntaf, y dylai gwleidyddiaeth gael ei sbarduno gan ymdeimlad o wasanaethu'r wlad, nid ystyriaethau'r blaid neu hunan-fudd.

Yn ail, os ydych chi'n gweithio'n galed – ni waeth pwy ydych chi na'ch cefndir – bod Prydain yn wlad a fydd yn parchu'ch cyfraniad ac yn rhoi cyfle teg i chi lwyddo.

Wrth i mi ystyried y credoau hyn, mae'n anodd peidio â meddwl am fy mhlentyndod. Bryd hynny, fel heddiw, roedd lle Prydain yn y byd yn ansicr. Bryd hynny, fel heddiw, roedd ein heconomi yng ngafael twf petrus ac argyfwng costau byw a oedd yn niweidio pobl sy'n gweithio.

Ac eto, bryd hynny, roedd y ffaith y gellid cymryd y ddwy gred sylfaenol yna'n ganiataol yn rhoi rhywfaint o sicrwydd, o leiaf. I deuluoedd fel fy un i, roedd hynny'n gysur. Roedd gwybod y byddai Prydain yn cynnig dyfodol gwell i'ch plant yn rhoi gobaith i ni. Gobaith nad yw'n swnio'n uchelfrydig





neu'n arbennig o ddelfrydyddol efallai, ond y gallai teuluoedd fel fy un i adeiladu bywyd o'i amgylch.

**Atal yr anhrefn**

I adfer y gobaith hwn, mae'n rhaid i ni atal anhrefn y Ceidwadwyr yn gyntaf. Nid damwain yw'r dirywiad amlwg yn ein cymunedau – gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u hymestyn i'r eithaf, a theuluoedd sy'n cael eu gwasgu gan forgeisi sy'n saethu i fyny. Yn hytrach, cafodd ei achosi'n uniongyrchol gan blaid lywodraethol sydd, dro ar ôl tro, yn rhoi ei buddiannau a'i hobsesiynau ei hun uwchlaw'r materion sy'n effeithio ar deuluoedd.

Mae hyn wedi arwain at gylch dieflig – dirywiad yn bwydo ar anhrefn, anhrefn yn bwydo ar ddirywiad – a fydd yn parhau os byddant yn dychwelyd am bum mlynedd arall. Dim ond llywodraeth Lafur yn San Steffan – yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Llafur Cymru – all dorri'r cylch hwn ac atal yr anhrefn.

**Troi'r ddalen**

Mae'n rhaid i ni droi'r ddalen yn gadarn ar syniadau'r Ceidwadwyr sydd wedi achosi'r anhrefn.

Mae'r byd wedi mynd yn fwyfwy anwadal, gyda rhyfel mawr yn Ewrop am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth a bygythiadau mwyfwy i safonau byw pobl sy'n gweithio. Mae'r 'oes ansicrwydd' yn golygu bod angen i'r llywodraeth gamu i fyny, nid sefyll o'r neilltu.

Mae hyn yn golygu dychwelyd i sylfeini llywodraeth dda: diogelwch cenedlaethol, ffiniau diogel, a sefydlogrwydd economaidd. Ond mae hefyd yn gofyn am bartneriaeth barhaus â busnes a Llywodraeth Llafur Cymru i gyflawni'r twf economaidd y mae arnom ei angen. Mae angen mwy o bwyslais ar strategaeth tymor hir, nid y gwrthdyniadau tymor byr sy'n gallu bywiogi San Steffan. Ac mae'n gofyn am wrthod, yn llwyr ac am byth, y syniad niweidiol bod twf economaidd yn rhodd gan yr ychydig i'r lliaws.

Oherwydd gellir esbonio cymaint o'r hyn y mae Prydain wedi ei oddef yn ystod y 14 blynedd diwethaf – boed hynny'n chwalu'r bunt i roi toriadau treth i'r 1% gyfoethocaf; cyni difethol i wasanaethau cyhoeddus oherwydd llanastr a achoswyd gan y banciau; neu fethiant i fuddsoddi mewn ynni Prydeinig glân a olygodd ein bod yn agored i niwed pan ymosododd Putin ar Wcráin – gan fethiant y Ceidwadwyr i wynebu'r dyfodol. Dim ond Llafur all droi'r ddalen.

**Ailadeiladu Prydain**

Mae'n rhaid i ni ailadeiladu Prydain. Ni fydd hynny'n rhwydd. Nid dim ond oherwydd nad oes ffordd gyflym o dacluso'r llanastr y mae'r Ceidwadwyr wedi'i greu. Ond hefyd oherwydd bod eu methiannau wedi tanseilio ein hyder cyfunol y gall Prydain gyflawni pethau mawr o hyd. Gwrthodaf hyn yn llwyr. Er gwaethaf yr holl anhrefn a achoswyd ym Mhrydain, rydw i'n gweld gwlad lle nad yw pobl sy'n gweithio byth yn siomi ei gilydd. Fe ddaethon nhw at ei gilydd yn y pandemig – colli priodasau, angladdau a'r ffarwél olaf – i achub bywydau pobl na fyddant byth yn cyfarfod â nhw. Fe ymdrechon nhw'n galed yn ystod y blynyddoedd cyni, i barhau i ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus yr oedd ar bobl eu hangen. A thrwy gydol yr argyfwng costau byw, fe ddaethon nhw o hyd i ffordd o gefnogi pobl lai ffodus. Rydw i hefyd wedi gweld agwedd benderfynol Llafur Cymru i gynnal ein gwerthoedd a'n hymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus, er gwaethaf Llywodraeth Geidwadol anhrefnus ac ymrannol yn San Steffan.

Mae Prydain yn wlad wych o hyd. Gallwn gyflawni llawer o bethau gwych o hyd. Yng Nghymru, gallwn weld y cyfleoedd sy'n aros i gael eu datgloi. O genhedlaeth newydd o swyddi gwyrdd o ansawdd da a bwerir gan yr arfordir, i'r swyddi technoleg sy'n caniatáu i bobl gyflawni eu huchelgeisiau'n agosach i gartref; mae Llafur Cymru yn benderfynol o helpu mwy o bobl ifanc i gynllunio dyfodol uchelgeisiol yng Nghymru. Yr hyn y mae arnom ei eisiau yw llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gallu ymateb i'r uchelgais sydd gan bobl sy'n gweithio ar gyfer



eu teulu a'u cymuned, gyda chynllun tymor hir credadwy.

Y maniffesto hwn yw'r cynllun yna. Wedi'i brisio a'i ariannu'n llawn, a'i adeiladu ar sail gadarn cyfrifoldeb cyllidol.

Mae pum cenhadaeth genedlaethol yn sail iddo – gyda chamau cyntaf clir i ddechrau'r daith ailadeiladu – sy'n rhoi cyrchfan glir i bawb y mae dyfodol Cymru a Phrydain yn bwysig iddynt. Prydain newydd, lle mae cyfoeth yn cael ei greu ym mhob cymuned. Lle y manteisir ar gyfle euraid pŵer Prydeinig glân i leihau biliau. Lle mae gwead canol trefi yng Nghymru yn parhau i wella – gan greu'r amgylchedd iddynt arallgyfeirio fel lleoedd byw, dysgu, hamdden a gweithio, lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel i gerdded y strydoedd. Lle y gallwch fynd i'r gwaith a gwybod y byddwch yn cael eich trin ag urddas a pharch. Lle mae ein plant yn cael y sgiliau i ffynnu yn y dyfodol. Lle mae ein GIG yn cael ei gefnogi trwy gyllid ac arloesedd i fod ar flaen y gad ym maes gofal iechyd. A lle rydym yn dangos bod gwleidyddiaeth Brydeinig yn gallu canolbwyntio ar wasanaethu'r wlad.

**Mae'n bryd am newid**

Rwy'n gwybod y bydd rhai pobl yn rholio'u llygaid wrth ddarllen y frawddeg olaf. Ac eto, gwasanaethu ein gwlad yw'r unig reswm yr ymunais â gwleidyddiaeth. Diffiniwyd fy arweinyddiaeth Lafur gan lusgo fy mhlaid i ffwrdd oddi wrth wleidyddiaeth ystumiol ddibwrpas a'i dychwelyd unwaith eto i wasanaethu pobl sy'n gweithio. Rydw i wedi newid fy mhlaid. Nawr, rydw i eisiau'r cyfle i gyflwyno'r newid hwnnw i'r wlad.

Ond, i lwyddo, mae angen i bob unigolyn a phob cymuned gyfrannu. Rwy'n gwybod, ar ôl popeth rydych chi wedi'i oddef yn ystod y 14 blynedd diwethaf, bod hyn yn gofyn llawer. Ond, rydw i hefyd yn tybio, yn y bôn, eich bod chi'n gwybod mai dyna beth sydd ei angen ar ein gwlad nawr – diwedd i'r anhrefn, troi'r ddalen, ac ailadeiladu ein gwlad yn amyneddgar ond yn benderfynol.

Felly, fe'ch gwahoddaf i ymuno â ni yn yr ymdrech hon i adnewyddu'r wlad, gyda dwy lywodraeth Lafur yn gweithio gyda'i gilydd i greu'r dyfodol tecach, gwyrddach y mae Cymru yn ei haeddu.

Mae'n bryd i newid Prydain.

**Keir Starmer**
**Arweinydd Plaid Lafur y DU**

# Chwe cham Llafur i newid Cymru

**1. Sicrhau sefydlogrwydd economaidd**
gyda rheolau gwario llym, er mwyn i ni allu tyfu ein heconomi a chadw trethi, chwyddiant a morgeisi mor isel â phosib.

**2. Lleihau amseroedd aros y GIG**
drwy dargedu'r rheini sy'n aros hiraf ac sydd fwyaf mewn angen. Byddwn yn talu am hyn drwy gosbi'r rheini sy'n osgoi trethi yn llym, a mynd i'r afael â'r mannau gwan yn y rheolau ar gyfer y rheini nad yw eu domisil yn y DU (non-dom).

**3. Lansio Rheolaeth Diogelwch y Ffin newydd**
drwy gael cannoedd o ymchwilwyr arbenigol newydd, a defnyddio pwerau gwrthderfysgaeth i chwalu gangiau troseddol ar gychod.

**4. Sefydlu Great British Energy**
cwmni ynni glân ym mherchnogaeth y cyhoedd sy'n gweithio gyda Llywodraeth Llafur Cymru i leihau biliau am byth, a rhoi hwb i ddiogelwch ynni a chreu swyddi newydd. Byddwn yn talu am hyn drwy osod treth ffawddelw ar gwmnïau olew a nwy mawr.

**5. Cosbi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llym**
drwy gael mwy o heddlu mewn cymdogaethau. Byddwn yn talu am hyn drwy roi diwedd ar gontractau gwastraffus, cyflwyno cosbau newydd llym i droseddwyr, a buddsoddi mewn gwasanaethau ieuenctid.

**6. Recriwtio athrawon newydd**
mewn pynciau allweddol i baratoi plant ar gyfer bywyd, gwaith a'r dyfodol. Byddwn yn talu am hyn drwy roi diwedd ar gymorth treth i ysgolion preifat.

## Dwy lywodraeth Lafur; yn cydweithio ar gyfer Dyfodol Cymru a Phrydain.

# CYNNWYS


**Llywodraeth a sbardunir gan genhadaeth** .......... **16**

**Sylfeini cadarn** .......... **18**

**Sbarduno twf economaidd** .......... **27**

**Gwneud Prydain yn archbŵer ynni glân** .......... **51**

**Hawlio'n ôl ein strydoedd** .......... **69**

**Chwalu'r rhwystrau i gyfleoedd** .......... **83**

**Creu GIG sy'n addas ar gyfer y dyfodol** .......... **101**

**Gwasanaethu'r wlad** .......... **115**

**Prydain wedi'i hailgysylltu** .......... **127**

**Newid** .......... **141**

# LLYWODRAETH A SBARDUNIR GAN GENHADAETH

Mae atal anhrefn y Ceidwadwyr yn hanfodol, ond nid yw troi'r ddalen gyda llywodraeth newydd yn San Steffan yn ddigon ynddo'i hun i fynd i'r afael â'r heriau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn y mae ein gwlad yn eu hwynebu bellach. I ailadeiladu Prydain, mae angen i ni newid sut mae Prydain yn cael ei llywodraethu.

Mae Prydain wedi cael ei dal yn ôl yn rhy hir gan lywodraethau Ceidwadol sy'n cael eu hysgwyd yma a thraw gan ddigwyddiadau oherwydd nad ydynt yn canolbwyntio'n ddiysgog ar amcanion tymor hir. Mae gan wleidyddiaeth botensial enfawr i newid bywydau er gwell, ond yn rhy aml mae gwahanol rannau o'r llywodraeth wedi dilyn eu nodau cul eu hunain yn hytrach na chydweithio. Ac, yn rhy aml, rydyn ni wedi gweld y Llywodraeth Geidwadol hon yn San Steffan yn ceisio ymraniad ac anundod yn weithredol ar draws ein gwlad, gan ddifrïo Cymru a chynifer o rannau eraill o'r Deyrnas Unedig yn ddidostur.

Mae llywodraeth ar ei gorau pan fydd yn gweithio mewn partneriaeth â chynghorau, busnes, undebau llafur, cymdeithas sifil, grwpiau ffydd, a chymunedau. Wrth i ni nodi 25 mlynedd ers datganoli Cymreig – a gyflawnwyd gan lywodraeth Lafur – mae partneriaethau newydd wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch ar draws ein gwledydd a'n rhanbarthau yn hanfodol i gyflawni newid a gwasanaethu'r Deyrnas Unedig gyfan. Ond heb brosiect cyffredin, nid yw'r partneriaethau hynny'n cychwyn yn iawn. Mae hynny'n golygu bod rhaid i ni weld San Steffan yn rhoi'r gorau i ddechrau dadleuon diangen â Llywodraeth Llafur Cymru ac, yn lle hynny, partneriaeth newydd ar gyfer ffyniant.

Felly, yn ogystal â gweinyddiaeth

newydd â blaenoriaethau newydd, mae angen ymagwedd newydd ar Brydain: llywodraeth a sbardunir gan genhadaeth.

Mae llywodraeth a sbardunir gan genhadaeth yn golygu anelu'n uwch fel cenedl a chanolbwyntio ar amcanion uchelgeisiol, mesuradwy, tymor hir sy'n darparu ymdeimlad ysgogol o ddiben i'r wlad. Mae'n golygu ffordd newydd o lywodraethu sy'n fwy cydgysylltiedig, sy'n gwthio pŵer allan i gymunedau ac yn manteisio ar dechnoleg newydd, a hynny oll gydag un nod mewn golwg – dychwelyd y wlad i wasanaethu pobl sy'n gweithio.

## DYMA BUM CENHADAETH LLAFUR AR GYFER CYMRU:

1) **Tyfu economi Prydain,** un sydd wedi'i hadeiladu ar swyddi da fel bod incwm pobl yn tyfu'n gyflymach na threuliau.

2) **Datgloi potensial ynni gwyrdd Cymru,** i gael biliau rhatach, swyddi newydd sy'n talu'n dda, a diogelwch rhag gormeswyr fel Putin.

3) **Moderneiddio ein GIG** trwy fuddsoddi yng ngweithlu GIG y dyfodol, gydag ysgol feddygol newydd yng Ngogledd Cymru.

4) **Gwneud strydoedd Cymru yn ddiogel** gyda mwy o heddweision a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ein cymunedau.

5) **Chwalu'r rhwystrau rhag cyfleoedd** trwy warantu gwaith, addysg, hyfforddiant, neu hunangyflogaeth i bawb sy'n iau na 25 oed.

Bydd angen dyfalbarhad i gyflawni'r newid y mae ei angen ar Brydain. Y man cychwyn ar gyfer cyflawni'r cenadaethau hyn yw sicrhau bod sylfeini llywodraeth dda yn iawn. Bydd Llafur yn sicrhau bod gennym ddiogelwch cenedlaethol cryf, ffiniau diogel, a sefydlogrwydd economaidd. Gan adeiladu ar y sylfeini cadarn hyn, rydym eisoes wedi amlinellu'r camau cyntaf ar gyfer newid. Heddiw, cyflwynwn bolisïau ychwanegol yn y maniffesto hwn, yn rhan o'r daith i ailadeiladu ei gwlad.



SYLFEINI CADARN

# DIOGELWCH CENEDLAETHOL

Ni fydd unrhyw ymrwymiad polisi i geisio cyflawni cenadaethau Llafur yn bwysig oni bai ein bod yn cyflawni dyletswydd gyntaf unrhyw lywodraeth: cadw'r wlad yn ddiogel. Mae heddwch a diogelwch yn gofyn am ymdrech. Mae angen bod yn gyson wyliadwrus. Yn ystod y 14 blynedd diwethaf, mae tensiynau geowleidyddol wedi cynyddu, tra bod y Ceidwadwyr wedi gwagio ein lluoedd arfog. Nawr, mae Putin yn ceisio tanseilio diogelwch Ewropeaidd gyda'i ymosodiad llawn ar Wcráin. Bydd Llafur yn ateb yr her hon trwy gryfhau ein lluoedd arfog a gwarchod ein diogelwch cenedlaethol.
Mae cymunedau yng Nghymru bob amser wedi bod yn allweddol i'n hamddiffyniad cenedlaethol, a byddwn yn parhau â'r hanes balch hwnnw.

# Dyletswydd gyntaf unrhyw llywodraeth yw cadw'r wlad yn ddiogel

Mae ein hymrwymiad i ataliaeth niwclear y Deyrnas Unedig yn absoliwt. Mae'n fesur diogelwch hollbwysig i'r Deyrnas Unedig a'n cynghreiriaid NATO. Fel y blaid a ffurfiodd NATO, mae ein hymrwymiad diysgog i'r gynghrair yn parhau, a byddwn yn cymhwyso prawf NATO i raglenni amddiffyn mawr i sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau'n llawn.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae bygythiadau i'n diogelwch wedi lluosi ac amrywiaethu. Ochr yn ochr â mwy o fygythiadau confensiynol, rydym yn wynebu amlygiad cynyddol rhyfela hybrid, gan gynnwys seiberymosodiadau ac ymgyrchoedd camwybodaeth sy'n ceisio tanseilio ein democratiaeth. I sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn hollol barod i ddelio â'r bygythiadau cydgysylltiedig hyn, bydd Llafur yn cynnal Adolygiad Amddiffyn Strategol o fewn ein blwyddyn gyntaf mewn grym, a byddwn yn amlinellu'r llwybr tuag at wario 2.5 y cant o'r Cynnyrch Domestig Gros ar amddiffyn.

O wenwyniadau Skripal i gynllwyniau llofruddio gan Gorfflu Gardiau Chwyldroadol Islamaidd Iran, mae bygythiadau gan wladwriaethau gelyniaethus neu grwpiau a noddir gan wladwriaeth yn cynyddu, ond nid oes gan Brydain fframwaith cynhwysfawr i'n diogelu. Bydd Llafur yn manteisio ar yr ymagwedd a ddefnyddir i ddelio â therfysgaeth anwladwriaethol a'i haddasu i ddelio â bygythiadau diogelwch domestig wedi'u seilio ar wladwriaeth.

Mae terfysgaeth yn fygythiad arwyddocaol o hyd. Bydd Llafur yn cyflwyno 'Deddf Martyn' i gryfhau diogelwch digwyddiadau cyhoeddus a lleoliadau. Byddwn yn diweddaru'r rheolau ar wrth-eithafiaeth, gan gynnwys ar-lein, i atal pobl rhag cael eu radicaleiddio a'u denu tuag at ideolegau atgas. Bydd Llafur hefyd yn sicrhau bod gan yr heddlu a'r gwasanaethau cuddwybodaeth y pwerau a'r adnoddau y mae arnynt eu hangen i amddiffyn pobl Prydain rhag terfysgaeth ac ysbïwriaeth elyniaethus.



SYLFEINI CADARN

# FFINIAU DIOGEL

Mae Prydain yn wlad oddefgar a thosturiol. Mae gennym draddodiad balch o groesawu pobl sy'n ffoi rhag erledigaeth a chamdriniaeth. Mae cynlluniau fel Cartrefi i Wcráin, fisâu dyngarol Hong Kong, a rhaglen adsefydlu Syria wedi darparu llwybrau pwysig i ffoaduriaid sy'n ceisio noddfa. Ond mae angen i'r system gael ei rheoli ac mae arnom angen ffiniau cadarn. Mae'r argyfwng cychod bach, sy'n cael ei hybu gan gangiau smyglwyr troseddol peryglus, yn tanseilio ein diogelwch ac yn colli bywydau.

Yn hytrach na chynllun pendant i wynebu'r argyfwng hwn, y cyfan y mae'r Ceidwadwyr wedi'i gynnig yw gimics byrbwyll. Mae eu polisi blaenllaw – i hedfan nifer fechan o geiswyr lloches i Rwanda – eisoes wedi costio

cannoedd ar filiynau o bunnoedd. Hyd yn oed petai'n digwydd, gall y cynllun hwn ddelio â llai nag un y cant o'r ceiswyr lloches sy'n cyrraedd yn unig. Ni all weithio. Mae anhrefn yn y Sianel wedi cael ei hadlewyrchu gan anhrefn gartref. Mae deddfau anymarferol y Ceidwadwyr wedi creu 'ôl-groniad parhaol' o ddegau ar filoedd o geiswyr lloches, sy'n aros mewn gwestai am gyfnod amhenodol gan gostio miliynau o bunnoedd yr wythnos i drethdalwyr.

Bydd Llafur yn atal yr anhrefn ac yn mynd ar ôl y gangiau troseddol sy'n masnachu mewn hybu'r argyfwng hwn. Byddwn yn creu Awdurdod Diogelwch y Ffin newydd, gyda channoedd o ymchwilwyr, swyddogion cuddwybodaeth, a heddweision trawsffiniol newydd. Telir am hyn trwy derfynu'r bartneriaeth Ymfudo a Datblygu Economaidd wastraffus â Rwanda. Bydd yr Awdurdod newydd hwn yn gweithio'n rhyngwladol ac yn cael ei gefnogi gan bwerau newydd tebyg i wrthderfysgaeth, i erlid y rhai sy'n gyfrifol am y fasnach ffiaidd, tarfu arnynt a'u harestio. Byddwn yn ceisio cytundeb diogelwch newydd â'r Undeb Ewropeaidd i sicrhau mynediad at guddwybodaeth amser real a galluogi ein timau plismona i arwain ymchwiliadau ar y cyd â'u cymheiriaid Ewropeaidd.

# Bydd Llafur yn atal yr anhrefn ac yn mynd ar ôl y gangiau troseddol

Bydd Llafur yn troi'r ddalen ac yn rhoi trefn ar y system loches fel ei bod yn gweithredu'n gyflym, yn gadarn, ac yn deg; a bod y rheolau'n cael eu gorfodi'n iawn. Byddwn yn hurio gweithwyr achos ychwanegol i glirio ôl-groniad y Ceidwadwyr a rhoi terfyn ar westai lloches, gan arbed biliynau o bunnoedd i drethdalwyr.

Bydd Llafur yn sefydlu uned dychwelyd a gorfodi newydd, gyda 1,000 o staff ychwanegol, i gyflymu'r broses o symud pobl nad oes ganddynt yr hawl i aros yma i wledydd diogel. Byddwn yn negodi trefniadau dychwelyd ychwanegol i gyflymu dychweliadau ac yn cynyddu nifer y gwledydd diogel y gellir anfon ceiswyr lloches aflwyddiannus yn ôl iddynt yn fuan. A byddwn hefyd yn gweithredu ar lefel uwch, gan weithio gyda phartneriaid rhyngwladol i fynd i'r afael â'r argyfyngau dyngarol sy'n achosi i bobl ffoi o'u cartrefi, ac i gryfhau'r cymorth i ffoaduriaid yn eu rhanbarth cartref.



SYLFEINI CADARN

# SEFYDLOGRWYDD ECONOMAIDD

Bydd pob ymrwymiad a wneir gan lywodraeth Lafur wedi'i seilio ar arian cadarn a sefydlogrwydd economaidd. Mae hyn yn egwyddor ddiysgog ar gyfer Plaid Lafur y Deyrnas Unedig ar ei newydd wedd. Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi dangos disgyblaeth gyllidol trwy gyflwyno cyllidebau cytbwys, gan gadw at ymrwymiad y maniffesto i beidio â chynyddu'r dreth incwm. Fe allai rhai honni nad oes terfyn ar yr hyn y gall y llywodraeth ei wario, neu fod toriadau treth yn talu amdanynt eu hunain. Gwrthodwn yr

ideoleg ddiffygiol hon a brofwyd hyd at ddinistriad gan 'gyllideb fach' drychinebus y Ceidwadwyr. Mae pobl Prydain yn dal i dalu pris yr ymrwymiadau hynny nad oeddent wedi'u hariannu trwy gostau morgeisi uwch, ac mae trethdalwyr yn dal i dalu'r bil trwy daliadau llog uwch, sy'n golygu llai o arian ar gyfer buddsoddi a gwasanaethau cyhoeddus. Nid oedd yr effaith wedi'i chyfyngu i'r wlad hon. Anfonodd byrbwylltra'r Ceidwadwyr arwydd o ansefydlogrwydd ar draws y byd a niweidiodd ein statws, gan wneud Prydain yn lle llai deniadol i fusnes fuddsoddi ynddo.

Nid yw'r anhrefn drosodd. Mae'r Ceidwadwyr byrbwyll bellach wedi gwneud hyd yn oed mwy o doriadau treth ac addewidion gwario heb eu hariannu ar raddfa y tu hwnt i'r 'gyllideb fach'. Byddai hyn yn ddifethol i deuluoedd ledled y wlad.

Bydd Llafur yn troi'r ddalen ar yr anhrefn economaidd yma. Mae ein hymagwedd wedi'i seilio ar reolau cyllidol cryf a fydd yn llywodraethu pob penderfyniad a wnawn mewn grym.

Mae ein rheolau cyllidol fel a ganlyn:

- Bod y gyllideb gyfredol yn symud i gydbwysedd, fel bod costau dydd i ddydd yn cael eu talu gan refeniw;
- Bod rhaid i ddyled fod yn gostwng fel cyfran o'r economi erbyn pumed flwyddyn y rhagolwg.

Mae'r rheolau hyn yn caniatáu ar gyfer buddsoddi'n ddarbodus yn ein heconomi. Mae hyn yn hollol wahanol i'r Ceidwadwyr sydd wedi creu cymhelliant i dorri buddsoddiad; ymagwedd tymor byr sy'n anwybyddu pwysigrwydd tyfu'r economi. Bydd Llafur yn taro cydbwysedd rhwng blaenoriaethu buddsoddiad a'r angen dybryd i ailadeiladu ein cyllid cyhoeddus. Ni fyddwn yn dychwelyd i gyni.

Yn wahanol i'r Ceidwadwyr, ni fydd Llafur byth yn diystyru'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) er hwylustod gwleidyddol. Yn lle hynny, byddwn yn cryfhau rôl yr OBR. Bydd pob digwyddiad cyllidol sy'n gwneud newidiadau arwyddocaol i drethiant neu wariant yn destun rhagolwg annibynnol gan yr OBR.

Bydd Llafur yn diogelu arian trethdalwyr. Byddwn yn rhoi terfyn ar y cysylltiad rhwng mynediad at weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a llwybr mewnol ar gyfer contractau cyhoeddus. Byddwn yn penodi Comisiynydd Llygredigaeth Covid am gyfnod penodol ac yn defnyddio pob ffordd bosibl o adennill yr arian cyhoeddus a gollwyd trwy dwyll cysylltiedig â'r pandemig a chontractau



# Mae ein hymagwedd wedi'i seilio ar reolau cyllidol cryf a fydd yn llywodraethu pob penderfyniad a wnawn mewn grym

na chyflawnwyd. Ac ni fyddwn yn goddef twyll na gwastraff yn unman, boed hynny mewn nawdd cymdeithasol neu ddefnydd gormodol ar ymgynghorwyr.

Ochr yn ochr â chyllid cenedlaethol cryf, mae angen i gyllid teuluoedd ym Mhrydain fod yn gadarn, hefyd. Mae teuluoedd yn ei chael hi'n anodd talu costau byw oherwydd y Ceidwadwyr. Bydd Llafur yn gweithredu i gefnogi teuluoedd, trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr argyfwng.

Byddwn yn lleihau cost ynni. Bydd Llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig yn gwneud i waith dalu ac yn lleihau prisiau bwyd trwy ddileu rhwystrau sy'n atal busnesau rhag masnachu. Bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn parhau i wneud tai yn fwy fforddiadwy, yn ehangu mynediad at ofal plant, ac yn cefnogi teuluoedd sydd â phlant trwy barhau â'i hymrwymiad hirsefydlog i frecwast am ddim i bob disgybl ysgol gynradd. Bydd Llafur hefyd yn cadw cyfraddau morgeisi mor isel â phosibl, gyda Banc Lloegr cryf, annibynnol – a fydd

# Mae teuluoedd yn ei chael hi'n anodd talu costau byw oherwydd y Ceidwadwyr. Bydd Llafur yn gweithredu i gefnogi teuluoedd, trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr argyfwng

yn parhau i dargedu chwyddiant sefydlog ar 2 y cant.

Mae'r Ceidwadwyr wedi codi'r baich treth i'r lefel uchaf ers 70 mlynedd. Bydd llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig yn sicrhau bod trethi ar bobl sy'n gweithio yn cael eu cadw mor isel â phosibl. Ni fydd Llafur yn cynyddu trethi ar bobl sy'n gweithio, felly ni fyddwn yn cynyddu Yswiriant Gwladol, cyfraddau sylfaenol, uwch, nac ychwanegol y Dreth Incwm, na TAW.

Bydd Llafur yn mynd i'r afael ag annhegwch yn y system dreth. Byddwn yn diddymu statws dibreswyl unwaith ac am byth, gan ei ddisodli â chynllun modern ar gyfer pobl sydd yn y wlad am gyfnod byr o ddifrif. Byddwn yn rhoi terfyn ar ddefnyddio ymddiriedolaethau alltraeth i osgoi treth etifeddiant fel bod pawb sy'n ymgartrefu yma yn y Deyrnas Unedig yn talu eu trethi yma.

Ecwiti preifat yw'r unig ddiwydiant lle mae tâl cysylltiedig â pherfformiad yn cael ei drin fel enillion cyfalaf. Bydd Llafur yn cau'r bwlch hwn.

Byddwn yn moderneiddio Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) ac yn newid y gyfraith i fynd i'r afael ag osgoi trethi. Byddwn yn cynyddu gofynion cofrestru ac adrodd, yn cryfhau pwerau CThEF, yn buddsoddi mewn technoleg newydd ac yn cynyddu capasiti o fewn CThEF. Bydd hyn, ynghyd â phwyslais o'r newydd ar osgoi trethi gan fusnesau mawr a'r cyfoethog, yn dechrau cau'r bwlch treth a sicrhau bod pawb yn talu eu cyfran deg.

**Bydd Llafur yn atal yr anhrefn, yn troi'r ddalen, ac yn dychwelyd i sylfeini diogelwch cenedlaethol, ffiniau diogel, a sefydlogrwydd economaidd.**



# SBARDUNO TWF ECONOMAIDD

- **Cyflawni sefydlogrwydd economaidd gyda rheolau gwario llym**
- **Partneriaeth newydd gyda busnes a Llywodraeth Llafur Cymru i hybu twf ym mhobman**
- **Cronfa Cyfoeth Cenedlaethol i fuddsoddi mewn swyddi**
- **Darparu 20,000 o gartrefi ychwanegol ar gyfer rhent cymdeithasol yn ystod tymor y Senedd hon**
- **Bargen Newydd i Bobl sy'n Gweithio**



Twf economaidd parhaus yw'r unig ffordd o wella ffyniant ein gwlad a safonau byw pobl sy'n gweithio. Dyna pam mae'n genhadaeth gyntaf Llafur ar gyfer llywodraeth. Mae'n golygu bod o blaid busnesau a gweithwyr. Ni yw'r blaid sy'n creu cyfoeth.

Mae'r etholiad hwn yn dilyn anhrefn 'cyllideb fach' y Ceidwadwyr a gostyngiad digynsail mewn safonau byw. Mae eu hanes economaidd truenus yn ystod y 14 blynedd diwethaf wedi gweld cynhyrchedd a chyflogau'n aros yn isel, gan adael teuluoedd ym Mhrydain yn sylweddol dlotach na'r rhai hynny yn Ffrainc neu'r Almaen.

Mae'r dirywiad hwn yn deillio o ddau fethiant.

Yn gyntaf, anallu i dderbyn mai'r unig ffordd o adeiladu economi gref yw trwy gyfraniad pob cymuned a phob unigolyn – y lliaws, nid yr ychydig. Yn ail, methiant i gydnabod bod angen i'r llywodraeth fod yn bartner strategol gyda busnes er mwyn sicrhau twf cynaliadwy – bod rhaid i farchnadoedd gael eu ffurfio, nid eu gwasanaethu yn unig.

Mae'r ddau fethiant hyn wedi arwain at fwy o ansicrwydd economaidd – yng ngwydnwch ariannol aelwydydd, ond hefyd yn ein heconomi genedlaethol

– ar yr union adeg pan mae ein byd wedi dod yn llai sefydlog a diogel. Nid yw'r Ceidwadwyr wedi deall goblygiadau oes newydd o gystadleuaeth a thensiwn byd-eang cynyddol, gan adael ein heconomi ar dir cynyddol denau ac ansefydlog yn lle hynny.

Mae'n bryd i droi'r ddalen. Bydd Llafur yn adfer sefydlogrwydd, yn cynyddu buddsoddiad, ac yn diwygio ein heconomi.

Byddwn yn croesawu ymagwedd newydd at reolaeth economaidd – economeg gadarn – sy'n deall bod twf cynaliadwy yn dibynnu ar sylfaen eang a seiliau cydnerth. Bydd ein hymagwedd yn dibynnu ar wladwriaeth ddeinamig a strategol. Nid yw hyn yn golygu llywodraeth fythol gynyddol, ond llywodraeth fwy gweithredol a challach sy'n gweithio mewn partneriaeth â busnes, undebau llafur, a chynghorau, gyda llywodraethau datganoledig sydd wedi'u grymuso'n briodol.

Bydd Llafur yn atal yr anhrefn ac yn cefnogi busnes trwy amgylchedd polisi sefydlog – gan gryfhau ein sefydliadau economaidd, a rhoi'r sicrwydd y mae ei angen ar fuddsoddwyr i hybu twf. Bydd Llafur yn annog diwydiant, undebau llafur, a chymdeithas sifil i gymryd rhan yn ein cynlluniau ar gyfer twf, fel y gallant gyfrannu at greu economi gryfach ym mhob rhan o'r wlad. Byddwn yn defnyddio buddsoddiad cyhoeddus yn strategol lle y gall ddatgloi buddsoddiad sector preifat ychwanegol, creu swyddi, a darparu enillion i drethdalwyr.

Mae'n bryd i droi'r ddalen. Bydd Llafur yn adfer sefydlogrwydd, yn cynyddu buddsoddiad, ac yn diwygio ein heconomi

Er y bydd sefydlogrwydd a mwy o fuddsoddiad yn cefnogi twf, mae angen i rannau o'n heconomi gael eu diwygio'n sylweddol os ydym am greu'r cyfoeth y mae ei angen ar ein gwlad. Mae cyni'r Ceidwadwyr wedi cael effaith ddifrifol ar awdurdodau cynllunio lleol – mae adrannau cynllunio wedi'u gorymestyn ac mae oedi wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yn amlwg.

Mae Prydain yn rhy ganolog o hyd, ac mae potensial economaidd

# Nid yw arloesedd, deinamigrwydd a gwaith caled busnesau a gweithwyr Prydeinig erioed wedi bod dan amheuaeth

gormod o ranbarthau a chymunedau'n cael ei anwybyddu. Nid yw ein marchnad lafur yn darparu swyddi sicr ac, o ganlyniad, nid yw gwaith yn talu i lawer gormod o bobl.

Nid yw arloesedd, deinamigrwydd a gwaith caled busnesau a gweithwyr Prydeinig erioed wedi bod dan amheuaeth. Bydd y llywodraeth Lafur nesaf yn ffurfio partneriaeth â nhw i sbarduno twf economaidd ac ailadeiladu Prydain. Yma yng Nghymru, trwy waith ym meysydd fel Banc Datblygu Cymru a'r Rhaglen Cyflymu Twf, mae Llywodraeth Llafur Cymru yn dangos pa mor allweddol y gall gweithio mewn partneriaeth â busnes fod.

**Partneriaeth strategol trwy strategaeth ddiwydiannol**

Bydd Llafur yn cyflwyno strategaeth ddiwydiannol newydd. Bydd ein hymagwedd yn cael ei sbarduno gan genhadaeth ac yn canolbwyntio ar y dyfodol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â diwydiant i achub ar gyfleoedd a chwalu rhwystrau rhag twf. Yn hollbwysig, byddwn yn rhoi terfyn ar lunio polisïau economaidd tymor byr trwy sefydlu Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol, ar sail statudol, i roi cyngor arbenigol. Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl wledydd a rhanbarthau, byd busnes ac undebau llafur, i sbarduno twf economaidd ym mhob rhan o'r wlad.

Bydd Llafur yn defnyddio ymagwedd fesul sector ac yn llwyr ymwybodol o'r meysydd lle mae gan y Deyrnas Unedig fanteision dros wledydd eraill. Bydd ein hymagwedd yn cefnogi'r hyn sy'n gwneud Prydain yn wych: ein sefydliadau ymchwil rhagorol, gwasanaethau proffesiynol, gweithgynhyrchu uwch fel lled-ddargludyddion, ynni gwyrdd, a diwydiannau creadigol. Byddwn yn sicrhau amgylchedd sydd o blaid busnes, gyda fframwaith cystadleuaeth a rheoleiddiol, sy'n cefnogi arloesedd, buddsoddiad, a swyddi o ansawdd uchel. Bydd

polisi caffael a masnachu yn cyd-fynd â blaenoriaethau ein strategaeth ddiwydiannol hefyd, gan weithio law yn llaw â Llywodraeth Llafur Cymru.

Gwasanaethau ariannol yw un o feysydd llwyddiant mwyaf Prydain. Bydd Llafur yn creu'r amodau i gefnogi arloesedd a thwf yn y sector, trwy gefnogi technoleg newydd, gan gynnwys Bancio Agored a Chyllid Agored a sicrhau fframwaith rheoleiddiol sydd o blaid arloesedd.

Mae angen i ddiwydiannau pwysig eraill Prydain gael sicrwydd ynglŷn â'r polisïau a fydd yn berthnasol iddynt. Fel gwrthblaid, mae Llafur wedi gweithio gyda'r sectorau modurol, gwyddorau bywyd, a chreadigol ar ein hymagwedd at bolisi. Mewn grym, byddwn yn amlinellu cynlluniau ar gyfer y rhain a sectorau eraill allweddol o'r economi.

O ran Cymru, bydd y strategaeth ddiwydiannol yn atgyfnerthu cenhadaeth economaidd Llywodraeth Llafur Cymru i gyflawni mwy o fuddsoddiad a swyddi gwell. Trwy gefnogi ein pedwar maes blaenoriaeth cenedlaethol, gall llywodraethau Llafur cydweithredol gyflawni newid cyfiawn i ddyfodol cynaliadwy, gyda gwaith teg yn ganolog iddo.

**Hybu buddsoddiad**

Mae busnes wedi cael ei rwystro'n rhy hir gan lywodraeth yn San Steffan nad yw'n gweithio gydag ef. O ganlyniad, mae buddsoddiad yn y Deyrnas Unedig yn rhy isel. Bydd Llafur yn defnyddio pob ysgogiad sydd ar gael i fynd i'r afael â'r broblem hirsefydlog hon. Mae buddsoddiad cyhoeddus, lle mae'n cefnogi ac yn dadrisgio buddsoddiad preifat ychwanegol, yn un offeryn pwysig sy'n cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus ledled y byd. Fe all greu swyddi da ar draws y wlad a byddai'n golygu bod trethdalwyr Prydain yn gallu manteisio ar dwf economaidd. Bydd Llafur yn sefydlu Cronfa Cyfoeth Cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan i wireddu'r cyfleoedd hyn. Gyda llywodraethau Llafur yng Nghymru a San Steffan yn gweithio mewn partneriaeth, bydd y Gronfa Cyfoeth Cenedlaethol a'r strategaeth ddiwydiannol yn cyflawni buddion enfawr gyda'i gilydd.

Bydd gan y Gronfa Cyfoeth Cenedlaethol, wedi'i chyfalafu â £7.3 biliwn yn ystod y cyfnod seneddol nesaf, gylch gwaith i gefnogi cenadaethau twf ac ynni glân Llafur, gan wneud buddsoddiadau trawsnewidiol ym mhob rhan o'r wlad. Bydd gan y gronfa darged o ddenu tair punt o fuddsoddiad preifat am bob punt o

# Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â diwydiant i achub ar gyfleoedd a chwalu rhwystrau rhag twf

fuddsoddiad cyhoeddus, gan greu swyddi ar draws y wlad. Bwriadwn ddyrannu:

- £1.8 biliwn i uwchraddio porthladdoedd a datblygu cadwyni cyflenwi ledled y Deyrnas Unedig
- £1.5 biliwn i gigaffatrïoedd newydd fel bod ein diwydiant modurol yn arwain y ffordd yn fyd-eang
- £2.5 biliwn i ailadeiladu ein diwydiant dur
- £1 biliwn i gyflymu dal carbon
- £500 miliwn i gefnogi gweithgynhyrchu hydrogen gwyrdd.

Mae'n hollbwysig bod y diwydiant dur yn parhau i fod yn gonglfaen i'n heconomi ac wrth wraidd ein cymunedau. Mae'r argyfwng ym Mhort Talbot wedi digwydd o ganlyniad i lywodraeth Geidwadol anhrefnus nad yw erioed wedi deall treftadaeth ddiwydiannol na dyfodol Cymru.

Mae dyfodol hyfyw i weithgynhyrchu dur yng Nghymru o fewn trawsnewidiad sy'n cefnogi dyfodol cryfach, gwyrddach i economi Cymru. Mae ymrwymiad Llafur i glustnodi £2.5 biliwn i achub diwydiant dur y Deyrnas Unedig, ar ben y £500 miliwn a addawyd i Bort Talbot, yn dangos yr uchelgais y mae arnom ei angen.

Bydd Llafur yn gweithredu i gynyddu buddsoddiad o gronfeydd pensiwn ym marchnadoedd y Deyrnas Unedig. Byddwn yn gwneud diwygiadau i sicrhau bod cynlluniau pensiwn gweithle yn manteisio ar gyfuno a graddfa, i ddarparu adenillion gwell i gynilwyr yn y Deyrnas Unedig a mwy o fuddsoddiad cynhyrchiol ar gyfer UK PLC. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad o sefyllfa pensiynau i ystyried pa gamau ychwanegol sy'n angenrheidiol i wella canlyniadau pensiynau a chynyddu buddsoddiad ym marchnadoedd y Deyrnas Unedig.

**Trethi busnes**
Mae'r system trethi busnes yn bwysig i fuddsoddwyr. Nid dim ond cyfraddau treth sy'n bwysig, ond



sicrwydd hefyd. Mae'r Ceidwadwyr wedi bod yn newid pethau'n gyson – mae'r dreth gorfforaeth wedi newid 26 o weithiau – ac mae digwyddiadau cyllidol niferus wedi gwneud newidiadau mawr a hynny'n aml heb lawer o rybudd.

Bydd Llafur yn atal yr anhrefn, ac yn troi'r ddalen gydag ymagwedd strategol sy'n rhoi sicrwydd ac yn caniatáu ar gyfer cynllunio tymor hir. Rydym wedi ymrwymo i un digwyddiad cyllidol mawr y flwyddyn, gan roi rhybudd priodol i deuluoedd a busnesau am bolisïau trethi a gwario. Byddwn yn cyhoeddi map trywydd trethi busnes ar gyfer y senedd nesaf a fydd yn caniatáu i fusnesau gynllunio buddsoddiadau'n hyderus.

Bydd Llafur yn cadw treth gorfforaeth ar y lefel bresennol, sef 25 y cant, sef yr isaf yng ngwledydd y G7, ar hyd cyfnod y senedd, a byddwn yn gweithredu os bydd newidiadau i drethi mewn gwledydd eraill yn peryglu cystadleurwydd y Deyrnas Unedig. Byddwn yn cadw system dreuliau lawn barhaol ar gyfer buddsoddi cyfalaf a'r lwfans buddsoddi blynyddol ar gyfer busnesau bach. A byddwn yn rhoi


makita

mwy o eglurder i gwmnïau ar yr hyn sy'n gymwys ar gyfer lwfansau er mwyn gwella penderfyniadau buddsoddi busnesau.

Mae diwygiadau arloesol Llafur Cymru i'r system trethi busnes yng Nghymru wedi ymdrechu i greu system fwy ymatebol ac effeithlon ar gyfer trethdalwyr, a ddyluniwyd i adlewyrchu'r amodau economaidd a chymdeithasol ymhell i'r dyfodol. Fodd bynnag, bu angen gwneud y system yn decach i'n strydoedd mawr ar lefel y Deyrnas Unedig erioed. Bydd llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig yn gweithio gyda Llywodraeth Llafur Cymru i ddiwygio'r system trethi busnes er mwyn sicrhau tegwch rhwng ein strydoedd mawr a'r cewri ar-lein.

Bydd Llafur yn atal yr anhrefn, ac yn troi'r ddalen gydag ymagwedd strategol sy'n rhoi sicrwydd ac yn caniatáu ar gyfer cynllunio tymor hir

**Seilwaith economaidd**
Mae Prydain yn arafu i sefyll. Mae mwy o drenau'n cael eu canslo nag erioed o'r blaen ledled y Deyrnas Unedig ac mae prisiau ynni wedi codi'n gyflymach yma nag mewn unrhyw wlad arall yng ngorllewin Ewrop. Nid damwain mo hynny. Mae anhrefn y Ceidwadwyr wedi arwain at gefnu ar brosiectau mawr, oedi sydd wedi para degawdau, costau cynyddol, ansicrwydd i gadwyni cyflenwi, a seilwaith sy'n chwalu.

Bydd Llafur yn atal yr anhrefn yma trwy ddatblygu strategaeth seilwaith deng mlynedd, sy'n cyd-fynd â'n strategaeth ddiwydiannol a'n blaenoriaethau datblygu rhanbarthol. Mewn partneriaeth â'r llywodraethau datganoledig, bydd y strategaeth yn arwain cynlluniau buddsoddi ac yn rhoi sicrwydd i'r sector preifat ynglŷn â llif prosiectau. Byddwn yn gweithio'n agos gyda busnes i fapio'r heriau rydym yn eu hwynebu a mynd i'r afael â nhw. Byddwn yn creu Awdurdod Trawsnewid Gwasanaethau a Seilwaith Cenedlaethol newydd, gan ddwyn ynghyd cyrff presennol, i osod blaenoriaethau seilwaith strategol a goruchwylio dyluniad, cwmpas, a chyflawniad prosiectau.

# Bydd Llafur Cymru hefyd yn parhau i gyflawni'r egwyddorion a nodir yng Nghymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol – gan helpu i gyflawni system gynllunio unigryw yng Nghymru

Yng Nghymru, mae'r Ddeddf Cydsynio Seilwaith yn caniatáu trefniadau cydsynio mwy effeithlon ac effeithiol i benderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiadau seilwaith ar y tir ac ar y môr, yn ogystal â seilwaith arall.

Bydd Llafur Cymru hefyd yn parhau i gyflawni'r egwyddorion a nodir yng Nghymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol – gan helpu i gyflawni system gynllunio unigryw yng Nghymru. Fel gwlad, rydym yn deall ein dyletswydd i fod yn gyfrifol ar lefel fyd-eang ac rydym hefyd yn cydnabod bod datblygiad da yn bwysig i ardaloedd lleol a chymunedau. Cymru'r Dyfodol yw'r cysylltiad allweddol rhwng y ddau, a bydd yn ein galluogi i wneud y dewisiadau iawn am yr ugain mlynedd nesaf – fel bod y datblygiadau iawn yn digwydd yn y lleoedd iawn.

Mae'r system gynllunio'n cyflawni rôl bwysig ym mywydau pobl. Mae'n helpu i ffurfio a chyflawni lleoedd a datblygu cynaliadwy, sbarduno adferiad economaidd sydd wedi'i seilio ar werthoedd, a gwella llesiant cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bydd Llafur yn sicrhau bod rheoleiddio economaidd yn cefnogi twf a buddsoddiad, yn hybu cystadleuaeth, yn gweithio i ddefnyddwyr, ac yn galluogi arloesedd.

Mewn byd mwyfwy cysylltiedig, mae rhwydwaith cyfathrebu Prydain yn hollbwysig hefyd. O dan y Ceidwadwyr, mae buddsoddiad mewn 5G y tu ôl i wledydd eraill ac mae'r broses o gyflwyno band eang gigadid wedi bod yn araf. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi pontio'r bwlch a darparu mynediad at fand eang all drosglwyddo data ar gyfradd gigadid i fwy na 121,000 o eiddo

trwy ein prosiect Cyflymu Cymru a chyflwyno ffeibr llawn yn ddiweddar. Mae ein Cronfa Band Eang Lleol wedi darparu dros £11 miliwn i brosiectau ledled Cymru, hefyd. Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn croesawu uchelgais llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig ar gyfer cwmpas gigadid llawn a 5G cenedlaethol erbyn 2030.

Mae'r Post Brenhinol yn rhan allweddol o seilwaith y Deyrnas Unedig o hyd. Bydd Llafur yn sicrhau bod unrhyw fwriad arfaethedig i'w feddiannu yn destun craffu trwyadl a bod gwarantau priodol yn cael eu cyflwyno sy'n diogelu buddiannau'r gweithlu, cwsmeriaid a'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys yr angen i gynnal rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol cynhwysfawr.

Bydd Llafur hefyd yn archwilio modelau busnes a llywodraethu newydd ar gyfer y Post Brenhinol fel y gall gweithwyr a chwsmeriaid sy'n dibynnu ar wasanaethau'r Post Brenhinol gael llais cryfach ym mhrosesau llywodraethu a chyfeiriad strategol y cwmni.

**Rhwydwaith trafnidiaeth modern**

Mae seilwaith trafnidiaeth o ansawdd uchel yn allweddol i ddyfodol Cymru: gan greu cyfleoedd a chysylltu pobl, busnesau, a chymunedau.

Trwy'r buddsoddiad £1 biliwn presennol yn y Metro, buddsoddiad £800 miliwn mewn trenau newydd sbon sy'n gwasanaethu pob cwr o Gymru, a chynlluniau ar gyfer diwygiad sylfaenol i fysiau – mae Llywodraeth Llafur Cymru yn trawsnewid trafnidiaeth gyhoeddus ar yr un pryd â'i gwneud yn haws ac yn fwy diogel i bobl gerdded a beicio. Bydd Llafur Cymru hefyd yn gweithio gyda llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig i ddarparu system reilffordd ddibynadwy, effeithiol, a gwell yng Ngogledd Cymru.

Yng Nghymru, mae tri chwarter y teithiau trafnidiaeth gyhoeddus ar fysiau. Drwy adfer rôl llywodraeth leol wrth gynllunio gwasanaethau bysiau lleol a chodi'r gwaharddiad ar berchnogaeth ddinesig byddwn yn darparu system fysiau well i Gymru. Mae hyn wrth wraidd ein gweledigaeth i ddarparu Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn.

Bydd y rhan fwyaf o deithiau'n parhau i gael eu gwneud mewn cerbydau preifat ac, yn unol ag argymhellion Adolygiad Lugg, bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn canolbwyntio ar gynnal a gwella'r rhwydwaith ffyrdd, gan gynnwys addasu i effaith y newid yn yr hinsawdd, gan weithio gyda llywodraeth leol i drwsio ffyrdd lleol a llenwi tyllau.



Bydd Llafur yn cefnogi gyrwyr trwy fynd i'r afael â chost yswiriant car sy'n codi i'r entrychion, a byddwn yn parhau i gefnogi'r newid i gerbydau trydan trwy gyflwyno mannau gwefru a chanolbwyntio buddsoddiad cyhoeddus ar leoliadau lle y mae'r angen mwyaf amdano.

Bydd Llafur hefyd yn rhoi sicrwydd i weithgynhyrchwyr trwy adfer y targed i ddiddymu ceir a faniau petrol a diesel newydd yn raddol erbyn 2030, ynghyd â chefnogi prynwyr ceir trydan ail-law.

Y model presennol ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru yw'r mwyaf cymhleth o holl wledydd y Deyrnas Unedig, ac mae teithwyr wedi wynebu 14 blynedd o addewidion gwag y Torïaid ynglŷn â seilwaith rheilffyrdd.

Gan gydnabod cyfrifoldebau presennol Trafnidiaeth Cymru, bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig ar ei chynllun uchelgeisiol i ddiwygio rheilffyrdd, gan gynnwys yr Awdurdod Safonau Teithwyr newydd arfaethedig.

Bydd llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig yn sefydlu Great British Railways – sef corff newydd unedig a berchnogir yn gyhoeddus a fydd

yn cynnal y rheilffyrdd er budd y cyhoedd. Bydd gan Lywodraeth Llafur Cymru rôl statudol wrth lywodraethu, rheoli, cynllunio a datblygu'r rhwydwaith rheilffyrdd. Bydd Cymru yn gallu cytuno ar wasanaethau rheilffyrdd trawsffiniol a rhanbarthol gyda Great British Railways, gan alluogi ein cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus ddi-dor, integredig sy'n cael ei chynnal er budd teithwyr ymhellach. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig i greu llif o welliannau rheilffyrdd yng Nghymru. Bydd hyn yn ychwanegu at y ffrwd waith Cyfuno a arweinir gan ddiwydiant i ddod â thraciau a threnau ynghyd yng Nghymru.

Bydd Llafur yn sicrhau dyfodol tymor hir diwydiant hedfanaeth y Deyrnas Unedig, gan gynnwys trwy hyrwyddo tanwyddau hedfanaeth cynaliadwy, ac annog moderneiddio gofod awyr.

**Sbarduno arloesedd**

Mae cyflawni twf a chynyddu cynhyrchedd yn dibynnu ar feddwl mewn ffordd wahanol a chyflwyno syniadau newydd yn ddi-baid. Mae llawer o fusnesau blaengar ym Mhrydain, ond mae angen i arloesedd gael ei drosi'n llwyddiant masnachol ym mhob cwr o'n gwlad. Bydd Llafur yn gwneud Prydain y lle gorau i gychwyn a thyfu busnes.

Mae Cymru eisoes yn arwain y ffordd mewn meysydd fel dylunio, datblygu, a masnacheiddio lled-ddargludyddion sy'n rhan annatod o'r economi sero net, sy'n dangos sut gall ymagwedd integredig helpu i ddarparu swyddi tra medrus a thwf economaidd.

Mae strategaeth arloesedd Llywodraeth Llafur Cymru sydd wedi'i seilio ar genhadaeth wedi'i dylunio i ddatgloi'r syniadau newydd a all ysgogi economi decach a gwyrddach. Mae angen partner ar Gymru sy'n rhannu'r uchelgais a'r ymrwymiad tymor hir yna.

Bydd llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig yn sicrhau bod ein strategaeth ddiwydiannol yn cefnogi datblygiad y sector Deallusrwydd Artiffisial (AI) ac yn dileu rhwystrau cynllunio ar gyfer canolfannau data newydd. A byddwn yn creu Llyfrgell Ddata Genedlaethol i ddwyn ynghyd rhaglenni ymchwil presennol a helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a ysgogir gan ddata, ar yr un pryd â chynnal mesurau diogelu cryf a sicrhau bod pob aelod o'r cyhoedd yn elwa.

Bydd Llafur yn dileu cylchoedd cyllido byr ar gyfer sefydliadau ymchwil a datblygu allweddol o blaid cyllidebau deng mlynedd sy'n caniatáu partneriaethau ystyrlon â

# Mae strategaeth arloesedd Llywodraeth Llafur Cymru sydd wedi'i seilio ar genhadaeth wedi'i dylunio i ddatgloi'r syniadau Newydd a all ysgogi economi decach a gwyrddach

diwydiant fel bod y Deyrnas Unedig yn parhau i arwain y ffordd o ran arloesedd byd-eang. Byddwn yn gweithio gyda phrifysgolion i gefnogi cwmnïau deillio; ac yn gweithio gyda diwydiant i sicrhau bod egin fusnesau'n gallu cael at y cyllid y mae arnynt ei angen i dyfu. Byddwn hefyd yn symleiddio'r broses gaffael i gefnogi arloesedd a lleihau microreoli gydag ymagwedd a sbardunir gan genhadaeth.

Ar hyn o bryd, nid yw rheoleiddwyr mewn sefyllfa dda i ddelio â datblygiad cyflym technolegau newydd, sy'n aml yn torri ar draws diwydiannau a sectorau traddodiadol. Bydd Llafur yn creu Swyddfa Arloesedd Rheoleiddio newydd, gan ddwyn ynghyd swyddogaethau presennol ar draws y llywodraeth. Bydd y swyddfa hon yn helpu rheoleiddwyr i ddiweddaru rheoliadau, cyflymu amserlenni cymeradwyo, a chydlynu materion sy'n rhychwantu ffiniau presennol. Bydd Llafur yn sicrhau bod modelau AI yn cael eu datblygu a'u defnyddio'n ddiogel trwy gyflwyno rheoliadau cyfrwymol ar gyfer y llond llaw o gwmnïau sy'n datblygu'r modelau AI mwyaf pwerus a gwahardd creu ffugiadau dwfn rhywiol.

Bydd Llafur yn cefnogi modelau busnes amrywiol sy'n cyflwyno arloesedd a chynhyrchion newydd i'r farchnad. Mae hyn yn cynnwys y sector cydweithredol. Mae Llywodraeth Llafur Cymru eisoes wedi dyblu nifer y cwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru, ac mae'n benderfynol o'u dyblu eto. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i fynd i'r afael â'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu, fel cael at gyllid.

**Cymorth i fusnesau bach a phobl hunangyflogedig**

Mae cynllun Llafur ar gyfer twf economaidd wedi cael ei ddatblygu ar gyfer holl fusnesau'r Deyrnas Unedig. Ond mae cwmnïau

bach, entrepreneuriaid, a phobl hunangyflogedig yn wynebu heriau unigryw. Dyna pam mae Llafur, mewn partneriaeth, wedi datblygu cynllun ar gyfer busnesau bach – einioes cymunedau a strydoedd mawr ar hyd a lled Prydain.

Byddwn yn gweithredu ar daliadau hwyr i sicrhau bod busnesau bach a phobl hunangyflogedig yn cael eu talu'n brydlon. Byddwn yn gwella canllawiau ac yn dileu rhwystrau rhag allforio ar gyfer busnesau bach. Bydd diwygio Banc Busnes Prydain, gan gynnwys mandad cryfach i gefnogi twf yn y gwledydd a'r rhanbarthau, yn ei gwneud yn haws i fusnesau bach a chanolig gael at gyfalaf. Byddwn hefyd yn diwygio rheolau caffael er mwyn rhoi mwy o fynediad iddynt at gontractau'r llywodraeth.

Mae cefnogi busnesau o bob lliw a llun yn flaenoriaeth o hyd. Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi ymrwymo i adeiladu ar lwyddiant Busnes Cymru, Busnes Cymdeithasol Cymru a Banc Datblygu Cymru, ac ati. Mae'r dulliau cymorth hyn yn cynnig cymorth hollbwysig i fusnesau ac entrepreneuriaid ym mhob cwr o'r wlad. Maen nhw'n cefnogi ystod eang o fusnesau i ddatblygu'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r cysylltiadau sy'n angenrheidiol i dyfu eu busnesau, ar yr un pryd â helpu i hwyluso'r cyllid sy'n ofynnol i ffynnu. Cafodd y Banc Datblygu yn unig effaith gyfan o £1.5 biliwn ar economi Cymru rhwng 2017 a 2023. Mae Llafur Cymru yn falch o'r cymorth a gynigir i fusnesau yng Nghymru a bydd yn cydweithio â llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig i ganiatáu i'n busnesau ffynnu.

Bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn adnewyddu trefi a strydoedd mawr yng Nghymru trwy'r rhaglen £100 miliwn Trawsnewid Trefi a sefydlu mesurau i gynyddu nifer yr ymwelwyr â'n strydoedd mawr trwy'r ymagwedd Canol Trefi yn Gyntaf.

Mae'r Swyddfa Bost yn wasanaeth hanfodol mewn cymunedau ledled y wlad. Bydd Llafur yn chwilio am ffyrdd o gryfhau'r rhwydwaith Swyddfeydd Post, mewn ymgynghoriad ag is-bostfeistri, undebau llafur a chwsmeriaid, ac yn cefnogi datblygiad cynhyrchion, gwasanaethau a modelau busnes newydd, fel canolfannau bancio, a fydd yn helpu i adfywio'r stryd fawr. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr is-bostfeistri hynny yr effeithiwyd arnynt yn gywilyddus gan sgandal TG Horizon yn cael cyfiawnder ac iawndal yn gyflym.

**Annog Prydain i adeiladu eto**

Dylai pawb gael lle o'r enw cartref, gyda mynediad at dai cynnes,



o ansawdd da yn eu cymunedau lleol – p’un a ydynt yn rhentu neu’n prynu.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn gweithio tuag at Gymru o gymunedau ffyniannus, y gall pobl fforddio byw a gweithio ynddynt – ar hyd y flwyddyn.

Mae buddsoddi mewn tai cymdeithasol yn lleihau tlodi, yn gwella iechyd ac yn helpu i sbarduno twf economaidd. Mae Llafur Cymru yn buddsoddi mewn tai cymdeithasol a bydd yn darparu 20,000 o gartrefi newydd ar gyfer rhent cymdeithasol erbyn 2026, gyda phob adeilad newydd yn garbon niwtral. Mae hyn yn ychwanegu at ddarparu mwy nag 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn llwyddiannus yn ystod tymor y Senedd flaenorol.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn cefnogi cynghorau i adeiladu eto, ac mae’r tai fforddiadwy a ddarperir gan gynghorau yng Nghymru wedi treblu yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn yn hollol wahanol i hanes y Ceidwadwyr yn Lloegr, lle mae’r cartrefi a ddarperir ar gyfer rhent cymdeithasol wedi gostwng 76% ers 2010.

Mae Llafur Cymru wedi cynyddu faint o dir sydd ar gael ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy. Trwy’r

broses adolygu cynlluniau datblygu lleol, anogir awdurdodau cynllunio lleol i amlygu safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy lle mae'n rhaid i 50% o leiaf o'r tai fod yn fforddiadwy.

Nid yw'r Ceidwadwyr wedi gweithredu er bod yr argyfwng tai yn un o'r rhwystrau mwyaf rhag twf ym Mhrydain. Yng Nghymru, mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi ymestyn y cynllun Cymorth i Brynu hyd at fis Mawrth 2025. Ers iddo lansio yn 2014, mae Cymorth i Brynu – Cymru wedi cynorthwyo miloedd o bobl i wireddu eu breuddwyd o berchen ar gartref.

Mae Llafur Cymru wedi cymryd camau arloesol i fynd i'r afael â materion a achosir gan berchen ar ail gartref mewn cymunedau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru hefyd wedi gweithio'n galed i helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain trwy argyfwng costau byw y Ceidwadwyr. Mae'r cynllun Cymorth i Aros yn rhoi opsiwn i berchnogion tai sydd mewn perygl difrifol o golli eu cartref trwy gynnig ad-dalu rhan o falans morgais presennol trwy fenthyciad ecwiti di-log am bum mlynedd, gan leihau'r ad-daliadau morgais diwygiedig i lefel y gall yr ymgeisydd ei fforddio.

## Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn gweithio tuag at Gymru o gymunedau ffyniannus, y gall pobl fforddio byw a gweithio ynddynt – ar hyd y flwyddyn

Mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol, ynghyd â Pholisi Cynllunio Cymru, yn pwysleisio'r angen am gymunedau cynaliadwy, ffyniannus, sy'n gweithio mewn cytgord â'r amgylchedd naturiol ac yn rhoi pwyslais ar seilwaith gwyrdd yn ogystal â seilwaith traddodiadol wrth gynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy y dyfodol. Mae Llafur Cymru yn helpu cynghorau i sefydlu asesiadau o'r farchnad dai leol er mwyn cynllunio'n briodol ar gyfer nifer y cartrefi y mae eu hangen ar eu cymunedau.

Ynghyd â llywodraeth Lafur yn San Steffan, byddai Llywodraeth Llafur Cymru yn gallu diwygio rheolau

iawndal prynu gorfodol ymhellach i wella prosesau cyfosod tir, cyflwyno safleoedd yn gyflymach, a darparu tai, seilwaith, amwynderau a buddion trafnidiaeth er budd y cyhoedd.

Mae'r system gynllunio'n allweddol i ddarparu'r cartrefi hyn, ond mae'n amlwg bod adrannau cynllunio wedi'u gorymestyn ar ôl 14 blynedd o gyni'r Ceidwadwyr. Ynghyd â llywodraeth Lafur yn San Steffan, bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn ailadeiladu capasiti'r adrannau hyn.

**Twf economaidd ledled y wlad**

Mae gan bob tref a dinas ledled Prydain gyfraniad hollbwysig i'w wneud i'n heconomi. O ran Cymru, nid yw'r Ceidwadwyr wedi dangos yr uchelgais sy'n ofynnol i gefnogi'r potensial helaeth ar draws ein heconomi. Mae'r potensial hwnnw wedi cael ei ffrwyno oherwydd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn San Steffan yn aml, ac nid gan arweinwyr lleol sy'n deall uchelgeisiau a chryfderau lleol. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gwneud y mwyaf o'r cyfraniad y gall pawb ei wneud, gan rwystro twf economaidd. Felly, bydd Llafur yn trosglwyddo pŵer allan o San Steffan, ac i'n cymunedau. Gyda Llafur, bydd Cymru yn rheoli ei thynged economaidd unwaith eto. Bydd Llafur yn rhoi'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ynglŷn â dyrannu cronfeydd strwythurol yn ôl i gynrychiolwyr Cymru.

Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi ceisio gweithio mewn partneriaeth â chynghorau bob amser. Ar ôl 14 blynedd o gyni'r Ceidwadwyr, mae cynghorau'n wynebu heriau ariannol difrifol. Bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn gweithio gyda llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig i roi mwy o sefydlogrwydd i'r gwasanaethau y mae cymunedau'n dibynnu arnynt.

Mae gwella gwasanaethau cyhoeddus yn hanfodol i dyfu ein heconomi. Mae gan weithwyr gwasanaethau cyhoeddus rôl allweddol i'w chwarae, ond mae gwasanaethau'n dioddef argyfyngau recriwtio a chadw a achoswyd gan 14 blynedd o gamreoli economaidd o dan y Ceidwadwyr. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ar draws llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Unedig i wella safonau byw gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus drwy gydol cyfnod y senedd, a sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn hyderus mewn unrhyw ddulliau annibynnol.

Bydd Llafur hefyd yn gweithio gyda Llywodraethau Cymru a'r Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, i

sbarduno twf ar draws y wlad. Bydd ein strategaeth ddiwydiannol yn cefnogi diwydiannau llwyddiannus ar draws holl wledydd y Deyrnas Unedig.

**System fewnfudo deg a reolir yn briodol**

Mae pobl sydd wedi dod i'r Deyrnas Unedig i weithio yn gwneud cyfraniad sylweddol at ein heconomi, ein gwasanaethau cyhoeddus, a'n cymunedau.

## Bydd Llafur yn trosglwyddo pŵer allan o San Steffan, ac i'n cymunedau

Ond, o dan y Ceidwadwyr, mae economi Prydain wedi dod yn orddibynnol ar weithwyr o dramor i lenwi bylchau sgiliau. O ganlyniad, rydym wedi gweld mudo net yn cyrraedd y lefel uchaf erioed; dros deirgwaith yn fwy na'r lefel yn yr etholiad diwethaf yn 2019. Mae'n rhaid i'r lefel gyffredinol gael ei rheoli'n briodol. Bydd methiant i wneud hynny'n lleihau'r cymhellion i fusnesau hyfforddi'n lleol. Felly, bydd Llafur yn lleihau mudo net.

Bydd llywodraeth Lafur yn San Steffan yn diwygio'r system fewnfudo sydd wedi'i seilio ar bwyntiau fel ei bod yn deg ac yn cael ei rheoli'n iawn, gyda chyfyngiadau priodol ar fisâu, a thrwy gysylltu polisi sgiliau a mewnfudo. Ni fydd Llafur yn goddef cyflogwyr nac asiantaethau recriwtio sy'n camddefnyddio'r system fisa. Ac ni fyddwn yn goddef achosion o dorri cyfraith cyflogaeth. Bydd cyflogwyr sy'n herio'r rheolau'n cael eu gwahardd rhag hurio gweithwyr o dramor.

Mae polisi'r Ceidwadwyr yn anghydlynol, gyda phenderfyniadau ar fudo, sgiliau a chyflogau sectorau'n cael eu gwneud ar wahân. Bydd Llafur yn cyflwyno ffordd gydgysylltiedig o feddwl, gan sicrhau bod mudo i fynd i'r afael â phrinder sgiliau yn sbarduno cynllun i uwchsgilio gweithwyr a gwella amodau gwaith yn y Deyrnas Unedig. Byddwn yn cryfhau'r Pwyllgor Cynghori ar Fudo, ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer gweithio ar y cyd â chyrff sgiliau ledled y Deyrnas Unedig, y Cyngor Strategaeth Ddiwydiannol a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Byddwn yn rhoi terfyn ar y ddibyniaeth tymor hir ar weithwyr tramor mewn rhai rhannau o'r



economi trwy gyflwyno cynlluniau gweithlu a hyfforddi ar gyfer sectorau fel iechyd a gofal cymdeithasol, ac adeiladu.

Ni fydd sector yn gallu aros ar restrau prinder mewnfudo yn dragwyddol heb gymryd camau i hyfforddi gweithwyr mwyach.

**Cynorthwyo pobl i gael gwaith**
Mae Llywodraeth Llafur Cymru wedi llwyddo i wrthdroi'r duedd hanesyddol lle'r oedd cyfraddau diweithdra Cymru yn uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig.

Mae'r llwyddiant hwn wedi deillio o'r Cynllun ar gyfer Cyflogadwyedd a Sgiliau, gan gynnwys cynlluniau fel y Gymuned ar gyfer Gwaith, ReAct a Thwf Swyddi Cymru. Mae'r ymyriadau hyn wedi darparu cymorth wedi'i dargedu i filoedd o bobl, gan gynnwys rhai o'r bobl fwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas – gan roi gobaith a thrawsnewid bywydau.

Bydd Llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig yn gweithio mewn partneriaeth agos â Llywodraeth Llafur Cymru i ychwanegu at yr hanes hwn, fel y gallwn gefnogi mwy o bobl i gael gwaith a chamu ymlaen yn y gwaith.

Mae Llafur wedi ymrwymo i ddiwygio cymorth cyflogaeth fel ei fod yn sbarduno twf a chyfleoedd, gyda system wedi'i seilio ar hawliau a chyfrifoldebau. Byddai Llywodraeth Llafur Cymru a llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig yn sicrhau bod gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith yn cysylltu'n



well â'r gwasanaeth gyrfaoedd datganoledig. Byddwn yn sicrhau bod y Ganolfan Byd Gwaith yn ymatebol i gyflogwyr lleol, yn gynhwysol i bob defnyddiwr, ac yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau lleol eraill ac yn cefnogi strategaeth economaidd Llywodraeth Llafur Cymru.

I gynorthwyo mwy o bobl â chyflyrau iechyd neu anabledd i ymuno â'r gweithlu, bydd Llafur yn gweithio gyda Llywodraeth Llafur Cymru i ddatblygu cynlluniau ar gyfer lleihau anweithgarwch economaidd. I gefnogi hyn, byddwn yn datganoli cyllid cymorth cyflogaeth nad yw'n ymwneud â'r Ganolfan Byd Gwaith i Lywodraeth Cymru fel y gall ffurfio cynnig gwaith, iechyd a sgiliau cydgysylltiedig i bobl leol. Byddwn yn mynd i'r afael â'r ôl-groniad o hawlwyr Mynediad i Waith ac yn rhoi'r hyder i bobl anabl ddechrau gweithio heb ofni ailasesiad o'u budd-daliadau ar unwaith os nad yw'n gweithio. Credwn nad yw'r Asesiad Gallu i Weithio yn gweithio a bod angen iddo gael ei ddiwygio neu ei ddisodli, ochr yn ochr â chynllun priodol i gefnogi pobl anabl i gael gwaith.

Yng Nghymru, mae Gwarant i Bobl Ifanc Llafur yn cynorthwyo pawb 16 i 24 oed i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, neu i gael gwaith neu ddod yn hunangyflogedig. Hyd yma, mae mwy na 27,000 o bobl ifanc wedi dechrau rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau. Ers i'r warant gael ei lansio, mae mwy na 5,000 o bobl ifanc wedi symud ymlaen i gyflogaeth, mae dros 400 wedi cychwyn eu busnes eu



hunain ac mae mwy na 12,700 wedi dechrau prentisiaethau.

Trwy weithredu ein hymrwymiad i warant ieuenctid ledled Lloegr, byddwn yn dysgu o lwyddiant yr ymagwedd yng Nghymru, ac yn sicrhau bod Cynnig Ieuenctid yr Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio ochr yn ochr â'r ddarpariaeth ddatganoledig i gefnogi Gwarant i Bobl Ifanc Llywodraeth Llafur Cymru.

**Gwneud i waith dalu**

Mae mwy o sicrwydd mewn gwaith, cyflog gwell, a mwy o ymreolaeth yn y gweithle yn gwella bywydau pobl sy'n gweithio ac yn arwain at fuddion economaidd sylweddol. Nid yw deddfau cyflogaeth Prydain yn addas i'r economi fodern mwyach, ac mae deddfwriaeth ddiweddar gan y Ceidwadwyr wedi hybu gelyniaeth a gwrthdaro gan arwain at y cyfnod gwaethaf o gysylltiadau diwydiannol ers y 1980au.

Mae gan Lywodraeth Llafur Cymru hanes balch o wrthsefyll ymosodiadau'r Ceidwadwyr ar bobl sy'n gweithio, gan gynnwys pasio deddfwriaeth yn y senedd i atal elfennau o ddeddfwriaeth wrth-undebau llafur y Llywodraeth Geidwadol yng Nghymru.

I ormod o bobl, nid yw swydd yn cynnig llwybr allan o dlodi fel y dylai: naill ai oherwydd bod y gwaith yn ansicr, yn anhyblyg, neu'n talu'n isel; neu oherwydd bod pobl yn wynebu rhwystrau wrth geisio symud i swydd well. Mae busnesau cyfrifol yn wynebu cael eu tandorri pan nad yw hawliau'n cael eu gorfodi'n iawn.

# Nid yw cyfreithiau cyflogaeth hen ffasiwn Prydain yn addas ar gyfer yr economi fodern. Bydd Llafur yn gweithredu ein cynllun i 'Wneud i Waith Dalu: Cyflawni Bargen Newydd i Bobl sy'n Gweithio'

Bydd Llafur yn atal yr anhrefn ac yn troi'r ddalen i greu partneriaeth rhwng busnes ac undebau llafur, trwy weithredu 'Cynllun Llafur i Wneud i Waith Dalu: Cyflawni Bargen Newydd i Bobl sy'n Gweithio' yn llawn – gan gyflwyno deddfwriaeth o fewn 100 o ddiwrnodau. Byddwn yn ymgynghori'n llawn â busnesau, gweithwyr, a chymdeithas sifil ar sut i roi ein cynlluniau ar waith cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio. Bydd hyn yn cynnwys gwahardd contractau dim oriau camfanteisiol; rhoi terfyn ar ddiswyddo ac ailgyflogi; a chyflwyno hawliau sylfaenol i absenoldeb rhiant, tâl salwch, ac amddiffyniad rhag diswyddo annheg o'r cychwyn cyntaf. Byddwn yn cryfhau llais cyfunol gweithwyr, gan gynnwys trwy eu hundebau llafur, ac yn creu Corff Gorfodi Sengl i sicrhau bod hawliau cyflogaeth yn cael eu cynnal. Bydd y newidiadau hyn yn gwella bywydau pobl sy'n gweithio ledled y Deyrnas Unedig gyfan.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Llafur Cymru eisoes wedi deddfu i roi sail statudol i'w hymagwedd partneriaeth gymdeithasol.

Bydd Llafur hefyd yn sicrhau bod yr isafswm cyflog yn gyflog byw go iawn. Byddwn yn newid cylch gwaith y Comisiwn Cyflogau Isel annibynnol er mwyn iddo ystyried costau byw am y tro cyntaf. Bydd Llafur hefyd yn dileu'r bandiau oedran gwahaniaethol, fel bod gan bob oedolyn yr hawl i'r un isafswm cyflog, gan roi codiad cyflog i gannoedd ar filoedd o weithwyr ledled y Deyrnas Unedig.

**Bydd Llafur yn atal yr anhrefn, yn troi'r ddalen, ac yn sbarduno twf economaidd trwy ddiwygio ein heconomi.**



# GWNEUD PRYDAIN YN ARCHBŴER YNNI GLÂN

- **Sefydlu Great British Energy i leihau biliau'n barhaol**
- **Annibyniaeth ynni rhag unbeniaid fel Putin**
- **650,000 o swyddi newydd o ansawdd uchel ledled Prydain**
- **Cartrefi cynhesach i leihau tlodi tanwydd yn sylweddol**
- **Gweithredu i lanhau ein hafonydd**



Yr argyfwng hinsawdd a natur yw'r her fyd-eang tymor hir fwyaf sy'n ein hwynebu. Mae'r newid i ynni glân yn gyfle enfawr i gynhyrchu twf, mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a gwneud Prydain yn annibynnol o ran ynni unwaith eto. Dyna pam mae ynni glân erbyn 2030 yn ail genhadaeth Llafur.

Nid yw'r Ceidwadwyr wedi achub ar gyfleoedd yn y maes hwn am ddau reswm cysylltiedig. Yn gyntaf, oherwydd nad ydynt yn derbyn bod twf economaidd, diogeledd ynni, biliau is, a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd yn gallu ategu ei gilydd. Yn ail, oherwydd eu bod yn ideolegol yn erbyn defnyddio rôl y wladwriaeth, gan gynnwys buddsoddiad cyhoeddus, i sicrhau hynny.

Daeth y niwed a achoswyd gan 14 blynedd o bolisïau 'dros dro' anhrefnus i'r amlwg pan ymosododd Putin ar Wcráin. Saethodd cost ynni tanwydd ffosil i fyny ar y farchnad ryngwladol. O ganlyniad i waharddiad y Ceidwadwyr ar ynni'r gwynt newydd ar y tir yn Lloegr, eu methiant i adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd, a'u penderfyniad i roi terfyn ar fuddsoddi mewn inswleiddio cartrefi, wynebodd teuluoedd ym Mhrydain rai o'r biliau ynni uchaf yn Ewrop. Dyna un ffordd yn unig rydym yn talu'r pris. Tra bod gwledydd o amgylch y byd yn rhuthro ymlaen i hawlio'r swyddi a'r cyfoeth a gynigir gan y newid, mae Prydain ar ei cholled.

Ond nid yw'n rhy hwyr i atal yr anhrefn a throi'r ddalen.

Bydd y Cynllun Ffyniant Gwyrdd yn denu buddsoddiad newydd i Gymru, a allai godi pobl allan o dlodi a darparu cyfleoedd ar gyfer gyrfaoedd newydd. Mae Llywodraeth Llafur Cymru yn cefnogi'r daith hon, gan fuddsoddi mewn hydrogen, ynni'r llanw, ynni'r gwynt ar y tir ac ar y môr, arloesedd gwyrdd a Chynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net newydd.

Mae gan Brydain fanteision aruthrol sydd heb eu cyffwrdd: ein harfordir hir, gwyntoedd cryf, dyfroedd bas, prifysgolion, a gweithlu alltraeth medrus, ynghyd â'n galluoedd technolegol a pheirianegol helaeth. Mae Cymru mewn sefyllfa arbennig o dda i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn. Gyda strategaeth ddiwydiannol ddifrif, gydgysylltiedig a phartneriaeth go iawn rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn ogystal â rhwng llywodraethau Llafur yng Nghymru a San Steffan, gallwn wneud Prydain yn archbŵer ynni glân o hyd.

Bydd Llafur yn cymryd camau pendant i achub ar y cyfle economaidd hwn. Byddwn yn ffurfio marchnadoedd ac yn defnyddio buddsoddiad cyhoeddus i ddenu cyllid preifat. Bydd ein Cynllun Ffyniant Gwyrdd wrth wraidd ein

## Mae'r newid i ynni glân yn gyfle enfawr i gynhyrchu twf, mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw a gwneud Prydain yn annibynnol o ran ynni unwaith eto

hymagwedd lle byddwn, mewn partneriaeth â busnes trwy ein Cronfa Cyfoeth Cenedlaethol, yn buddsoddi yn niwydiannau'r dyfodol. Bydd ein cynllun yn creu 650,000 o swyddi ar draws y wlad erbyn 2030.

Byddwn yn atal arfer anhrefnus y Ceidwadwyr o newid o un polisi i'r llall, yn manteisio ar bŵer glân i hybu ein diogeledd ynni, ac yn buddsoddi mewn uwchraddio inswleiddio cartrefi. Byddwn yn arbed cannoedd o bunnoedd i deuluoedd ar eu biliau, nid yn unig yn y tymor byr, ond am byth.



Byddwn yn darparu arweinyddiaeth gartref fel y gallwn ddylanwadu ar eraill i sicrhau bod pob gwlad yn cyfrannu at gyflawni ein rhwymedigaethau cyfunol i genedlaethau'r dyfodol.

Gartref, bydd Llywodraeth Llafur Cymru yn parhau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur gyda'i gilydd. Trwy weithio ochr yn ochr â llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig, bydd yn dal ati i wella mynediad pobl at natur ar eu trothwy ac ar draws tirweddau hardd Cymru, yn hyrwyddo bioamrywiaeth, ac yn gwarchod ein bywyd gwyllt.

Mae Llafur yn deall y ffordd ymlaen. Rydym wedi datgan yn glir fod y newid hwn yn cynnig cyfle i greu swyddi da, heb adael yr un gymuned ar ôl, a chefnogi swyddi sy'n talu'n dda yn niwydiannau'r presennol a'r dyfodol. Mae'r Ceidwadwyr yn cynnig ffordd arall. Gwadu realiti; oedi cyn gweithredu; cynyddu costau i Brydain; ein hamlygu i ansicrwydd; a methiant i ennill swyddi'r dyfodol. Gwnaethant roi cynnig ar yr ymagwedd anhrefnus hon yn y 1970au a'r 1980au, ac mae'r hyn a ddigwyddodd wedi gadael ei ôl ar gymunedau ledled Cymru. Dyna'r dewis sy'n wynebu Prydain.

**Pŵer glân erbyn 2030**
Bydd system drydan ddi-garbon yn rhoi biliau is i deuluoedd a busnesau yn barhaol. Rydym wedi dewis y genhadaeth hon nid oherwydd ei bod yn rhwydd, ond oherwydd bod rhaid sicrhau nad yw pobl sy'n gweithio yn agored i niwed gan unbeniaid fel Putin byth eto.

I gyflawni ein cenhadaeth pŵer glân, bydd Llafur yn gweithio gyda'r sector preifat i ddyblu ynni'r gwynt ar y tir, treblu pŵer solar, a phedryblu ynni'r gwynt ar y môr erbyn 2030 ledled Prydain. Byddwn yn buddsoddi mewn dal a storio carbon, hydrogen ac ynni morol, ac yn sicrhau bod gennym y system storio ynni tymor hir y mae ei hangen ar ein gwlad. Bydd Deddf Annibyniaeth Ynni newydd yn sefydlu'r fframwaith ar gyfer polisïau ynni a hinsawdd Llafur.

Bydd Llafur yn rhoi terfyn ar ddegawd o anwadalu lle mae'r Ceidwadwyr wedi osgoi penderfyniadau ar bŵer niwclear. Byddwn yn sicrhau diogelwch tymor hir y sector, gan ymestyn oes gweithfeydd presennol, a byddwn yn cwblhau Hinkley Point C. Bydd gorsafoedd pŵer niwclear newydd, fel Sizewell C, ac Adweithyddion Modiwlaidd Bach, yn chwarae rôl bwysig wrth helpu'r Deyrnas Unedig i gyflawni diogeledd ynni a phŵer glân ar yr un pryd â sicrhau miloedd o swyddi da, medrus. Gyda dwy lywodraeth Lafur, byddwn yn parhau i archwilio'r cyfleoedd ar gyfer gorsaf niwclear newydd yn Wylfa.

Bydd Llafur yn cynnal cronfa wrth gefn strategol o orsafoedd pŵer nwy i sicrhau cyflenwad diogel. Byddwn yn sicrhau newid fesul cam a chyfrifol ym Môr y Gogledd sy'n cydnabod hanes balch ein diwydiant alltraeth a'i weithlu eithriadol, yn enwedig yn yr Alban a Gogledd-ddwyrain Lloegr, a rôl barhaus olew a nwy yn ein cymysgedd ynni.

Byddwn yn croesawu dyfodol cynhyrchu a storio ynni a fydd yn defnyddio seilwaith alltraeth presennol a sgiliau ein gweithlu alltraeth. Ni fydd Llafur yn dirymu trwyddedau presennol a byddwn yn ffurfio partneriaeth â busnesau a gweithwyr i reoli ein meysydd presennol ar hyd eu hoes. Yn hollbwysig, bydd olew a nwy yn cael eu cynhyrchu ym Môr y Gogledd am ddegawdau i ddod, a bydd Môr y Gogledd yn cael ei reoli mewn ffordd nad yw'n peryglu swyddi. A bydd ein gweithwyr alltraeth yn arwain y ffordd yn fyd-eang yn niwydiannau'r dyfodol.

Ni fyddwn yn rhoi trwyddedau newydd i archwilio meysydd newydd oherwydd ni fyddant yn

# Bydd Llafur yn creu cwmni newydd sy’n eiddo i’r cyhoedd, Great British Energy. Pobl Prydain fydd yn berchen arno a bydd yn rhoi pŵer yn ôl i bobl Prydain

arbed ceiniog ar filiau, ni allant roi sicrwydd ynni i ni, a byddant ond yn cyflymu’r argyfwng hinsawdd sy’n gwaethygu. Ni fyddwn yn rhoi trwyddedau glo newydd, ychwaith. Bydd llywodraeth Lafur y Deyrnas Unedig yn gwahardd ffracio am byth, fel y mae Llywodraeth Llafur Cymru eisoes wedi’i wneud yng Nghymru.

I gefnogi buddsoddiad yn y cynllun hwn, bydd Llafur yn dileu’r diangfeydd yn y dreth ffawdelw ar gwmnïau olew a nwy. Mae cwmnïau wedi elwa ar enillion enfawr nid oherwydd eu dyfeisgarwch neu fuddsoddiad, ond oherwydd ysgytwad ynni a gododd brisiau i deuluoedd Prydeinig. Felly, bydd Llafur yn ymestyn y cymal machlud yn yr Ardoll Elw Ynni tan ddiwedd y senedd nesaf. Byddwn hefyd yn cynyddu cyfradd yr ardoll dri phwynt canran, yn ogystal â dileu’r lwfansau buddsoddi anghyfiawnadwy o hael. Bydd Llafur hefyd yn cadw’r Mecanwaith Buddsoddi Diogeledd Ynni.

**Tanio Great British Energy**

I sbarduno buddsoddiad mewn cynhyrchu ynni glân sy’n cael ei gynhyrchu gartref, bydd Llafur yn creu cwmni newydd sy’n eiddo i’r cyhoedd, Great British Energy. Pobl Prydain fydd yn berchen arno a bydd yn rhoi pŵer yn ôl i bobl Prydain.

Gan weithio gyda Llywodraeth Lafur Cymru ac adeiladu ar waith Trydan Gwyrdd Cymru, bydd Llafur yn buddsoddi mewn ynni glân a swyddi da, yn lleihau biliau ynni unwaith ac am byth, ac yn gwneud Prydain yn annibynnol o ran ynni.

Bydd Great British Energy yn gweithio mewn partneriaeth â diwydiant ac undebau llafur i ddarparu pŵer glân drwy fuddsoddi ar y cyd mewn technolegau blaenllaw; bydd yn helpu i gefnogi prosiectau cyfalaf-ddwys; a bydd yn defnyddio cynhyrchiant ynni

lleol er budd cymunedau ledled y wlad. I gefnogi hyn, bydd Llafur yn buddsoddi cyfalaf o £8.3 biliwn yn Great British Energy yn ystod tymor y senedd nesaf.

Bydd y cwmni'n creu swyddi ac yn adeiladu cadwyni cyflenwi ym mhob cwr o'r DU. Yng Nghymru, bydd Great British Energy yn manteisio ar gyfleoedd cysylltiedig â thechnolegau ynni glân fel ffermydd gwynt arnofiol ar y môr yn y Môr Celtaidd. Bydd yn creu swyddi da, yn lleihau biliau ynni, ac yn pweru mwy o gartrefi yng Nghymru gydag ynni adnewyddadwy fydd yn cael ei gynhyrchu gartref.

Mae cynhyrchu pŵer lleol yn rhan hanfodol o'r gymysgedd ynni ac mae'n lleihau'r pwysau ar y grid trawsyrru. Bydd y Blaid Lafur yn defnyddio mwy o gapasiti cynhyrchu wedi'i ddosbarthu drwy ein Cynllun Pŵer Lleol. Bydd Great British Energy yn gweithio mewn partneriaeth â chwmnïau ynni, awdurdodau lleol a chwmnïau cydweithredol i osod miloedd o brosiectau ynni glân, drwy gyfuniad o brosiectau ynni gwynt ar y tir, ynni solar ac ynni dŵr. Byddwn yn gwahodd cymunedau i gyflwyno prosiectau, ac yn gweithio gydag arweinwyr lleol a llywodraethau datganoledig i sicrhau bod pobl leol yn elwa'n uniongyrchol o'r cynhyrchiant ynni hwn.

**Diwygio'r system ynni**
Dan y Ceidwadwyr, mae'r farchnad ynni ddiffygiol wedi diystyru cwsmeriaid. Mae'r llywodraeth wedi caniatáu camddefnydd cywilyddus, gan gynnwys gwasanaeth gwael i gwsmeriaid, cwmnïau'n mynd i'r wal gyda'r costau'n disgyn ar ysgwyddau talwyr biliau, a'r orfodaeth dorfol i osod mesuryddion rhagdalu.

Bydd Llafur yn sicrhau system reoleiddio llawer llymach sy'n rhoi defnyddwyr yn gyntaf ac yn denu'r buddsoddiad sydd ei angen i leihau biliau. Mae ffioedd sefydlog yn elfen ormodol o'n biliau, a byddwn yn gweithio gyda'r rheoleiddiwr i'w lleihau. Byddwn yn cryfhau'r rheoleiddiwr i sicrhau ei fod yn gallu dal cwmnïau i gyfrif am ddrwgweithredu, mynnu safonau perfformiad uwch, a sicrhau bod iawndal awtomatig i gwsmeriaid mewn achosion o fethiant.

Y grid cenedlaethol yw'r un rhwystr mwyaf i ddefnyddio pŵer rhad a glân a thrydaneiddio diwydiant. Gan nad yw dyddiadau cysylltu'r grid yn cael eu cynnig tan ddiwedd y 2030au, mae buddsoddiad pwysig mewn seilwaith a busnes yn cael ei ohirio neu ei golli dramor. Bydd Llafur yn gweithio gyda'r diwydiant i uwchraddio ein seilwaith trawsyrru cenedlaethol ac ailweirio Prydain.



**Swyddi o ansawdd uchel**

Wrth i Brydain ddod yn archbŵer ynni glân, mae Llafur yn benderfynol y byddwn yn creu swyddi newydd o ansawdd uchel, gan weithio gyda busnesau ac undebau llafur, wrth inni reoli'r newid. Byddwn yn ailadeiladu cadwyni cyflenwi gartref. Ac, fel yr economi fawr gyntaf i newid i system ynni glân, byddwn yn allforio technolegau'r dyfodol.

Bydd Cronfa Cyfoeth Cenedlaethol y Blaid Lafur yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn porthladdoedd, hydrogen a chlystyrau diwydiannol ym mhob cwr o'r wlad. Byddwn hefyd yn sicrhau dyfodol diwydiannau modurol a dur Prydain.

Byddwn yn gwobrwyo datblygwyr ynni glân gyda Bonws Swyddi Prydain, gan ddyrannu hyd at £500 miliwn y flwyddyn o 2026 ymlaen, i gymell cwmnïau sy'n cynnig swyddi, telerau ac amodau da ac sy'n adeiladu eu cadwyni cyflenwi gweithgynhyrchu yn ein hardaloedd diwydiannol, ein hardaloedd arfordirol a'n cymunedau ynni.

Bydd Llafur yn rhoi terfyn ar anghyfiawnder Cynllun Pensiwn y Glowyr. Byddwn yn adolygu'r trefniadau gwarged annheg ac yn trosglwyddo'r Gronfa Fuddsoddi Wrth Gefn yn ôl i aelodau, fel bod y glowyr a fu'n pweru ein gwlad - ac a oedd wrth galon cynifer o gymunedau yng Nghymru - yn cael pensiwn tecach.

**Cartrefi cynnes**

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector tai cymdeithasol yng Nghymru i ddarparu'r Rhaglen Cartrefi Cynnes. Yn ystod tymor y Senedd hon, mae'n cyflwyno rhaglen uchelgeisiol o ôl-osod tai cymdeithasol Cymru i greu cartrefi iach i denantiaid. Mae'r Safon Ansawdd Tai Cymru ddiweddaraf yn nodi'r safonau y dylai tai cymdeithasol eu cyrraedd dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i ddatblygu cynllun benthyciadau ar gyfer perchen-feddianwyr i ddarparu asesiad ôl-osod o'u cartref. Bydd hyn yn rhoi cynllun clir i berchen-feddianwyr o'r gwaith a fydd yn ofynnol i ddatgarboneiddio eu heiddo. Byddant yn cael cymorth i gael gafael ar gyllid grant a chymorth ariannol arall.

## Yng Nghymru, bydd Great British Energy yn manteisio ar gyfleoedd cysylltiedig â thechnolegau ynni glân fel ffermydd gwynt arnofiol ar y môr yn y Môr Celtaidd

Bydd cymorth ymarferol fel hyn gan Lywodraeth Lafur Cymru yn arbed cannoedd o bunnoedd i deuluoedd ar eu biliau ynni, yn lleihau tlodi tanwydd ac yn helpu i gyflawni yn erbyn targedau newid yn yr hinsawdd.

**Cyflymu tuag at sero net**

Gan mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i ddatgan argyfwng hinsawdd a natur, bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i arwain y ffordd o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chreu diogelwch ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd yn parhau i sbarduno datgarboneiddio yn y sector

# Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector tai cymdeithasol yng Nghymru i ddarparu'r Rhaglen Cartrefi Cynnes

cyhoeddus, ôl-osod cartrefi, a gweithio gyda phartneriaid ar draws pob sector o gymdeithas i gyflawni ein huchelgeisiau hinsawdd mewn ffordd deg, lle mae pawb yn rhannu'r manteision. Mae rhyddhau potensial swyddi gwyrdd o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy ledled Cymru, gan gynnwys yn y Môr Celtaidd, yn allweddol i hyn.

Mae diwydiant Prydain hefyd yn cael ei ddal yn ôl gan gostau trydan uchel, sydd yn aml wedi golygu nad yw buddsoddi yma'n gystadleuol. Bydd cenhadaeth ynni glân y Blaid Lafur yn lleihau'r biliau hynny, gan wneud busnesau Prydain yn gystadleuol yn rhyngwladol, ac mae ein Cronfa Cyfoeth Cenedlaethol yn cefnogi'r sectorau mwyaf ynni-ddwys i ddatgarboneiddio.

Mae Llafur yn cefnogi cyflwyno mecanwaith addasu pris carbon ar draws ffiniau. Bydd hyn yn diogelu diwydiannau Prydain wrth i ni ddatgarboneiddio, yn atal gwledydd rhag gwaredu nwyddau o ansawdd is i farchnadoedd Prydain, ac yn cefnogi'r DU i gyflawni ein hamcanion hinsawdd.

Bydd Llafur yn sicrhau bod y fframwaith sefydliadol ar gyfer llunio polisïau yn adlewyrchu ein hymrwymiadau i gyrraedd sero net a chyrraedd ein cyllidebau carbon. Bydd penderfyniad y Ceidwadwyr i atal Banc Lloegr rhag rhoi ystyriaeth briodol i newid yn yr hinsawdd yn ei fandadau yn cael ei wrthdroi.

Mae gan ddiwydiant gwasanaethau ariannol Prydain, sy'n flaenllaw yn fyd-eang, rôl bwysig i'w chwarae o ran defnyddio triliynau o bunnoedd mewn cyfalaf preifat i fynd i'r afael â her hirdymor fwyaf ein hoes. Bydd Llafur yn gwneud y DU yn bencadlys cyllid gwyrdd y byd, gan



orfodi sefydliadau ariannol sy'n cael eu rheoleiddio yn y DU - gan gynnwys banciau, rheolwyr asedau, cronfeydd pensiwn ac yswirwyr - a chwmnïau FTSE 100 i ddatblygu a gweithredu cynlluniau pontio credadwy sy'n cyd-fynd â nod 1.5°C Cytundeb Paris.

**Gwella gwydnwch**

Mae paratoi ar gyfer y dyfodol nid yn unig yn golygu mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, ond hefyd addasu i'r newidiadau y maent yn eu hachosi i'n hamgylchedd. Heb weithredu, bydd llifogydd ac erydu arfordirol yn peri mwy o risgiau i fywydau, bywoliaeth a lles pobl. Mae dulliau gwael y Ceidwadwyr o reoli risg, a dull gweithredu digyswllt ar draws y llywodraeth a rheoleiddwyr, wedi gadael Prydain yn agored iawn i risg.

Bydd Llafur yn gwella gwydnwch a pharatoadau, gyda Llywodraeth Lafur Cymru a llywodraeth Lafur y DU yn gweithio mewn partneriaeth, a hefyd gydag awdurdodau lleol, cymunedau lleol a'r gwasanaethau brys. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n ffurfiol gyda'r holl randdeiliaid yn y gwasanaethau



Tân ac Achub i hysbysu polisïau a sefydlu safonau cenedlaethol.

**Diogelu natur**

Mae'r argyfyngau hinsawdd a natur yn mynd law yn llaw, a rhaid inni fynd i'r afael â'r ddau gyda'n gilydd. Mae pobl ledled y wlad ac ymwelwyr â Chymru yn mwynhau ein harfordir a'n tirweddau godidog, ac eto mae'r Ceidwadwyr wedi gadael Prydain yn un o'r gwledydd lle mae byd natur wedi dirywio fwyaf yn y byd.

Gan weithio ochr yn ochr â llywodraeth Lafur yn y DU, bydd Llafur Cymru yn parhau i gyflawni dros fyd natur. Mae wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i greu lleoedd ar gyfer byd natur ar garreg drws pobl ledled Cymru drwy rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Ochr yn ochr â hyn, mae rhaglen Rhwydweithiau Natur wedi buddsoddi dros £30 miliwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda mwy i ddod. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi adfer 3,000 hectar o fawndir ers 2020 ac wedi helpu i greu cynefin cyfoethog, storio dŵr, sicrhau storfeydd carbon hanfodol, a chreu swyddi medrus iawn.

Bydd Llafur Cymru yn parhau i ehangu cynefinoedd sy'n gyforiog o natur a bydd yn sicrhau bod 30% o diroedd a moroedd Cymru yn cael

# Bydd Llafur Cymru yn parhau i ehangu cynefinoedd sy’n gyforiog o natur a bydd yn sicrhau bod 30% o diroedd a moroedd Cymru yn cael eu gwarchod erbyn 2030

eu gwarchod erbyn 2030 fel rhan o dargedau bioamrywiaeth newydd, uchelgeisiol wedi’u rhwymo mewn cyfraith ar gyfer atal a gwrthdroi colli natur. Bydd deddfwriaeth ar gyfer fframwaith llywodraethiant amgylcheddol newydd yng Nghymru. Bydd camau gorfodi cryfach i ddiogelu’r amgylchedd a chosbau llymach i’r rheini sy’n torri rheolau amgylcheddol. Bydd dwy lywodraeth Lafur sy’n gweithio gyda’i gilydd yn gweithio mewn partneriaeth â chymdeithas sifil, cymunedau a busnesau i adfer a gwarchod ein byd naturiol.

Mae gan Gymru hanes balch o wella mynediad at natur, a adlewyrchir gan Lwybr Arfordir Cymru. Gan adeiladu ar y llwyddiannau hyn, byddwn yn parhau i ymdrechu i wneud natur yn fwy hygyrch drwy’r Goedwig Genedlaethol a thrwy barhau i weithio tuag at greu Parc Cenedlaethol newydd.

**Dŵr glân**
Ledled Prydain, mae llygredd anghyfreithlon yn effeithio ar arfordiroedd, afonydd a llynnoedd. Yn Lloegr, mae’r Ceidwadwyr wedi anwybyddu hyn, wedi gwanhau rheoleiddio, gyda niwed difrifol yn cael ei wneud i iechyd pobl, ein cefn gwlad a’r diwydiant twristiaeth.

Yng Nghymru, mae tair gwaith yn fwy o afonydd yn cael statws ecolegol da neu well, nag yn Lloegr, ond gwyddom fod mwy i'w wneud. Yn ogystal â’r Tasglu Ansawdd Afonydd Gwell, sy’n canolbwyntio ar lygredd carthion, a byrddau rheoli maetholion, fe wnaeth Llywodraeth Lafur Cymru arloesi gyda’r Uwchgynadleddau Afonydd, sy’n cael eu cadeirio gan Brif Weinidog Cymru ac sy’n dod â’r holl randdeiliaid at ei gilydd i fynd i’r afael â phob ffynhonnell llygredd. Mae’r dull hwn yn allweddol i sicrhau bod y duedd o wella ansawdd dŵr yng Nghymru yn parhau.
Mae Llafur Cymru hefyd wedi



ymrwymo i wella ansawdd dŵr drwy adolygu rheoliadau llygredd amaethyddol a mynd i'r afael â llygredd mwyngloddiau metel. Mae Llywodraeth Lafur Cymru bellach wedi buddsoddi £15 miliwn ers 2020, gyda £5 miliwn arall wedi'i gynllunio ar gyfer 2024-25.

Bydd Llywodraeth Lafur y DU yn rhoi pwerau newydd i reoleiddwyr atal taliadau bonws i swyddogion gweithredol sy'n llygru ein dyfrffyrdd.

**Addasu i'r hinsawdd**

Mae paratoi Cymru a Phrydain ar gyfer y dyfodol nid yn unig yn golygu mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, ond hefyd addasu i'r newidiadau a fyddwn yn eu gweld yn ein hamgylchedd. Heb weithredu, bydd llifogydd ac erydu arfordirol yn peri mwy o

risgiau i fywydau, bywoliaeth a lles pobl. Fodd bynnag, mae Prydain gyfan yn cael ei gadael yn agored i reoli risg diffygiol, a dull gweithredu digyswllt ar draws y llywodraeth a rheoleiddwyr.

Gan adeiladu ar waith blaenorol, mae Llywodraeth Lafur Cymru ar fin buddsoddi £75 miliwn mewn gwelliannau cyfalaf eleni, gan weithio gyda chynghorau i leihau'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i gymunedau ledled Cymru. Mae hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda natur i wella'r gwaith o reoli llifogydd ym mhob un o'r prif ddalgylchoedd afonydd, gan ehangu cynefinoedd gwlypdir a choetir yn y broses. Wrth symud ymlaen, bydd cyllid ar gael ar gyfer dros 20 yn rhagor o'r prosiectau hyn ledled Cymru, gan weithio gyda ffermwyr, tirfeddianwyr a chymdeithas sifil Cymru.

Bydd Llafur yn gwella cydnerthedd a pharatoadau ar draws llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, cymunedau lleol a'r gwasanaethau brys, gan gynnwys Tân ac Achub.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth arloesol ar ddiogelwch tomenni glo.

**Ffermio**

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn cydnabod bod diogelwch bwyd yn ddiogelwch cenedlaethol, ac

## Mae paratoi Cymru a Phrydain ar gyfer y dyfodol nid yn unig yn golygu mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, ond hefyd addasu i'r newidiadau a fyddwn yn eu gweld yn ein hamgylchedd

yn cydnabod pwysigrwydd ffermio o ran diogelu ein cymunedau, ein hiaith a'n diwylliant.

Mae dyfodol llwyddiannus ffermio yng Nghymru yn ymwneud â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, gofalu am yr amgylchedd ac ategu cymunedau gwledig Cymru, a goresgyn yr argyfyngau hinsawdd a natur rydym ni a chenedlaethau'r dyfodol yn eu hwynebu.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn allweddol i gyflawni hyn a bydd Llafur Cymru yn parhau i wrando a gweithio mewn partneriaeth ag undebau ffermio, cymdeithas sifil ac eraill. Gyda'n gilydd, gallwn greu dyfodol lle mae ein ffermwyr yn cynhyrchu'r bwyd gorau o Gymru yn unol â'r safonau uchaf ac yn diogelu ein hamgylchedd gwerthfawr. Bydd Llywodraeth Lafur Cymru hefyd yn parhau i weithio i gefnogi'r economi wledig.

Gan weithio ochr yn ochr ag uchelgais llywodraeth Lafur y DU i gynyddu cyfran y bwyd a brynir ar draws y sector cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol neu sydd wedi'i ardystio yn unol â safonau uwch o ran diogelu'r amgylchedd, mae Llafur Cymru wedi ymrwymo i gefnogi cadwyni cyflenwi bwyd lleol a safonau amgylcheddol uchel.

Mae lladd gwartheg â TB ar ffermydd yn cael effaith enfawr ar les ffermwyr, gweithwyr fferm a'u teuluoedd. Bydd Llafur Cymru yn adeiladu ar y camau diweddar tuag at leihau nifer y gwartheg sy'n cael eu lladd ar ffermydd yng Nghymru, yn enwedig y rheini sydd yng nghamau olaf eu beichiogrwydd, a bydd yn parhau i weithio gyda ffermwyr a gwyddonwyr i sicrhau Cymru Ddi-TB. Bydd Llafur Cymru hefyd yn cefnogi iechyd meddwl a lles ffermwyr a'u teuluoedd drwy barhau i weithio gyda'r elusennau sy'n darparu cymorth mor rhagorol.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i weithio tuag at Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru a Bwyd o Bwys.

**Lles Anifeiliaid**

Mae Llywodraeth Lafur Cymru am i Gymru gael ei chydnabod am ei safonau rhagorol o ran lles anifeiliaid.

Mae gan Lafur Cymru hanes balch o orfodi safonau lles anifeiliaid cryf, o hyrwyddo perchnogaeth cŵn cyfrifol, i ddeddfu ar gyfer teledu cylch cyfyng gorfodol mewn lladd-dai, i wahardd defnyddio maglau a thrapiau glud.

Gyda dwy lywodraeth Lafur yn cydweithio, gallwn wneud cymaint mwy. Byddwn yn gwahardd hela trywydd a mewnforio tlysau hela. Byddwn yn rhoi'r gorau i smyglo cŵn bach ac yn parhau â gwaith Llywodraeth Lafur Cymru gan gynnwys ar ficrosglodynnu, anifeiliaid fferm mewn cewyll, lles milgwn a thrwyddedu sefydliadau lles anifeiliaid. Bydd y Blaid Lafur yn gweithio mewn partneriaeth â gwyddonwyr, diwydiant a chymdeithas sifil wrth i ni weithio tuag at ddileu profion ar anifeiliaid yn raddol.

# Mae safle Cymru fel yr ail genedl ailgylchu uchaf yn y byd yn un o lwyddiannau mwyaf balch Llafur Cymru

**Cymru lanach**
Mae safle Cymru fel yr ail genedl ailgylchu uchaf yn y byd yn un o lwyddiannau mwyaf balch Llafur Cymru. Mae'r llwyddiant hwn yn dibynnu ar gyfraniad pob cartref, ac mae'n deillio o weledigaeth glir a buddsoddiad parhaus, ynghyd â fframwaith rheoleiddio cadarn a phartneriaeth gref. Bydd rheoliadau Llywodraeth Lafur Cymru ar ailgylchu yn y gweithle yn sbarduno rhagor o gynnydd, sy'n sail i'r uchelgeisiau ar gyfer yr economi gylchol a'r swyddi gwyrdd y mae'n eu creu. Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn cyflawni addewid deddfwriaeth ddiweddar y Senedd i wella ansawdd aer yng Nghymru.

Gan weithio gyda Llywodraeth Lafur y DU, bydd Llafur Cymru yn parhau i leihau problem sbwriel a mynd i'r afael â llygredd plastig er mwyn symud i economi gylchol sy'n gwarchod natur a phobl, yn glanhau ein cymunedau, yn ogystal â lleihau plastigau untro a rhoi mwy o gymorth i gynghorau leihau sbwriel a thipio anghyfreithlon. Bydd Llafur Cymru yn parhau i gefnogi mesurau uchelgeisiol ar gyfer ailddefnyddio, gan gynnwys cynlluniau dychwelyd ernes a hybiau ailddefnyddio ac atgyweirio, gyda'r nod o gefnogi hyb ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.

**Bydd Llafur yn rhoi terfyn ar yr anhrefn hinsawdd ac ynni, yn cefnu ar 14 mlynedd o bolisïau aflwyddiannus, ac yn gwneud Prydain yn archbŵer ynni glân.**



# HAWLIO'N ÔL EIN STRYDOEDD

- **Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda mwy o heddlu cymdogaeth**
- **Cosbau llym newydd i droseddwyr**
- **Cynllun i gael cyllyll oddi ar ein strydoedd**
- **Uned trais rhywiol arbenigol ym mhob heddlu**
- **Buddsoddi mewn gwasanaethau ieuenctid**




Mae gan Lafur weledigaeth syml ar gyfer plismona a chyfiawnder troseddol.

Pan fyddwch yn galw'r heddlu, dylent ddod. Pan fyddwch yn rhoi gwybod am drosedd, dylid ymchwilio'n briodol iddi ni waeth pwy ydych chi, neu ble rydych chi'n byw. Dylai cymunedau ymddiried yn yr heddlu. Rhaid i ddioddefwyr fod yn ffyddiog y bydd cyfiawnder yn cael ei gyflawni, ac y bydd troseddwyr yn cael eu cosbi. Ni ddylai carchardai fod yn academïau troseddu. Nid yw'r rhain yn ddisgwyliadau eithafol. Dyma hanfodion cymdeithas ddiogel sy'n parchu'r gyfraith.

Yn anffodus, mae'r weledigaeth hon yn wahanol iawn i Brydain heddiw. Mae ein hymdeimlad o ddiogelwch wedi cael ei erydu'n ddrwg. Mae trais difrifol yn rhy uchel. Mae niferoedd cynyddol o bobl ifanc yn cael eu denu at gangiau, i ddelio cyffuriau a thrais yn gynharach fyth. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn difetha

# Mae gan Lafur weledigaeth syml ar gyfer plismona a chyfiawnder troseddol. Pan fyddwch yn galw'r heddlu, dylent ddod. Pan fyddwch yn rhoi gwybod am drosedd, dylid ymchwilio'n briodol iddi ni waeth pwy ydych chi, neu ble rydych chi'n byw

canol ein trefi a'n dinasoedd. Mae llai o droseddwyr yn cael eu dal a'u cosbi. Mae mwy o ddioddefwyr yn cael eu siomi.

Nid damwain yw hyn, ond canlyniad dewisiadau'r Ceidwadwyr dros y 14 mlynedd diwethaf. Mae plismona cymunedol wedi cael ei israddio, gyda swyddogion cymdogaeth yn cael eu tynnu oddi ar y strydoedd i fynd i'r afael â phrinder mewn mannau eraill, gan wanhau'r cysylltiadau â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae ymddiriedaeth yn yr heddlu wedi cael ei danseilio gan fethiannau mewn fetio a chamymddwyn gwarthus gan rai swyddogion. Mae'r pwerau i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a dwyn o siopau wedi cael eu gwanhau, gan adael canol ein trefi yn agored i hyn. Gadawyd i'n system gyfiawnder ddod i stop.

Rhaid i hyn newid. Bydd Llafur yn adfer plismona cymdogaeth gyda miloedd o swyddogion ychwanegol, a byddwn yn arfogi swyddogion â'r pwerau y mae arnynt eu hangen. Byddwn yn mynd i'r afael â'r epidemig o drais difrifol, gyda mwy o ffocws ar atal, gan gynnwys drwy ddal y cwmnïau a'r swyddogion gweithredol hynny, sy'n elwa o droseddau cyllyll, i gyfrif yn bersonol. Ni fyddwn mwyach yn goddef y trais yn erbyn menywod a merched sy'n staen ar ein cymdeithas. A byddwn yn diwygio'r system gyfiawnder i roi anghenion dioddefwyr yn gyntaf, i fynd i'r afael â'r argyfwng carchardai ac i leihau aildroseddu.

Yn fyr, bydd Llafur yn rhoi terfyn ar anrhefn y Ceidwadwyr ac yn dod â chyfraith a threfn yn ôl i'n strydoedd.

**Plismona cymdogaeth gweladwy**
Plismona cymdogaeth gweladwy oedd conglfaen y model seiliedig ar gydsyniad ym Mhrydain. Mewn gormod o ardaloedd, mae wedi cael ei erydu, gan adael yr heddlu'n wasanaeth adweithiol sy'n canolbwyntio ar ymateb i argyfwng, yn hytrach nag atal troseddu.

Bydd Llafur yn cyflwyno Gwarant Plismona Cymdogaeth newydd, gan adfer patrolau i ganol ein trefi drwy recriwtio miloedd o swyddogion heddlu newydd, swyddogion cymorth cymunedol, a chwnstabliaid arbennig. Bydd gan gymunedau a thrigolion swyddog penodedig i droi ato pan fydd pethau'n mynd o chwith. Mae Llafur Cymru wedi camu i mewn i roi swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol ar strydoedd Cymru tra bod y Ceidwadwyr wedi gwanhau plismona yn y gymdogaeth. Bydd dwy lywodraeth Lafur yn gallu cydweithio i gadw cymunedau yng Nghymru yn ddiogel.

Byddwn yn gallu talu am ragor o recriwtiaid newydd drwy fynd i'r afael â gwastraff drwy raglen Effeithlonrwydd a Chydweithredu Heddlu newydd ar gyfer Cymru a Lloegr. Bydd y rhaglen yn gosod safonau ar gyfer caffael ar draws y wlad ac yn sefydlu gwasanaethau a rennir a swyddogaethau arbenigol i leihau costau.

**Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol**
Nid dim ond niwsans 'lefel isel' yw ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n taro'r cymunedau tlotaf galetaf, ac os na chaiff ei fonitro mae'n arwain at droseddu mwy difrifol. Eto i gyd, mae'r Ceidwadwyr wedi gwanhau pwerau gorfodi. Bydd Llafur yn datrys hyn drwy gyflwyno Gorchmynion Parch newydd - pwerau i wahardd troseddwyr cyson sy'n oedolion o ganol trefi, a fydd yn rhoi terfyn ar broblemau megis yfed a defnyddio cyffuriau yn gyhoeddus. Bydd pobl sy'n tipio'n anghyfreithlon a fandaliaid hefyd yn cael eu gorfodi i lanhau'r llanast maen nhw wedi'i greu.

Gyda mwy a mwy o ddwyn o siopau, mae gweithwyr manwerthu yn wynebu perygl cynyddol. Bydd Llafur yn cael gwared â'r breintryddid i bob pwrpas, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr, ar gyfer rhywfaint o ddwyn o siopau, ac yn creu trosedd benodol newydd ar gyfer ymosodiadau ar weithwyr siopau a fydd yn eu hamddiffyn rhag bygythiadau a thrais.

# Er mwyn cael cyllyll oddi ar ein strydoedd, bydd Llafur yn gwahardd cleddyfau ‘ninja’, llafnau ‘zombie’ a machetes, ac yn cryfhau rheolau i atal gwerthiant ar-lein

**Cynllun gweithredu ar droseddau cyllyll**


Mae troseddau cyllyll wedi bod yn cynyddu ers degawd, gan gymryd llawer gormod o fywydau ifanc. Mae’n argyfwng cenedlaethol, sy’n galw am weithredu ar frys. Ac eto, dan y Ceidwadwyr, yn rhy aml pan ganfyddir person yn ei arddegau gyda chyllell, nid oes dim yn digwydd, ac mae cario cyllell yn cael ei normaleiddio. Bydd y llywodraeth Lafur nesaf yn newid hyn. Ein nod yw haneru troseddau cyllyll mewn degawd.

Bydd Llafur yn rhoi terfyn ar yr arfer o rybuddion gwag drwy sicrhau bod cario cyllell yn sbarduno ymyrraeth gyflym a chanlyniadau llym. Bydd pob person ifanc sy’n cael ei ddal gyda chyllell yn cael ei gyfeirio at Dîm Troseddau Ieuenctid a bydd yn cael cynllun gorfodol i atal aildroseddu, gyda chosbau’n cynnwys cyrffyw, tagio, a charcharu ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol.

Er mwyn cael cyllyll oddi ar ein strydoedd, bydd Llafur yn gwahardd cleddyfau ‘ninja’, llafnau ‘zombie’ a machetes, ac yn cryfhau rheolau i atal gwerthiant ar-lein. Bydd swyddogion gweithredol cwmnïau ar-lein sy’n torri’r rheolau hyn yn cael eu dwyn i gyfrif yn bersonol drwy sancsiynau llym.

Bydd yna bartneriaeth newydd rhwng dwy lywodraeth Lafur i gadw ein strydoedd yn ddiogel a mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn buddsoddi’n barhaus mewn gwasanaethau ieuenctid i’w helpu i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy’n newid a’u helpu i fagu hyder, a datblygu cysylltiad a sgiliau gwerthfawr.

Ni fyddwn yn aros i’r rhai sy'n wynebu risg wneud cysylltiad. Bydd partneriaethau atal lleol yn nodi pobl ifanc y gallai gael eu denu at drais, ac yn ymyrryd.




Bydd Llafur hefyd yn cyflwyno trosedd newydd o gam-fanteisio'n droseddol ar blant, i fynd ar ôl y gangiau sy'n hudo pobl ifanc i mewn i drais a throseddu.

**Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched**

Ers gormod o amser, mae trais yn erbyn menywod a merched wedi cael ei anwybyddu. Bydd ein cenhadaeth allweddol i haneru trais yn erbyn menywod a merched mewn degawd yn gofyn am ymdrech genedlaethol. Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau â'i 'dull glasbrint' cydweithredol o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, gan ganolbwyntio ar ffrydiau gwaith

penodol a'u cryfhau drwy weithio mewn partneriaeth â llywodraeth Lafur y DU a fydd yn defnyddio pob arf fydd ar gael i dargedu drwgweithredwyr a mynd i'r afael ag achosion gwaelodol cam-drin a thrais.

Mae hynny'n dechrau gyda gorfodaeth ac amddiffyniad mwy cadarn. Gyda Llafur, bydd timau trais a throseddau rhywiol arbenigol ym mhob heddlu. Bydd y drwgweithredwyr mwyaf cyson a niweidiol yn cael eu targedu'n ddi-baid, gan ddefnyddio tactegau sydd fel arfer wedi'u cadw ar gyfer terfysgwyr a throseddu cyfundrefnol.

Mae cyfraddau erlyn am drais rhywiol yn gywilyddus o isel gyda llawer o ddioddefwyr yn gadael y system gyfiawnder pan fyddant yn wynebu blynyddoedd o oedi. Bydd Llafur yn cyflymu achosion trais rhywiol, gyda llysoedd arbenigol ym mhob un o leoliadau Llys y Goron yng Nghymru a Lloegr.

Mae dioddefwyr yn haeddu gwell cefnogaeth. Gan adeiladu ar lwyddiant y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu Llafur, byddwn yn cyflwyno arbenigwyr ar gam-drin domestig mewn ystafelloedd rheoli 999 er mwyn i ddioddefwyr allu siarad yn uniongyrchol ag arbenigwr, a sicrhau bod eiriolwr cyfreithiol ym mhob ardal heddlu i gynghori dioddefwyr o'r eiliad y byddant yn riportio hyd at y treial.

Nid yw trais a cham-drin menywod a merched yn dod o unman. Mae casineb at fenywod yn un o'r prif achosion, a dyna pam mae'r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb newydd yng Nghymru yn addysgu pobl ifanc am berthnasoedd iach a chydsyniad. Bydd llywodraeth Lafur yn y DU yn sicrhau bod gan heddluoedd y pwerau sydd eu hangen arnynt i dracio a mynd i'r afael â'r broblem.

Nid yw ystelcio wedi cael ei drin gyda'r difrifoldeb y mae'n ei haeddu. Bydd Llafur yn cryfhau'r defnydd o Orchmynion Amddiffyn rhag Ystelcio ac yn rhoi'r hawl i fenywod wybod pwy yw'r bobl sy'n ystelcio ar-lein. Mae sbeicio yn drosedd ddifrifol i ddioddefwyr, sy'n golygu bod llawer o fenywod yn teimlo'n fregus pan fyddant yn mynd allan. Bydd Llafur yn cyflwyno trosedd newydd ar gyfer sbeicio er mwyn helpu'r heddlu i ymateb yn well i'r trosedd hwn.

Byddwn yn cryfhau'r hawliau a'r amddiffyniadau sydd ar gael i fenywod mewn cyplau sy'n cyd-fyw, yn ogystal ag i chwythwyr chwiban




yn y gweithle, gan gynnwys ynghylch aflonyddu rhywiol.

**Gwell plismona**

Dan y Ceidwadwyr, mae perfformiad plismona gwael wedi cael ei oddef, gyda heddluoedd yn treulio blynyddoedd mewn mesurau arbennig. Mae ymddiriedaeth yn yr heddlu wedi'i thanseilio gan weithredoedd gwarthus rhai swyddogion. Bydd Llafur yn agor pennod newydd ac yn codi safonau drwy ddiwygio'r heddlu.

Bydd Llafur yn rhoi pwerau newydd i Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi, ac i'r Gwasanaethau Tân ac Achub ymyrryd â lluoedd sy'n methu. Byddwn yn cyflwyno safonau proffesiynol gorfodol ar fetio, gwirio a chamymddwyn

## Bydd ein cenhadaeth allweddol i haneru trais yn erbyn menywod a merched mewn degawd yn gofyn am ymdrech genedlaethol. Byddwn yn defnyddio pob arf fydd ar gael i dargedu drwgweithredwyr a mynd i'r afael ag achosio gwaelodol cam-drin a thrais

ar gyfer swyddogion unigol; a hyfforddiant cryfach ar hiliaeth a thrais yn erbyn menywod a merched. Bydd unrhyw un sydd â hanes o drais yn erbyn menywod a merched yn cael ei wahardd o'r gwasanaeth a byddwn yn cyflwyno gwaharddiadau awtomatig os bydd swyddogion yn destun ymchwiliad am gam-drin domestig a throseddau rhywiol. Mae angen bod yn arbennig o ofalus wrth ymchwilio i blant. Bydd Llafur yn cyflwyno mesurau diogelu cyfreithiol newydd ynghylch noeth-chwilio plant a phobl ifanc.

Twyll yw bron i ddau o bob pum trosedd, ond mae'r Ceidwadwyr wedi methu ag ymateb i faint yr her. Bydd Llafur yn cyflwyno strategaeth dwyll estynedig newydd i fynd i'r afael â'r ystod lawn o fygythiadau, gan gynnwys twyll ar-lein, twyll yn y sector cyhoeddus a thwyll difrifol. Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau technoleg i atal twyllwyr rhag camddefnyddio eu llwyfannau.

Nid yw troseddwyr byth yn rhoi'r gorau i chwilio am ffyrdd newydd o dargedu dioddefwyr. Rhaid i'r heddlu newid y ffordd y maent yn gweithredu hefyd, gyda thechnoleg a thechnegau ymchwilio yn cyd-fynd â bygythiadau modern. Byddwn yn gweithio gyda chyrff plismona cenedlaethol a staff yr heddlu i safoni dulliau caffael, TG, safonau proffesiynol a hyfforddiant. A byddwn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei drefnu er mwyn gallu buddsoddi mewn galluoedd arbenigol, fel gwaith


HEDDLU POLICE

fforensig digidol, ac i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â materion trawsffiniol fel troseddau cyfundrefnol difrifol.

**Datrys troseddau**

Dan y Ceidwadwyr, mae'r gostyngiad mawr mewn cyfraddau cyhuddo ac erlyn wedi creu troseddwyr mwy hyf. Yn hytrach na chydweithio, mae'r heddlu ac erlynwyr yn aml yn chwarae gêm o feio ei gilydd, sy'n gwneud cam â dioddefwyr.

Bydd Llafur yn gwrthdroi hyn, gan gynyddu cyfran y troseddau a ddatrysir drwy leihau'r rhwystrau rhag dwyn cyhuddiadau, lleihau biwrocratiaeth, a gwella cydweithio. Byddwn yn ei gwneud yn haws i heddluoedd sy'n perfformio'n dda gyhuddo troseddwyr a amheuir o gam-drin domestig, er mwyn cyflymu'r broses.

Mae Llafur yn cydnabod heriau recriwtio, yn enwedig ar gyfer ditectifs, felly byddwn yn cyflwyno cynllun mynediad uniongyrchol ar gyfer ditectifs i hybu sgiliau ymchwilio.

**System gyfiawnder sy'n rhoi dioddefwyr yn gyntaf**

Ar ôl 14 mlynedd o esgeulustod, mae'r system cyfiawnder troseddol wedi torri. Mae dioddefwyr yn aros misoedd, blynyddoedd weithiau, i'w hachos ddod i dreial, ac yn methu symud ymlaen â'u bywydau. Fel cam cychwynnol i fynd i'r afael ag ôl-groniad yn y llysoedd, bydd Llafur yn sicrhau bod mwy o erlynwyr ar gael drwy ganiatáu i Erlynwyr Cyswllt weithio ar achosion priodol.

Byddwn yn cyflwyno mesurau diogelu newydd ar gyfer dioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus, drwy gynyddu pwerau'r Comisiynydd Dioddefwyr, a sicrhau bod dioddefwyr yn gallu cael gafael ar y wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Hyd yn oed pan geir troseddwyr yn euog, yn aml nid yw'r dedfrydau a gânt yn gwneud synnwyr i ddioddefwyr na'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae hyn yn peri pryder arbennig yn achos troseddau yn erbyn menywod a merched. Bydd Llafur yn cynnal adolygiad o ddedfrydu i sicrhau bod hynny'n cael ei ddiweddaru.

**Mynd i'r afael â'n carchardai a lleihau aildroseddu**

Mae carchardai yng Nghymru a Lloegr mewn argyfwng. Mae methiant y Ceidwadwyr i adeiladu digon o leoedd wedi arwain at orlenwi ac anhrefn. Cynghorir barnwyr i oedi cyn dedfrydu. Mae carcharorion yn cael eu rhyddhau'n gynnar. Ac mae llai o droseddwyr peryglus yn cael eu cloi oherwydd diffyg lle.

# Dan y Ceidwadwyr, mae'r gostyngiad mawr mewn cyfraddau cyhuddo ac erlyn wedi creu troseddwyr mwy hyf. Bydd Llafur yn gwrthdroi hyn, gan gynyddu cyfran y troseddau a ddatrysir

Mae'r Ceidwadwyr wedi methu ag adeiladu carchardai. Mae Llafur yn cydnabod bod carchardai o bwysigrwydd cenedlaethol ac felly byddwn yn defnyddio'r holl bwerau perthnasol i adeiladu'r carchardai y mae eu hangen mor ddybryd.

O ganlyniad i orlenwi, mae ein carchardai'n fwyfwy peryglus, ac mae defnyddio cyffuriau ac anhrefn treisgar yn rhemp - gan roi swyddogion carchardai mewn sefyllfa beryglus. Yn hytrach na bod yn llefydd lle mae troseddwyr yn cael eu cosbi a'u hadsefydlu, mae carchardai'n lle sy'n meithrin mwy o droseddu. Mae pobl sy'n gadael carchar yn fwy tebygol o aildroseddu os nad oes ganddynt yr adnoddau i gefnu ar droseddu, os nad oes ganddynt unman i fyw ac os nad oes ganddynt swydd ar ôl cael eu rhyddhau.

Bydd Llafur yn gweithredu i leihau aildroseddu. Byddwn yn gweithio gyda charchardai i wella mynediad troseddwyr at weithgarwch pwrpasol, fel dysgu, a sicrhau eu bod yn creu cynlluniau cyn-rhyddhau ar gyfer y rheini sy'n gadael y ddalfa. Byddwn yn cefnogi carchardai i gysylltu â chyflogwyr lleol a'r sector gwirfoddol i gael gwaith i gyn-droseddwyr. Mae plant carcharorion mewn mwy o berygl o gael eu denu i droseddu na'u cyfoedion. Byddwn yn sicrhau bod y bobl ifanc hynny'n cael eu hadnabod ac yn cael cynnig cymorth i dorri'r cylch.

Ar ôl 14 mlynedd o ad-drefnu anhrefnus, mae'r gwasanaeth prawf cenedlaethol yn ei chael yn anodd cadw'r cyhoedd yn ddiogel. Mae diffyg cydgysylltu rhwng carchardai, y gwasanaeth prawf

a gwasanaethau lleol eraill hefyd yn golygu nad yw pobl sy'n gadael y carchar yn cael y cymorth iawn, gan gynyddu'r risg o droi'n ôl at droseddu yn syth.

Mewn rhai rhannau o'r wlad, rydym wedi gweld Meiri Llafur yn arloesi gyda dull mwy cydgysylltiedig o leihau aildroseddu. Ym Manceinion Fwyaf, mae'r gwasanaeth prawf wedi'i gysylltu â gwasanaethau tai ac iechyd i sicrhau bod troseddwyr sy'n gadael y ddalfa yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Bydd y Blaid Lafur yn cynnal adolygiad strategol o lywodraethu'r gwasanaeth prawf, gan gynnwys ystyried manteision modelau datganoledig.

**Anghyfiawnderau hanesyddol**
O dan y Ceidwadwyr, mae gormod o ddioddefwyr anghyfiawnderau hanesyddol wedi cael eu sarhau gan flynyddoedd o oedi cyfreithiol. Heb gyfiawnder a'r gwir, ni all dioddefwyr a'u teuluoedd symud ymlaen. Bydd Llafur yn cywiro'r anghyfiawnder hwn, yn gweithredu ar ganfyddiadau'r Ymchwiliad i Waed Heintus, ac yn ymateb i ganfyddiadau Ymchwiliad Grenfell ac Ymchwiliad Covid-19, er mwyn sicrhau datrysiad cyflym.

Bydd y Blaid Lafur yn cyflwyno 'Cyfraith Hillsborough' a fydd yn gosod dyletswydd gonestrwydd gyfreithiol ar weision cyhoeddus ac awdurdodau, ac yn darparu cymorth cyfreithiol i ddioddefwyr trychinebau neu farwolaethau sy'n gysylltiedig â'r wladwriaeth. Byddwn yn sicrhau bod lleisiau dioddefwyr sgandal Windrush yn cael eu clywed a bod y cynllun iawndal yn cael ei gynnal yn effeithiol, gyda Chomisiynydd Windrush newydd. Bydd Llafur hefyd yn sicrhau, drwy ymchwiliad neu archwiliad, fod y gwir am y digwyddiadau yn Orgreave yn dod i'r amlwg.

**Bydd Llafur yn rhoi terfyn ar yr anhrefn sy'n gadael i ormod o droseddwyr weithredu'n ddi-gosb, yn agor pennod newydd gyda phlismona cryfach, ac ailadeiladu ein system cyfiawnder troseddol.**



# CHWALU'R RHWYSTRAU I GYFLEOEDD

- **Recriwtio athrawon newydd mewn pynciau allweddol**
- **Sicrhau prydau ysgol a brecwast am ddim i bob plentyn ysgol cynradd**
- **Cyflawni'r Warant i Bobl Ifanc**
- **Ehangu gofal plant**
- **Darparu prentisiaethau o ansawdd uchel i bobl o bob oed**



Pwy bynnag ydych chi, o ble bynnag y dewch chi, dylai Prydain fod yn wlad lle mae gwaith caled yn golygu y gallwch gamu ymlaen mewn bywyd. O dan y Ceidwadwyr, mae'r addewid sylfaenol hwn - os byddwch yn gweithio'n galed, byddwch yn mwynhau'r gwobrau - wedi'i dorri. Rydyn ni'n wlad lle mae pwy yw eich rhieni - a faint o arian sydd ganddyn nhw - yn rhy aml yn golygu mwy na'ch ymdrech a'ch menter. Mae gormod o bobl yn gweld llwyddiant fel rhywbeth sy'n digwydd i eraill. Mae hyn yn wastraff ofnadwy ar dalent yn ogystal ag yn anghyfiawnder enfawr. Felly, bydd torri'r cysylltiad niweidiol rhwng cefndir a llwyddiant yn genhadaeth ddiffiniol i Lafur. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â hyn, gyda phenderfynoldeb i helpu mwy o bobl ifanc i gynllunio dyfodol uchelgeisiol yng Nghymru.

Yn gyntaf, rhaid inni gydnabod bod mwy o gyfle yn gofyn am fwy o sicrwydd. Mynd i'r afael ag ansicrwydd economaidd - yn y gwaith, gartref, yn ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus - yw'r llinyn aur sy'n rhedeg drwy holl genadaethau Llafur. Bydd y sylfaen gadarn honno'n cefnogi Llywodraeth Lafur Cymru i barhau i adeiladu system addysg yng Nghymru sy'n paratoi plant a phobl

# Bydd torri'r cysylltiad niweidiol rhwng cefndir a llwyddiant yn genhadaeth ddiffiniol i Lafur

ifanc ar gyfer bywyd, gwaith a'r dyfodol.

Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru dan bwysau aruthrol ar ôl blynyddoedd o gamreoli ariannol cyhoeddus gan y Ceidwadwyr, ac mae'r system addysg yn dal i ddod ati ei hun ar ôl effeithiau'r pandemig. Mae gormod o blant yn absennol o'r ysgol, mae gormod o deuluoedd yn teimlo pwysau costau byw, ac mae tlodi'n effeithio'n rhy aml ar gyrhaeddiad. Ni allwn fyth fod yn hunanfodlon ynghylch addysg, ac mae Llywodraeth Lafur Cymru yn rhoi diwygiadau arloesol ar waith i weddnewid cyfleoedd bywyd pobl ifanc ym mhob rhan o Gymru. Mae hefyd yn gwneud mwy o rieni'n gymwys i gael gofal plant am ddim drwy Gynnig Gofal Plant

Cymru, gan alluogi mwy o bobl i ddychwelyd i waith a hyfforddiant, a chefnogi pob plentyn drwy eu 1,000 diwrnod cyntaf i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn.

Mae gan Lafur Cymru hanes balch o adeiladu ysgolion newydd yng Nghymru dros y degawd diwethaf. Mae llywodraeth genedlaethol a lleol yn gweithio mewn partneriaeth i adeiladu ysgolion sy'n addas ar gyfer y dyfodol ym mhob rhan o Gymru, drwy'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn unig, mae'r rhaglen hon wedi buddsoddi dros £1 biliwn mewn plant a phobl ifanc. Drwy'r cynllun Ysgolion Bro, mae Llafur Cymru hefyd yn buddsoddi mewn gwneud i ysgolion weithio i gymunedau lleol drwy gydleoli gwasanaethau allweddol ar safleoedd ysgolion a galluogi rhieni a gofalwyr i ymgysylltu y tu allan i oriau ysgol arferol.

Lansiwyd Gwarant Pobl Ifanc Llywodraeth Lafur Cymru yn 2021, ac ymrwymodd i ddarparu cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed sy'n byw yng Nghymru, i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant neu i helpu i gael gwaith neu hunangyflogaeth.

Mae Llafur Cymru yn gweithio i sicrhau pontio mwy llyfn ar gyfer dysgwyr i addysg ôl-orfodol a pharch cydradd i lwybrau galwedigaethol, gan gynnwys drwy'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd.

Addysg yw canolbwynt Llafur Cymru, oherwydd mae pob plentyn yn haeddu cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Bydd dwy lywodraeth Lafur yn gwireddu hyn drwy weithio gyda'i gilydd i gyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb, ni waeth o ble rydych chi'n dod.

**Diogelwch y teulu**

Cododd llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU dros hanner miliwn o blant a thros filiwn o bensiynwyr allan o dlodi. Roedd y cynnydd hwnnw'n trawsnewid cyfleoedd bywyd ac yn sicrhau diogelwch ar ôl ymddeol. Bydd llywodraeth Lafur nesaf y DU yn adeiladu ar yr etifeddiaeth honno o fynd ar drywydd cyfle a chyfiawnder cymdeithasol.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi treulio 14 mlynedd yn ceisio lliniaru effeithiau gwaethaf methiant y Ceidwadwyr i fynd i'r afael â lefelau annioddefol o dlodi yng nghymdeithas Cymru, gan gynnwys drwy'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Tlodi Plant Cymru a'i gwneud yn haws i bawb gael mynediad at eu hawliau llawn. Ond bydd dwy lywodraeth

Lafur sy'n gweithio gyda'i gilydd yn gallu gwneud cymaint mwy i fynd i'r afael â thlodi ledled Cymru a Phrydain.

Cyflogaeth dda fydd sylfaen ein dull o fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Byddwn yn creu mwy o swyddi da, yn diwygio cymorth cyflogaeth, ac yn gwneud i waith dalu, fel bod llawer mwy o bobl yn elwa o urddas a phwrpas gwaith.

Mae Llafur wedi ymrwymo i adolygu Credyd Cynhwysol fel ei fod yn gwneud i waith dalu ac yn mynd i'r afael â thlodi. Rydym am roi terfyn ar ddibyniaeth dorfol ar barseli bwyd brys, sy'n graith foesol ar ein cymdeithas.

Bu cynnydd o 700,000 mewn tlodi plant ym Mhrydain dan y Ceidwadwyr, gyda dros bedair miliwn o blant bellach yn cael eu magu mewn teulu incwm isel. Y llynedd, roedd miliwn o blant yn ddiymgeledd. Mae hyn nid yn unig yn niweidio bywydau plant nawr, mae'n niweidio eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol, ac yn dal ein potensial economaidd fel gwlad yn ôl. Bydd Llywodraeth Lafur nesaf y DU yn datblygu strategaeth uchelgeisiol i leihau tlodi plant. Byddwn yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol, sefydliadau ffydd, undebau llafur, busnesau, llywodraeth leol a llywodraeth ddatganoledig, a chymunedau i sicrhau newid.

## Byddwn yn creu mwy o swyddi da, yn diwygio cymorth cyflogaeth, ac yn gwneud i waith dalu, fel bod llawer mwy o bobl yn elwa o urddas a phwrpas gwaith

Byddwn yn cymryd camau cychwynnol i fynd i'r afael â thlodi drwy leihau tlodi tanwydd, gwahardd contractau dim oriau ecsbloetiol, a gwella'r gefnogaeth i helpu pobl i gael gwaith da.

Mae system pensiynau'r wladwriaeth, pensiynau preifat a phensiynau'r gweithle yn darparu'r sail ar gyfer diogelwch ar ôl ymddeol. Bydd Llafur yn cadw'r clo triphlyg ar gyfer pensiwn y wladwriaeth. Byddwn hefyd yn mabwysiadu diwygiadau i bensiynau'r gweithle i sicrhau

canlyniadau gwell i gynilwyr a phensiynwyr y DU. Bydd ein hadolygiad o bensiynau yn ystyried pa gamau pellach sydd eu hangen i wella diogelwch ar ôl ymddeol, yn ogystal â chynyddu buddsoddiad cynhyrchiol yn economi'r DU.

Mae diogelwch hefyd yn golygu cael to diogel dros eich pen. Nid yw hynny'n wir yn achos gormod o bobl sy'n rhentu eu cartrefi'n breifat. Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi bod yn gweithio'n galed i wneud rhentu'n ddewis cadarnhaol drwy wella safon eiddo rhent a rhoi mwy o warchodaeth i denantiaid, ac mae wedi newid y gyfraith i roi mwy o warchodaeth i denantiaid a landlordiaid. Mae'r gyfraith yng Nghymru yn rhoi'r cyfnod mwyaf hael i bobl adleoli; mae Llafur Cymru wedi diddymu ffioedd a thaliadau tenantiaeth afresymol ac mae hefyd yn cyflwyno dulliau newydd ynghylch rhenti fforddiadwy i bobl leol a hawl i dai digonol.

Mae'r cynllun cofrestru gorfodol ar gyfer landlordiaid preifat yn sicrhau bod ein holl landlordiaid yn cael eu cefnogi i fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a bod gan denantiaid lwybr i ddal landlordiaid i gyfrif os nad yw'r amodau'n ddigonol.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cymryd camau pendant i wella diogelwch adeiladau, diogelu lesddeiliaid rhag costau annheg a chyflymu gwaith adfer. Yng Nghymru, mae llwybr i fynd i'r afael â materion diogelwch tân ym mhob adeilad preswyl 11 metr neu fwy. Nid yw hyn yn gyfyngedig i adeiladau â chladin. Bydd Bil Diogelwch Adeiladau hefyd yn cael ei gyflwyno yn y Senedd i sicrhau na fydd trychineb fel Grenfell yn digwydd yng Nghymru.

Yn 2018, roedd Llywodraeth Lafur Cymru wedi negodi ymrwymiad gan y prif adeiladwyr tai i beidio â gwerthu tai ar lesddaliad, ac wedi cyflwyno cyfyngiadau i Cymorth i Brynu - Cymru, gan gyfyngu ar y defnydd o lesddaliadau ar gyfer tai, yn ogystal â gwella'r telerau a gynigir lle maent yn cael eu defnyddio ar gyfer fflatiau. Roedd y cam gweithredu hwn bron wedi dileu gwerthu tai lesddaliad newydd yng Nghymru. Mae Llafur Cymru wedi bod yn glir bod Bil ar lefel y DU, sy'n mynd i'r afael â diwygio lesddaliadau, yn angenrheidiol. Bydd oedi'r Ceidwadwyr yn dod i ben o'r diwedd pan fydd llywodraeth Lafur yn San Steffan yn dod â'r system lesddaliadol ffiwdal i ben. Byddwn yn gweithio gyda llywodraeth Lafur y DU i weithredu'r pecyn o gynigion gan Gomisiwn y Gyfraith ar ryddfreinio lesddaliadau, yr hawl i reoli a chyfunddaliad i sicrhau eu bod yn gweithio i bobl Cymru




Mae Llafur Cymru wedi ymrwymo i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn cyflwyno'r Bil Digartrefedd, a fydd yn trawsnewid gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru er mwyn sicrhau llwybr tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd.

**Y dechrau gorau mewn bywyd**

Mae addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant a'u helpu i gyflawni eu potensial. Mae hefyd yn cefnogi rhieni i ddychwelyd i fyd gwaith.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn cefnogi plant a theuluoedd drwy barhau i ehangu gofal plant i blant dwy oed drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg - gan gynnwys mewn lleoliadau Cymraeg - a thrwy ddarparu 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu yr wythnos am hyd at 48 wythnos y flwyddyn i rieni cymwys plant tair a phedair oed drwy ein Cynnig Gofal Plant.

Mae'r Cynnig Gofal Plant hefyd ar gael i rieni mewn hyfforddiant ac addysg ac i ofalwyr maeth a gofalwyr sy'n berthnasau.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi ymrwymo i gefnogi plant - a'u teuluoedd - drwy gydol eu 1,000 diwrnod cyntaf i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd.

# Mae angen i blant a phobl ifanc gyrraedd yr ysgol yn barod i ddysgu. Yng Nghymru, mae brecwastau am ddim wedi cael eu darparu mewn ysgolion cynradd ers 2004

Mae cefnogi plant yn gynnar yn eu bywyd hefyd yn golygu rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar rieni i ofalu am eu plant. Bydd Llafur yn adolygu'r system absenoldeb rhiant yn ystod ein blwyddyn gyntaf yn llywodraeth y DU i ystyried y cyfraniad at absenoldeb rhiant mewn economi sy'n tyfu.

Dylai pob plentyn gael cartref cariadus a diogel. Mae gan Lywodraeth Lafur Cymru gynllun uchelgeisiol i weddnewid gwasanaethau plant yn radical. Ni waeth lle mae plant yn byw, dylid cefnogi mwy o blant i aros gyda'u teuluoedd, gyda llai o blant a phobl ifanc yn mynd i ofal. Dylai'r amser y mae pobl ifanc yn aros mewn gofal fod mor fyr â phosibl, fod yn gyson â diwallu anghenion y person ifanc a, thra bod plant mewn gofal, dylent aros yn agos at eu cartref fel y gallant barhau i fod yn rhan o'u cymuned. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys newid y gyfraith i dynnu'r elw preifat o ofal plant.

**Codi safonau ysgolion**
Mae llywodraeth Lafur Cymru yn glir bod gwelliant parhaus mewn cyrhaeddiad addysgol yn brif flaenoriaeth. Dim ond drwy ymdrechion gweithlu ysgolion ymroddedig a thalentog Cymru y mae hynny'n bosibl. Mae Llafur Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag athrawon a staff ysgolion i sicrhau cynnydd ar y flaenoriaeth hon.

Gyda Llafur mewn grym yn San Steffan, gall Llywodraeth Lafur Cymru fynd ymhellach fyth drwy fuddsoddi mewn polisïau sy'n chwalu'r rhwystrau sy'n dal pobl yn ôl. Mae hynny'n cynnwys recriwtio athrawon newydd mewn pynciau allweddol mewn ysgolion ledled Cymru i baratoi plant ar gyfer bywyd, gwaith a'r dyfodol, y telir amdanynt drwy fesurau y bydd

llywodraeth Lafur y DU yn eu rhoi ar waith i roi terfyn ar fanteision treth i ysgolion preifat, sy'n golygu mwy o arian i Gymru.

Mae datblygu addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel drwy ddysgu proffesiynol gydol gyrfa gwarantedig yn ganolog i'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Lafur Cymru yn rhoi hyn ar waith drwy'r Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol. Ochr yn ochr ag addysgu o ansawdd uchel, mae angen arweinyddiaeth ragorol er mwyn gwella safonau mewn addysg. Mae cynllun peilot Pencampwyr Cyrhaeddiad yn cael ei ymestyn i gyfnod newydd, sy'n golygu y bydd mwy o benaethiaid ac arweinwyr ysgolion yn cael eu cefnogi drwy fentora a rhannu enghreifftiau o arfer gorau. Mae Llafur Cymru hefyd wedi ymrwymo i alluogi cydweithredu rhwng ysgolion a dull mwy cyson o godi safonau ym mhob man.

Mae arolygu ac adborth annibynnol yn hanfodol i godi safonau. Yng Nghymru, nid oes dyfarniadau crynodol mwyach ar ysgolion ac mae diwylliant arolygu wedi cael ei newid i ganolbwyntio ar ddarparu mwy o gymorth i ysgolion ar daith barhaus tuag at welliant. O fis Medi 2024 ymlaen, bydd ysgolion yn cael mwy o adborth gan Estyn, yn fwy rheolaidd.

Rydym yn adnewyddu ein ffocws ar lythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol fel y sgiliau trawsgwricwlaidd sy'n rhedeg drwy bob maes dysgu a phrofiad. Mae'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n cael ei lywio gan bwrpas, yn cael ei addysgu ym mhob ysgol a bydd yn cael ei gyflwyno i bob grŵp blwyddyn erbyn 2026. Mae'r cwricwlwm newydd yn cefnogi plant i ddod yn ddysgwyr galluog uchelgeisiol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.

Wrth i Lywodraeth Lafur Cymru weithio tuag at gyflawni'r nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n parhau i fuddsoddi mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg o'r blynyddoedd cynnar ymlaen. O wersi Cymraeg am ddim sydd ar gael i bobl ifanc 16-25 oed a staff addysgu, i fuddsoddi £6.6 miliwn i gefnogi prosiectau trochi iaith Gymraeg, mae Llafur Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl ifanc yn ennill y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer bywyd a gwaith.

Mae disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn

# Mae iechyd meddwl da yn hanfodol er mwyn i blant a phobl ifanc ddysgu ac anelu at gyflawni eu potensial. Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithredu Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl ar gyfer dysgwyr a staff

haeddu mynediad at y lefelau priodol o gymorth i gyflawni eu potensial. Dyna pam mae'r lefelau uchaf erioed o gyllid wedi cael eu darparu i ysgolion yng Nghymru ar gyfer gweithredu'r system newydd o gymorth ADY, a pham mae Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i adolygu'r cymorth sydd ar gael i ysgolion. Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i weithio gydag ysgolion a theuluoedd i gael y diwygiad hwn yn iawn, yn ogystal â manteisio ar arbenigedd annibynnol.

Mae gormod o blant a phobl ifanc nad ydynt yn mynd i'r ysgol, ac nid yw'r lefelau presenoldeb wedi codi'n ôl o hyd i'r lefelau cyn y pandemig. Mae'r Tasglu Presenoldeb Cenedlaethol yn helpu Llywodraeth Lafur Cymru i nodi'r camau ymarferol sydd eu hangen i wella presenoldeb mewn ysgolion ac ymgysylltiad dysgwyr. Mae cael disgyblion i'r ysgol yn hanfodol i wella cyrhaeddiad a chau'r bwlch rhwng y dysgwyr tlotaf a'u cyfoedion. Mae ymrwymiad Llywodraeth Lafur Cymru i'r Grant Datblygu Disgyblion hefyd yn allweddol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu effaith y cyllid hwn.

Mae angen i blant a phobl ifanc gyrraedd yr ysgol yn barod i ddysgu. Yng Nghymru, mae brecwastau am ddim wedi cael eu darparu mewn ysgolion cynradd ers 2004 ac maent wedi cael eu diogelu mewn deddfwriaeth ers 2013. Mae dros 100 miliwn o frecwastau am ddim wedi'u darparu ledled Cymru yn ystod y degawd diwethaf yn unig, ac



mae Llafur Cymru yn gweithio gyda chynghorau i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth brecwast am ddim. Mae gan Lafur Cymru hanes balch o gyflwyno prydau ysgol am ddim i bob ysgol gynradd yng Nghymru. Mae dros 20 miliwn o brydau ysgol am ddim wedi cael eu darparu drwy'r polisi hwn ers mis Medi 2022. Mae costau eraill y diwrnod ysgol yn faich ariannol ychwanegol ar lawer o deuluoedd. Dyna pam mae Llywodraeth Lafur Cymru yn darparu cymorth yn uniongyrchol i deuluoedd drwy'r Grant Hanfodion Ysgol, i dalu am wisg ysgol neu gyfarpar a sicrhau nad yw plant yn colli allan ar weithgareddau a phrofiadau. Mae canllawiau ynglŷn â gwisg ysgol hefyd wedi cael eu diweddaru i helpu i leihau'r costau y mae teuluoedd yn eu hwynebu.

Mae iechyd meddwl da yn hanfodol er mwyn i blant a phobl ifanc ddysgu ac anelu at gyflawni eu potensial. Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithredu Dull Ysgol Gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl ar gyfer dysgwyr a staff. Mae'r gyfraith yn mynnu bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn darparu gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion i ddisgyblion 6 oed a hŷn, ac mae'r cwnsela sydd ar gael i staff ysgol yn cael ei ehangu. Mae gwasanaeth mewngymorth CAMHS ar gyfer ysgolion wedi cael ei gyflwyno i bob rhan o

Gymru, gan ddarparu cysylltiadau hanfodol â gwasanaethau iechyd meddwl ehangach y GIG, ac mae canllawiau statudol i wreiddio'r Dull Ysgol Gyfan ar draws diwylliant ac ethos ysgolion wedi cael eu cyhoeddi.

**Addysg bellach ac uwch**

Mae gan Lywodraeth Lafur Cymru hanes balch o gyflawni ei rhaglen prentisiaethau flaenllaw yng Nghymru, ac mae'n parhau i gyflawni hynny drwy'r Warant i Bobl Ifanc, a lansiwyd yn 2021, a thrwy fuddsoddi dros £140 miliwn mewn prentisiaethau eleni.

Drwy gydweithio â'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, mae prentisiaethau yng Nghymru yn cael eu dylunio i wella cynhyrchiant a diwallu anghenion sgiliau strategol. Mae buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau drwy ddatblygu prentisiaethau mewn sectorau twf a galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg, ac mae buddsoddiad yn cael ei ail-gydbwyso i gyd-fynd ag anghenion busnesau Cymru; gan symud hyfforddiant prentisiaethau o feysydd lle nad oes llawer o dystiolaeth o brinder sgiliau, i sectorau gwerth uchel.

Mae prentisiaethau yng Nghymru yn hanfodol ar gyfer nodau hirdymor i fynd i'r afael â thlodi a chefnogi twf economaidd. Maent yn dangos y flaenoriaeth y mae Llywodraeth Lafur Cymru yn ei rhoi i bobl sy'n gweithio a'u sgiliau er mwyn creu dyfodol economaidd cryfach, tecach a gwyrddach.

Bydd llywodraeth Lafur newydd yn y DU yn rhoi ffocws o'r newydd i brentisiaethau a hyfforddiant, gan ddiwygio'r Ardoll Brentisiaethau sydd wedi'i thorri gan y Ceidwadwyr.

Bydd Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd Llywodraeth Lafur Cymru yn cefnogi sector trydyddol cydgysylltiedig yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion myfyrwyr, yr economi a chymunedau. Mae Llafur Cymru yn gweithio i sicrhau pontio mwy llyfn i ddysgwyr a pharch cydradd i lwybrau galwedigaethol, a bydd hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â cholegau a phrifysgolion i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol.

Nid yw'r setliad cyllido addysg uwch presennol ar draws y DU yn gweithio i'r trethdalwr, i brifysgolion, staff na myfyrwyr. Ynghyd â llywodraeth Lafur y DU, bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithredu i greu dyfodol sicr i addysg uwch a'r cyfleoedd y mae'n eu creu ledled y DU, yn ogystal â gweithio gyda phrifysgolion i gyflawni ar gyfer myfyrwyr a'n heconomi.



**Mynediad at y celfyddydau, cerddoriaeth a chwaraeon**
Mae Llafur Cymru yn gweithio i helpu i sicrhau nad yw'r celfyddydau a cherddoriaeth mwyach yn eiddo i bobl freintiedig yn unig. Mae diwylliant yn rhan hanfodol o gefnogi plant a phobl ifanc i ddatblygu creadigrwydd a dod o hyd i'w llais. Mae potensial enfawr ar gyfer twf yn y diwydiannau creadigol, sydd o fudd i bob cwr o'r DU.

Bydd llywodraeth Lafur yn y DU yn gweithredu ein cynllun ar gyfer y sector diwydiannau creadigol fel rhan o'n Strategaeth Ddiwydiannol, gan greu swyddi da a chyflymu twf mewn ffilm, cerddoriaeth, gemau a sectorau creadigol eraill. Byddwn yn gweithio'n adeiladol gyda'r BBC a'n darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill er mwyn iddynt barhau i hysbysu, addysgu a diddanu pobl, a chefnogi'r economi greadigol drwy gomisiynu cynnwys nodedig. Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn falch o'r sector teledu a ffilm ffyniannus sy'n cael ei gefnogi gan Cymru Greadigol.

Mae cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn golygu y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle i astudio'r Celfyddydau Mynegiannol, fel un o'r chwe maes dysgu a phrofiad sy'n ofynnol yn y cwricwlwm. Mae creadigrwydd ac arloesedd hefyd yn un o'r sgiliau hanfodol sy'n cael eu hyrwyddo yn y cwricwlwm newydd drwyddo draw. Mae gan chwaraeon a gweithgarwch corfforol le allweddol mewn ysgolion o dan y maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles. Yn fwy cyffredinol, mae Llafur Cymru yn adolygu buddsoddiad



mewn cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru i gefnogi rôl clybiau chwaraeon ar lawr gwlad o ran ehangu mynediad i bawb.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi dechrau ar y daith o ddod â chasgliadau celf i gymunedau lleol, dan arweiniad cydweithrediad rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd y model daearyddol wasgaredig yn rhoi mwy o fynediad i'r casgliad cenedlaethol a chelfyddyd gyfoes i gymunedau ledled Cymru, gan ddod â chelf yn nes at holl bobl Cymru. Mae digideiddio'r casgliad cenedlaethol wedi cynhyrchu llwyfan digidol Celf ar y Cyd, a lansiwyd ym mis Mehefin 2023. Mae hyn yn cynrychioli ffrynt siop ddigidol genedlaethol a rhyngwladol ar gyfer celf Cymru, gan wneud celf yn hygyrch i bawb. Mae mynediad at gerddoriaeth, drama a chwaraeon wedi dod yn anodd ac yn ddrud oherwydd towtio tocynnau. Bydd Llafur yn rhoi cefnogwyr yn ôl wrth galon digwyddiadau drwy gyflwyno mesurau diogelu defnyddwyr newydd ynghylch ailwerthu tocynnau.

O Bencampwriaeth Pêl-droed Ewrop UEFA y Dynion i Gwpan y Byd T20 Merched ICC i Gemau Invictus, bydd Llafur yn cynnal digwyddiadau rhyngwladol gyda balchder ac yn chwilio am gyfleoedd newydd lle gallwn, ac yn gweithio gyda phob gwlad a rhanbarth i greu gwaddol i

## Mae mynediad at gerddoriaeth, drama a chwaraeon wedi dod yn anodd ac yn ddrud oherwydd towtio tocynnau. Bydd Llafur yn rhoi cefnogwyr yn ôl wrth gallon digwyddiadau drwy gyflwyno mesurau diogelu defnyddwyr newydd ynghylch ailwerthu tocynnau

ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o dalent wrth hyrwyddo ymarfer corff a byw'n iach.

Mae Llafur wedi ymrwymo i wneud Prydain y lle gorau yn y byd i fod yn gefnogwr pêl-droed. Byddwn yn diwygio'r drefn o lywodraethu pêl-droed i ddiogelu clybiau pêl-droed ar draws ein cymunedau ac i roi mwy o lais i gefnogwyr yn y ffordd y cânt eu rhedeg. Byddwn yn cyflwyno Bil Llywodraethu Pêl-droed, a fydd yn sefydlu rheoleiddiwr annibynnol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol clybiau pêl-droed. Ni fyddwn byth yn caniatáu i gynghrair gaeedig o glybiau dethol gael ei gwahanu oddi wrth ein cynghreiriau pêl-droed.

**Parch a chyfle i bawb**

Mae pawb yn y wlad hon yn haeddu llywodraeth sy'n cyfateb i'w huchelgais. Bydd Llafur yn sicrhau, beth bynnag fo'ch cefndir, y gallwch ffynnu, ac felly bydd llywodraeth Lafur yn San Steffan yn gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ar draws y DU, fel y gwnaeth Llywodraeth Lafur Cymru yn 2021.

Bydd cydraddoldeb menywod wrth galon ein cenadaethau. Bydd ein cynllun Gwneud i Waith Dalu yn trawsnewid bywydau menywod sy'n gweithio, gan gynnwys drwy gryfhau hawliau i gyflog cyfartal a gwarchodaeth rhag gwahaniaethu ar sail mamolaeth a menopos ac aflonyddu rhywiol. A bydd Llafur yn



gweithredu i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, gan adeiladu ar waddol Deddf Cyflog Cyfartal Barbara Castle.

Bydd Llafur yn cyflwyno Deddf Cydraddoldeb Hiliol nodedig, i ymgorffori yn y gyfraith yr hawl lawn i gyflog cyfartal i bobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig eraill, cryfhau amddiffyniadau yn erbyn gwahaniaethu deuol a dileu anghydraddoldebau hiliol eraill. Bydd Llafur hefyd yn gwrthdroi penderfyniad y Ceidwadwyr i israddio'r gwaith o fonitro casineb gwrth-Semitig ac Islamoffobig. Yng Nghymru, bydd hyn yn adeiladu ar waith Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Bydd Llywodraeth Lafur y DU wedi ymrwymo i hyrwyddo hawliau pobl anabl ac i'r egwyddor o weithio gyda nhw, fel y bydd eu barn a'u lleisiau wrth galon popeth a wnawn. Yng Nghymru, byddwn yn adeiladu ar waith Tasglu Hawliau Pobl Anabl a Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl. Byddwn yn cyflwyno'r hawl lawn i gyflog cyfartal i bobl anabl. Gan adeiladu ar adroddiadau ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar y bwlch cyflog o ran anabledd ac ethnigrwydd ar gyfer cyflogwyr mawr. Byddwn yn cefnogi pobl anabl i weithio drwy wella cymorth cyflogaeth a mynediad at addasiadau rhesymol. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael ag ôl-

# Yng Nghymru, byddwn yn adeiladu ar waith Tasglu Hawliau Pobl Anabl a Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl. Byddwn yn cyflwyno'r hawl lawn i gyflog cyfartal i bobl anabl

groniad Mynediad at Waith ac yn gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu rhoi cynnig ar swydd heb ofni cael ailasesiad budd-daliadau ar unwaith os nad yw'n gweithio allan.

Mae darparu cyfleoedd i bawb yn golygu y dylid trin pawb â pharch ac urddas. Bydd y Blaid Lafur yn amddiffyn pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol drwy wneud pob elfen bresennol o droseddau casineb yn drosedd waethygedig. Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i weithio tuag at sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf cyfeillgar i bobl LHDT+ yn Ewrop.

Mae therapi trosi, fel y'i gelwir, yn gamdriniaeth - does dim gair arall amdano - felly bydd Llafur o'r diwedd yn cyflwyno gwaharddiad traws-gynhwysol llawn ar arferion trosi, wrth ddiogelu'r rhyddid i bobl archwilio eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth rhywedd.

Byddwn hefyd yn moderneiddio, symleiddio a diwygio'r gyfraith cydnabod rhywedd ymwthiol a hen ffasiwn i fod yn broses newydd. Byddwn yn dileu'r diffyg urddas i bobl draws sy'n haeddu cydnabyddiaeth a derbyniad; wrth gadw'r angen am ddiagnosis o ddysfforia rhywedd gan feddyg arbenigol, gan alluogi mynediad at y llwybr gofal iechyd.

Mae Llafur yn falch o'n Deddf Cydraddoldeb a'r hawliau a'r amddiffyniadau y mae'n eu rhoi i fenywod; byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o weithredu ei eithriadau un rhyw.

**Bydd Llafur yn rhoi terfyn ar yr anhrefn, yn rhoi terfyn ar fethiant ac ymraniad y 14 blynedd diwethaf, ac yn agor pennod newydd i sicrhau bod pawb yn gallu ffynnu.**



# CREU GIG SY'N ADDAS AR GYFER Y DYFODOL

- **Lleihau amseroedd aros y GIG**
- **Hyfforddi mwy o feddygon a nyrsys**
- **Buddsoddi mewn offer newydd**
- **Symud gofal yn nes at adref**
- **Darparu gwell mynediad at ddeintyddiaeth**
- **Gwella cymorth iechyd meddwl**




Rydym yn hynod falch mai llywodraeth Lafur 1945 a sefydlodd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Fe'i crëwyd yng Nghymru. Mae ei egwyddorion sylfaenol wedi goroesi ac mae hynny yn arbennig o wir yng Nghymru heddiw:

*Dylai'r gwasanaethau iechyd gorau fod ar gael, yn rhad ac am ddim i bawb. Ni ddylai arian fod yn basbort i'r driniaeth orau mwyach. Dylai pobl gael y gorau y gall gwyddoniaeth fodern ei gynnig.*

Ers bron i 80 mlynedd mae'r GIG wedi parhau i'n gwasanaethu'n dda. Fodd bynnag, mae'n wir dweud hefyd bod y GIG - a gofal cymdeithasol - dan bwysau sylweddol yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Bu ein staff iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio'n arwrol drwy'r pandemig i'n cadw ni i gyd yn ddiogel, a bob dydd maent yn darparu gofal o ansawdd uchel sy'n achub bywydau ac yn newid bywydau degau o filoedd o bobl.

Mae'r GIG yng Nghymru heddiw yn wynebu galw cynyddol wrth i fwy o bobl fyw bywydau hirach, gyda chyflyrau cronig mwy hirdymor, ac amseroedd aros hirach am driniaeth, o ganlyniad i'r pandemig.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru bob amser yn cefnogi'r GIG - a bydd bob amser yn cefnogi'r GIG i newid a moderneiddio.

Mae hynny'n golygu parhau i fuddsoddi yn y GIG, hyd yn oed yn wyneb 14 mlynedd o gyni'r Ceidwadwyr. Yn ystod y cyfnod mwyaf anodd hwn, pan fu'n rhaid i Lywodraeth Lafur Cymru wneud penderfyniadau gwario anodd iawn, mae'n buddsoddi mwy yn y GIG.

Mae'r diwygiadau y mae Llafur Cymru wedi'u gwneud wedi adlewyrchu natur newidiol clefydau, gyda mwy o ffocws ar reoli cyflyrau cronig, hirdymor, ac ymgyrch i fynd i'r afael â'r lladdwyr mwyaf - lleihau'r bywydau a gollir oherwydd canser, clefyd cardiofasgwlaidd a hunanladdiad, gan gefnogi pobl i fyw'n dda am fwy o amser.

Mae diwygiadau hefyd wedi canolbwyntio ar ddarparu mwy o ofal a gwasanaethau'r GIG y tu allan i'r ysbyty ac mewn cymunedau lleol, fel nad oes angen i chi deithio ar gyfer apwyntiadau a gofal arferol.

**Cefnogi GIG Cymru**

Rydym yn ymddiried yn fawr yn y GIG, a bob mis mae gan ein GIG yng Nghymru ddwy filiwn o gysylltiadau â chleifion drwy feddygfeydd teulu a gwasanaethau ysbyty - llawer iawn o weithgarwch ar gyfer gwlad sy'n cynnwys ychydig dros dair miliwn o bobl.

## Bydd Llywodraeth Lafur Cymru bob amser yn cefnogi'r GIG - a bydd bob amser yn cefnogi'r GIG i newid a moderneiddio

Mae Llafur am i bobl gael y gofal gorau posibl gan y person iawn pan fydd ei angen arnynt. Mae hynny'n golygu sicrhau bod gennym y gwasanaethau GIG cywir ar gael, y mae pobl yn eu deall, a'u bod yn gallu cael gafael arnynt yn rhwydd, ar yr un pryd â lleihau amseroedd aros i bobl mewn poen.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi creu gwasanaethau newydd i atal mynd â phobl i adrannau achosion brys, a gwasanaethau gofal argyfwng newydd yr un diwrnod i atal pobl rhag cael eu derbyn i ysbytai pan nad oes angen iddynt fod yno. Ac mae'n gwneud

# Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg ddigidol i gefnogi trawsnewid ac arloesi ar draws y GIG a gofal cymdeithasol ac yn y gwyddorau bywyd

mwy i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol gyda chronfa bum mlynedd gwerth £145 miliwn y flwyddyn.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn buddsoddi £1 biliwn yn ystod tymor y Senedd hon i adfer ar ôl y pandemig a lleihau amseroedd aros hir. Diolch i ymroddiad a gwaith caled staff y GIG, mae amseroedd aros hir yn gostwng bob mis. Gan weithio gyda llywodraeth Lafur yn y DU a gyda chyllid ychwanegol ar gyfer y GIG, y telir amdano drwy fynd i'r afael ag osgoi trethi a diangfeydd 'non-doms', bydd Llafur Cymru yn gallu mynd ymhellach ac yn gyflymach.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi buddsoddi'r lefelau uchaf erioed yng ngweithlu'r GIG ar gyfer y dyfodol am naw mlynedd yn olynol. Yn 2023-24, cynyddwyd cyllideb hyfforddi'r GIG i bron i £282 miliwn, gan greu 527 o leoedd hyfforddi ychwanegol, gan gynnwys mwy na 380 o leoedd hyfforddi ychwanegol i nyrsys. Mae'r lefel hon o fuddsoddiad wedi cael ei chynnal yn 2024-25.

Mae Llafur Cymru wedi ymgorffori'r dull partneriaeth gymdeithasol unigryw mewn cyfraith, gan roi llais i weithwyr a chyflogwyr wrth lywio trafodaethau anodd ynghylch cyflogau ac amodau a waethygwyd gan anhrefn economaidd y Ceidwadwyr yn ystod y 14 mlynedd diwethaf.

**Moderneiddio'r GIG**

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi buddsoddi'n helaeth yn ystâd y GIG yn ystod datganoli - gan adeiladu ysbytai newydd, gan gynnwys Ysbyty Athrofaol y Faenor yn Ne Cymru a moderneiddio ysbytai presennol ac uwchraddio offer

diagnostig o'r radd flaenaf. Mae wedi creu cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd modern ledled Cymru ac wedi uwchraddio fflyd Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Mae wedi buddsoddi mewn Gwasanaeth Adalw Meddygol Brys a Gwasanaeth Trosglwyddo modern newydd ar gyfer Cymru gyfan ac wedi agor ysgol feddygol newydd yng Ngogledd Cymru, yn barod i hyfforddi meddygon y dyfodol.

Ond mae gallu Llywodraeth Lafur Cymru i barhau i fuddsoddi yng ngwead y GIG wedi'i danseilio'n ddifrifol gan y ffordd y mae'r Ceidwadwyr wedi camreoli'r economi a chyllid cyhoeddus.

Bydd cronfa parod at y dyfodol Llywodraeth Lafur y DU i fuddsoddi mewn sganwyr CT ac MRI yn Lloegr, yn golygu cyllid ychwanegol i Gymru, a bennir drwy fformiwla Barnett.

Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg ddigidol i gefnogi trawsnewid ac arloesi ar draws y GIG a gofal cymdeithasol ac yn y gwyddorau bywyd. Mae'r Gronfa Triniaethau Newydd nodedig yn sicrhau mynediad cyflymach at feddyginiaethau a thriniaethau newydd a gymeradwyir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal a Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan. Ers ei chyflwyno yn 2016, 13 diwrnod yw'r amser cyfartalog rhwng cymeradwyo a chyflwyno.

Bydd Ap GIG Cymru, sy'n destun profion cyhoeddus beta ar hyn o bryd, yn parhau i gael ei ddatblygu i roi mynediad i bobl at ofal iechyd ar flaenau eu bysedd. Bydd Llywodraeth Lafur yng Nghymru yn digideiddio cofnod Llyfr Coch o iechyd plant ac yn gwella'r gefnogaeth i deuluoedd newydd.

**Sicrhau diogelwch cleifion**

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn cymryd diogelwch cleifion o ddifri, ac mae ganddi fesurau cadarn ar waith i gefnogi gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau lle mae pryderon yn cael eu nodi.

Mae cymaint o'r triniaethau yn y GIG yn dibynnu ar weinyddu gwasanaethau. Mae angen cefnogaeth ac atebolrwydd ar reolwyr. Bydd y Blaid Lafur yn gweithredu safonau proffesiynol ac yn rheoleiddio rheolwyr y GIG, gan sicrhau na fydd y rheini sy'n camymddwyn yn ddifrifol byth yn gallu gwneud hynny eto, ac yn sefydlu Coleg Arweinyddiaeth Glinigol Brenhinol i hyrwyddo llais



clinigwyr.

Byddwn yn gweithio i weithredu argymhellion arbenigol adolygiad Cass, i sicrhau bod pobl ifanc sy'n troi at y GIG gyda dysfforia rhywedd yn cael gofal priodol o ansawdd uchel, ochr yn ochr â bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

**Gofal iechyd yn nes at adref**

Mae Llywodraeth Lafur Cymru am symud mwy o ofal yn nes at adref fel nad oes rhaid i bobl deithio i'r ysbyty i gael gofal arferol.

Meddygon teulu yw drws ffrynt y gwasanaeth iechyd i'r rhan fwyaf o bobl ond nid oes angen i bawb weld eu meddyg teulu pan fyddant yn sâl. Agwedd Llafur Cymru fu cryfhau'r tîm gofal sylfaenol cyfan, fel bod pobl yn gweld y person mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion gofal iechyd.

Fel rhan o Fodel Gofal Sylfaenol Cymru, mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi gwneud newidiadau i'r contract meddygon teulu i gael gwared ar y dagfa 8am a'i gwneud yn haws cael apwyntiad - gyda'ch meddyg teulu a'r tîm gofal sylfaenol ehangach, wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae Cymru'n hyfforddi mwy o feddygon teulu, gan gynnwys cymell meddygon teulu dan hyfforddiant i weithio yng nghefn gwlad Cymru.

Mae eich Llywodraeth Lafur yng Nghymru wedi trawsnewid gofal llygaid, felly mae mwy o wasanaethau ar gael yn eich optegydd ar y stryd fawr. Mae'r cynllun anhwylderau cyffredin mewn fferyllfeydd lleol yn darparu triniaeth am ddim ar gyfer 27 o gyflyrau, o'i gymharu â dim ond saith yn Lloegr, ac mae nifer y presgripsiynwyr annibynnol wedi cynyddu.

**Deintyddiaeth**

Gwyddom fod dod o hyd i ddeintydd y GIG yn gallu bod yn anodd. Mae eich Llywodraeth Lafur yng Nghymru wedi bod yn gweithio'n galed i'w gwneud yn haws.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i wneud newidiadau i gontract y GIG i wella mynediad a gwella amodau gwaith deintyddion. Mae hyn wedi rhoi ffocws ar atal a gofal sy'n seiliedig ar anghenion. Mae'r newidiadau hyn wedi golygu bod dros 320,000 o apwyntiadau newydd ar gael ers mis Ebrill 2022. Ond gwyddom fod hyd yn oed mwy i'w wneud i wella mynediad ac mae Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithio ar y contract gyda'r proffesiwn.

Lansiwyd rhaglen iechyd y geg a brwsio dannedd Cynllun Gwên yn 2009 ac mae wedi helpu i leihau cyfraddau pydredd dannedd ymysg plant ifanc.

**Diwygio gofal cymdeithasol**
Mae Llafur Cymru wedi ymrwymo i'r cynllun hirdymor ar gyfer sefydlu Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, am ddim pryd a lle bynnag y bo'i angen, gyda gofal cymdeithasol yn parhau fel gwasanaeth cyhoeddus. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn gallu byw bywydau hapus ac annibynnol a'u bod yn cael eu grymuso i leisio'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw a'u bod yn cael adnoddau i wella eu llesiant a sicrhau rheolaeth yn eu bywydau bob dydd a'u dyheadau.

Mae Llafur Cymru eisoes wedi cyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal ac mae'n cydnabod pwysigrwydd gwella telerau ac amodau'r sector ymhellach er mwyn gwella lefelau cadw a recriwtio'r gweithlu. Mae Llafur Cymru hefyd wedi sicrhau bod gan weithwyr gofal cymdeithasol yr hawl i symud i oriau sefydlog o gontractau dim oriau ar ôl tri mis, ac mae wedi sefydlu'r Fforwm Gwaith Teg a'r Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Genedlaethol gan ddod â chynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr at ei gilydd gyda chomisiynwyr a rhanddeiliaid eraill i symud yr agenda hon yn ei blaen. Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn ystyried pa gyfleoedd pellach y bydd llywodraeth Lafur y DU, wrth sefydlu Cytundeb Cyflog Teg yn y sector, yn eu cynnig.

Sefydlodd Llafur Cymru swydd Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol yn 2021 a'r Swyddfa Genedlaethol dros Ofal a Chymorth ym mis Ebrill 2024 fel camau cyntaf ein Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol. Bydd y Fframwaith Cenedlaethol yn dod i rym ym mis Medi a bydd yn gosod safonau ar gyfer arferion comisiynu, yn lleihau cymhlethdod ac yn ailgydbwyso comisiynu i ganolbwyntio ar ansawdd a chanlyniadau. Mae deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno drwy'r Senedd ar hyn o bryd i alluogi taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi cyflwyno cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol a bydd yn parhau i weithio i broffesiynoli'r gweithlu ymhellach. Mae wedi sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddod â'r GIG, llywodraeth leol a phartneriaid eraill at ei gilydd i wella sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu ac i wella llesiant poblogaethau lleol.

O dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae gan



ofalwyr di-dâl yr hawl i ofyn am asesiad o'u hanghenion. Mae gan Lywodraeth Lafur Cymru raglen gwyliau byr gwerth £9 miliwn ar gyfer gofalwyr di-dâl, sy'n ceisio cynnig 30,000 o wyliau dros dair blynedd a chynllun grant gwerth £4.5 miliwn i helpu gofalwyr ar incwm isel i brynu eitemau sylfaenol hanfodol.

**Gwella iechyd meddwl**

Iechyd meddwl yw'r maes gwariant unigol mwyaf yn GIG Cymru, ac mae Llafur Cymru wedi clustnodi'r gyllideb. Rydyn ni'n credu mewn cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl ac iechyd corfforol.

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn ymgynghori ar ei strategaethau iechyd meddwl ac atal hunanladdiad diweddaraf – mae'r ddau'n seiliedig ar y syniad bod pobl yn cael eu cefnogi a'u grymuso i wella eu hiechyd meddwl; i geisio cymorth pan fydd ei angen arnynt ac i fyw heb ofn a stigma.

Mae hybiau iechyd meddwl wedi cael eu sefydlu ym mhob bwrdd iechyd ac mae Llafur Cymru yn gwneud yn siŵr nad oes drws anghywir os, a phan fydd angen cymorth iechyd meddwl arnoch chi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn gwasanaethau



hawdd eu defnyddio, nad oes angen atgyfeiriad, ac mae ein gwasanaeth '111 gwasgu 2' ar gyfer gofal iechyd meddwl brys yn unigryw i Gymru, gan gefnogi miloedd o bobl ledled Cymru bob mis.

Mae deddfwriaeth iechyd meddwl yn druenus o hen ffasiwn. Bydd Llafur yn moderneiddio deddfwriaeth iechyd meddwl ar gyfer Cymru a Lloegr er mwyn rhoi mwy o ddewis ac ymreolaeth i bobl, gwell hawliau a chefnogaeth a

sicrhau bod pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy driniaeth.

**Gweithredu ar iechyd y cyhoedd**
Bydd atal bob amser yn well, ac yn rhatach, na gwella. Felly, rhaid inni gymryd camau iechyd cyhoeddus ataliol i fynd i'r afael â'r lladdwyr mwyaf a chefnogi pobl i fyw bywydau hirach ac iachach.

Mae hynny'n dechrau drwy leihau lefelau ysmygu. Bydd Llafur yn sicrhau na all y genhedlaeth nesaf byth brynu sigarennau yn gyfreithlon. Bydd Llafur yn gwahardd fêps rhag cael eu brandio a'u hysbysebu i apelio i blant, er mwyn atal y genhedlaeth nesaf rhag mynd yn gaeth i nicotin.

Mae Llafur wedi ymrwymo i wahardd hysbysebu bwyd sothach i blant a gwerthu diodydd egni caffein-uchel i blant dan 16 oed yng Nghymru a Lloegr.

Bydd atal bob amser yn well, ac yn rhatach, na gwella. Felly, rhaid inni gymryd camau iechyd cyhoeddus ataliol i fynd i'r afael â'r lladdwyr mwyaf a chefnogi pobl i fyw bywydau hirach ac iachach

Mae plant a phobl ifanc yn wynebu niwed sylweddol ar-lein, gyda chynnwys amhriodol ar gael yn rhy hawdd ar flaenau eu bysedd ar ffôn clyfar. Rydym wedi gweld cynnydd mewn cynnwys casineb eithafol at fenywod ar-lein sy'n ysgogi diwylliant o drais yn erbyn menywod. Bydd Llafur yn adeiladu ar y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, gan gyflwyno darpariaethau cyn gynted â phosibl, ac yn edrych ar fesurau pellach i gadw pawb yn ddiogel ar-lein, yn enwedig wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwerau i grwneriaid gael gafael ar wybodaeth a gedwir gan gwmnïau technoleg ar ôl marwolaeth plentyn.

Mae Llafur wedi ymrwymo i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Gan gydnabod esblygiad y dirwedd gamblo ers 2005, bydd Llafur




yn diwygio rheoleiddio gamblo, gan gryfhau mesurau gwarchod. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant ar sut i sicrhau gamblo cyfrifol.

**Lleihau anghydraddoldebau iechyd**

Mae gan Brydain anghydraddoldebau iechyd difrifol. Ni all fod yn iawn bod disgwyliad oes yn amrywio mor eang ar draws ac o fewn cymunedau. Fel rhan o'n cenhadaeth iechyd, bydd Llywodraeth Lafur Cymru a llywodraeth Lafur yn San Steffan yn cydweithio i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd.

Ni fydd iechyd menywod byth yn cael ei esgeuluso. Yn dilyn cyhoeddi'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Menywod a Merched,

# Fel rhan o'n cenhadaeth iechyd, bydd Llywodraeth Lafur Cymru a llywodraeth Lafur yn San Steffan yn cydweithio i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd

bydd Cynllun Iechyd Menywod yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn, gan ddefnyddio profiadau menywod o wasanaethau yng Nghymru.

Drwy ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, byddwn yn gwneud newidiadau i wasanaethau mamolaeth i wella canlyniadau a phrofiadau menywod a theuluoedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n profi anghydraddoldebau iechyd.

Roedd Llywodraeth Lafur Cymru yn falch iawn o fod y cyntaf yn y DU i sicrhau bod PrEP ar gael ar y GIG. Bydd ei Gynllun Gweithredu uchelgeisiol ar HIV yn parhau i leihau heintiau newydd, diagnosis hwyr a lleihau stigma.

**Bydd Llywodraeth Lafur y DU yn bartner gwirioneddol i Lywodraeth Lafur Cymru, a fydd yn parhau i foderneiddio'r GIG a gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru, yn unol ag egwyddorion y GIG a sefydlodd Llafur.**





# GWASANAETHU'R WLAD

- **Comisiwn Moeseg a Gonestrwydd newydd**
- **Moderneiddio Tŷ'r Cyffredin**
- **Diwygio Tŷ'r Arglwyddi ar unwaith**
- **Ailosod y berthynas rhwng San Steffan a Bae Caerdydd, Holyrood, a Stormont**
- **Pleidleisio yn 16 oed**

Dros y 14 mlynedd diwethaf, mae ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth wedi cael ei chwalu. Partis yn Stryd Downing tra bod y wlad gyfan wedi aberthu eu rhyddid. Rhoi contractau Covid proffidiol i ffrindiau a rhoddwyr. Methu â diarddel ASau a ddaliwyd yn torri'r rheolau. Yn ddealladwy, mae ymddygiad y Ceidwadwyr wedi arwain at gred gyffredinol bod llawer o wleidyddion yn gweithredu er eu budd eu hunain. O ganlyniad, mae argyfwng hyder yn awr yn y system wleidyddol ac yng ngallu San Steffan i gyflawni unrhyw newid.

Nid llygredd a sgandal yn unig sydd wedi erydu ymddiriedaeth. Yr un mor niweidiol fu anallu gwleidyddion i gadw at addewidion a wnaed i bobl Prydain. Dros y 14 mlynedd diwethaf, mae'r gagendor enfawr rhwng sloganau Ceidwadol a realiti wedi dangos dirmyg tuag at ddemocratiaeth. O honni "mae pawb yn yr un cwch" tra'n dinistrio gwasanaethau cyhoeddus, i'r addewidion gwag i "godi'r gwastad", mae gimigau a siarad gwag cywilyddus wedi disodli'r gwaith caled o lywodraethu yn San Steffan. Tra bo'r Ceidwadwyr yn cynnal partis yn Stryd Downing, bu Llywodraeth Lafur Cymru yn gweithio bob awr o'r dydd i gadw Cymru'n ddiogel gyda'n GIG, ein cynghorau a'n partneriaid undeb llafur rhagorol.

I'r gwrthwyneb, mae Llafur wedi'i thrawsnewid o fod yn blaid brotest i fod yn blaid sydd bob amser yn rhoi buddiannau'r wlad yn gyntaf. Yn awr, yr ydym yn benderfynol o wneud yr un peth gyda'n gwleidyddiaeth, gan ddychwelyd llywodraeth at wasanaethu pobl sy'n gweithio. Bydd hyn yn golygu ailosod ein bywyd cyhoeddus; proses o lanhau sy'n sicrhau'r safonau uchaf o uniondeb a gonestrwydd. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ASau yn canolbwyntio ar wasanaethu eu hetholwyr. Byddwn yn cryfhau ein democratiaeth drwy ddiwygio'r senedd yn San Steffan a datganoli grym i gymunedau. Ac yn hytrach nag annog ymrannu, byddwn yn sicrhau bod parch a chydweithrediad ar draws y gwahanol lywodraethau sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig.

Mae gosod y safonau uchaf mewn bywyd cyhoeddus yn golygu mwy na dim ond gwell ymddygiad neu well penderfyniadau, er y bydd yn gwella hynny hefyd. Mae hefyd yn ganolog i adfer ymddiriedaeth rhwng y cyhoedd a gwleidyddiaeth. Ar ôl 14 mlynedd o anhrefn, ymrannu ac amarch y Ceidwadwyr, mae pobl Prydain, yn ddealladwy, yn sinigaidd ynghylch galwadau i ddod ynghyd er budd y genedl. Ond nid yw'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu yn mynnu dim llai – dyma

# Byddwn yn cryfhau'r berthynas rhwng y llywodraethau yn San Steffan a Chymru. Bydd y ddwy lywodraeth yn cydweithio i gyflawni cenadaethau cenedlaethol y Blaid Lafur

yw anadl einioes adnewyddiad cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn cydnabod bod yn rhaid i wleidyddiaeth wneud y cam cyntaf i atgyweirio'r cwlwm hwnnw.

**Adfer gwasanaeth cyhoeddus yn San Steffan**

Bydd Llafur yn adfer hyder mewn llywodraeth ac yn sicrhau bod gweinidogion yn cael eu dal i gyfrif yn erbyn y safonau uchaf. Byddwn yn sefydlu Comisiwn Moeseg a Gonestrwydd annibynnol newydd, gyda'i Gadeirydd annibynnol ei hun, i sicrhau uniondeb yn y llywodraeth.

Bydd Llafur yn adolygu ac yn diweddaru rheolau cyflogaeth ôl-lywodraeth i roi terfyn ar y cam-drin cywilyddus a welwyd o dan y Ceidwadwyr. Mae hyn yn cynnwys gorfodi cyfyngiadau ar weinidogion yn lobïo dros y cwmnïau roeddent yn arfer eu rheoleiddio, gyda sancsiynau ystyrlon am dorri'r rheolau. Byddwn yn rhoi pwerau i'r Cynghorydd Annibynnol ar Fuddiannau Gweinidogion ddechrau ymchwilio i gamymddygiad a sicrhau ei fod yn gallu cael gafael ar y dystiolaeth sydd ei hangen arno.

Mae'r rhan fwyaf o ASau yn gweithio'n galed i wasanaethu eu hetholwyr ond gallant gael eu llethu gan weithdrefnau arcên ac arferion gweithio hen ffasiwn. Bydd Llafur yn sefydlu Pwyllgor Moderneiddio newydd fydd yn gyfrifol am ddiwygio gweithdrefnau Tŷ'r Cyffredin, gwella safonau, a gwella arferion gweithio. Mae diffyg rheolau ar ail swyddi hefyd yn golygu bod gan rai etholwyr ASau sy'n treulio mwy o amser ar eu hail swydd, neu'n lobïo dros fuddiannau allanol, nag ar eu cynrychioli. Felly, fel cam cyntaf,

bydd Llafur yn cefnogi gwaharddiad ar unwaith ar ASau rhag ymgymryd â rolau cynghori neu ymgynghori cyflogedig. Byddwn yn pwyso ar y Pwyllgor Moderneiddio i fwrw ymlaen â gwaith brys ar y cyfyngiadau y mae angen eu rhoi ar waith i atal ASau rhag ymgymryd â rolau sy'n eu hatal rhag gwasanaethu eu hetholwyr a'r wlad.

**Diwygio cyfansoddiadol**

Er bod Llafur yn cydnabod gwaith da llawer o arglwyddi sy'n craffu ar y llywodraeth ac yn gwella ansawdd y ddeddfwriaeth sy'n cael ei phasio yn y senedd San Steffan, mae gwir angen diwygio ers amser maith, ac mae hynny'n hanfodol. Mae yna ormod o arglwyddi nad ydynt chwarae rhan briodol yn ein democratiaeth. Mae arglwyddi etifeddol yn parhau i fod yn anamddiffynadwy. Ac oherwydd bod penodiadau am oes, mae ail siambr y senedd yn San Steffan wedi mynd yn rhy fawr.

Felly, bydd y llywodraeth Lafur nesaf yn moderneiddio ar unwaith, drwy gyflwyno deddfwriaeth i ddileu hawl arglwyddi etifeddol i eistedd a phleidleisio yn Nhŷ'r Arglwyddi. Bydd Llafur hefyd yn cyflwyno oedran ymddeol gorfodol. Ar ddiwedd tymor y senedd yn San Steffan pan fo aelod yn cyrraedd 80 oed, bydd yn ofynnol iddo ymddeol o Dŷ'r Arglwyddi.

Bydd Llafur yn sicrhau bod yr holl arglwyddi yn bodloni'r safonau uchel y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl ganddynt, a byddwn yn cyflwyno gofyniad cyfranogi newydd yn ogystal â chryfhau'r amgylchiadau lle gellir diarddel aelodau sydd wedi dwyn gwarth arnynt eu hunain. Byddwn yn diwygio'r broses benodi i sicrhau ansawdd penodiadau newydd a byddwn yn ceisio gwella cydbwysedd cenedlaethol a rhanbarthol yr ail siambr.

Er y bydd y cam hwn i foderneiddio Tŷ'r Arglwyddi yn welliant, mae Llafur wedi ymrwymo i ddisodli Tŷ'r Arglwyddi ag ail siambr arall sy'n fwy cynrychioliadol o'r gwledydd a'r rhanbarthau. Bydd Llafur yn ymgynghori ar gynigion, gan geisio mewnbwn gan y cyhoedd ym Mhrydain ynghylch y ffordd orau i wleidyddiaeth eu gwasanaethu.

**Cynnal democratiaeth**

Mae Llafur wedi ymrwymo i gryfhau ein democratiaeth a chynnal uniondeb etholiadau. Yn hytrach nag annog cyfranogiad llawn yn ein democratiaeth, mae'r Ceidwadwyr wedi cyflwyno newidiadau pleidiol sy'n ei gwneud yn anoddach pleidleisio, gan wneud dim i gryfhau amddiffyniadau yn erbyn ymyriant tramor.

Er mwyn annog cyfranogiad yn ein democratiaeth, bydd Llafur



yn gwella'r broses o gofrestru pleidleiswyr ac yn mynd i'r afael â'r anghysondebau mewn rheolau adnabod pleidleiswyr sy'n atal pleidleiswyr dilys rhag pleidleisio. Er enghraifft, yn achos Cardiau Cyn-filwyr Lluoedd Arfog EF. Byddwn yn cynyddu ymgysylltiad pobl ifanc yn ein democratiaeth fywiog, a byddwn yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan Lywodraeth Lafur Cymru ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol yng Nghymru, drwy roi'r hawl i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio ym mhob etholiad. A byddwn yn diogelu democratiaeth drwy gryfhau'r rheolau sy'n ymwneud â rhoddion i bleidiau gwleidyddol.

**Mwy o gydweithio a pharch ledled y wlad**

Fel rhan o gynlluniau Llafur i lanhau gwleidyddiaeth a'i hadfer i wasanaethu pobl sy'n gweithio, byddwn yn ailosod perthynas llywodraeth y DU â llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r Ceidwadwyr wedi gwanhau ein gwlad drwy amharchu rôl



ddilys llywodraethau a seneddau datganoledig dro ar ôl tro.

Byddwn yn sicrhau bod aelodau o ddeddfwrfeydd datganoledig yn cael yr un amddiffyniadau rhyddid mynegiant ag sydd gan Aelodau Seneddol yn San Steffan, er mwyn i gynrychiolwyr etholedig allu dal grym i gyfrif.

Bydd Llafur yn sicrhau bod strwythurau a sefydliadau gwaith rhynglywodraethol yn gwella cysylltiadau a chydweithio ar bolisi.

Bydd Llafur yn cryfhau Confensiwn Sewel drwy amlinellu memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd sy'n amlinellu sut y bydd y cenhedloedd yn cydweithio er lles pawb.

Bydd Llafur yn adnewyddu cyfleoedd i'r Prif Weinidog a Phenaethiaid y Llywodraethau Ddatganoledig gydweithio â'i gilydd. Fel yr argymhellwyd yn Adroddiad y Comisiwn ar ddyfodol y DU, byddwn yn sefydlu Cyngor y Gwledydd a'r Rhanbarthau newydd. Bydd hyn yn dwyn ynghyd y Prif Weinidog, Prif Weinidogion Cymru a'r Alban, Prif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon, a Meiri Awdurdodau Cyfun.

Bydd y llywodraeth Lafur nesaf hefyd yn sicrhau bod cyrff ar draws y DU yn fwy cynrychioliadol o'n gwledydd a'n rhanbarthau. Bydd negodwyr masnach y DU yn gweithio gyda llywodraethau datganoledig i hyrwyddo ein busnesau a'n gwasanaethau gwych yn rhyngwladol. Bydd Llafur yn adfer y broses o wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu cronfeydd strwythurol i gynrychiolwyr Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd y buddsoddiadau arfaethedig mewn gwasanaethau cyhoeddus a amlinellir yn y maniffesto hwn gan Lywodraeth y DU yn arwain at gyllid ychwanegol i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Datganoli yng Nghymru a Swyddfa Cymru

Mae Cymru wedi cael cam gan Lywodraeth anhrefnus a chynhennus nad yw'n deall uchelgais pobl Cymru ac sy'n gwrthod gweithio gyda Llywodraeth Cymru i'w cyflawni. Bydd Llafur yn gwasanaethu Cymru gyda chynllun sy'n cyfateb i'r uchelgeisiau hynny.

Byddwn yn cryfhau'r berthynas rhwng y llywodraethau yn San Steffan a Chymru. Bydd y ddwy lywodraeth yn cydweithio i gyflawni cenadaethau cenedlaethol y Blaid Lafur. Mae Llafur yn cydnabod bod Fframwaith Cyllidol Cymru wedi dyddio. Rydym wedi ymrwymo i

Bydd Llafur yn sicrhau bod strwythurau a sefydliadau gwaith rhyng-lywodraethol yn gwella cysylltiadau a chydweithio ar bolisi



weithio mewn partneriaeth rhwng y ddwy lywodraeth i sicrhau bod y fframwaith yn sicrhau gwerth am arian, gyda dwy lywodraeth Lafur wedi ymrwymo i gyfrifoldeb ariannol. Bydd buddsoddiadau arfaethedig mewn gwasanaethau cyhoeddus gan lywodraeth Lafur yn y DU yn golygu £195m ychwanegol o gyllid i Gymru.

Mae Llafur yn cydnabod gwerth gwasanaethau cyhoeddus integredig, sy'n fwy effeithlon ac sy'n creu canlyniadau gwell. Fel rhan o adolygiad strategol o'r gwasanaeth prawf, bydd Llywodraeth Lafur nesaf y DU yn edrych ar ddatganoli gwasanaethau er mwyn eu galluogi i fod yn fwy ymatebol yn lleol. Bydd Llywodraeth Lafur y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Lafur Cymru i ystyried datganoli cyfiawnder ieuenctid. Yn unol â'n hymrwymiad i ddatganoli cymorth cyflogaeth yn Lloegr, bydd Llafur yn datganoli cyllid cymorth cyflogaeth i Lywodraeth Cymru.

Mae diwylliant, cynhyrchion a gwasanaethau Cymru yn enwog ledled y byd – o'r sector twristiaeth ffyniannus i ddur o'r safon uchaf, i deledu a ffilm arloesol, i dechnoleg a lled-ddargludyddion. Bydd y Blaid Lafur yn harneisio rhwydweithiau diplomyddol a masnach Llywodraeth y DU, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo Cymru ar draws y byd.

Gyda Llafur, bydd Swyddfa Cymru unwaith eto'n dod yn eiriolwr dros Gymru gartref a thramor ac yn hwyluso cydweithio agosach rhwng ein llywodraethau. Bydd Swyddfa Cymru yn sicrhau, o ran materion o dan gymhwysedd llywodraeth y DU, bod llais Cymru yn cael ei glywed yn iawn.

### Datganoli yn yr Alban a Swyddfa'r Alban

Mae pobl yr Alban yn haeddu cael llywodraethau sy'n canolbwyntio ar gyflawni ar eu rhan. Nid yw Llafur yn cefnogi annibyniaeth na refferendwm arall, ond gwyddom fod angen newid ar bobl yr Alban ar ôl 14 mlynedd o'r Ceidwadwyr. Bydd y Blaid Lafur yn gweithredu mewn ffordd wahanol yn yr Alban: byddwn yn diogelu ac yn parchu datganoli ac yn ailosod y cysylltiadau rhwng llywodraethau.

Bydd Llafur yn cryfhau democratiaeth a datganoli yn yr Alban, gan hyrwyddo'r Alban gartref a thramor. Byddwn yn sicrhau bod y setliad datganoli ar gyfer yr Alban yn galluogi cydweithio ar genhadaeth genedlaethol y Blaid Lafur ar gyfer llywodraeth. Byddwn yn cynnal y trefniadau yn fframwaith cyllidol newydd yr Alban.

Bydd gan lywodraeth Lafur yn y DU ddull gweithredu mwy cydweithredol gyda Llywodraeth yr Alban o ran eu hymgysylltu rhyngwladol. Rydym yn cydnabod bod gan Lywodraeth yr Alban rôl bwysig i'w chwarae o fewn cymwyseddau datganoledig. O ran materion sydd wedi'u datganoli'n llwyr, bydd Llafur yn cefnogi Llywodraeth yr Alban i weithio mewn partneriaeth â chyrff rhyngwladol lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol, er enghraifft i gydweithio ar fentrau iechyd byd-eang. Bydd Llywodraeth y DU yn cadw'r cyfrifoldeb llawn dros bolisi tramor.

Bydd Swyddfa'r Alban yn manteisio i'r eithaf ar ddylanwad yr Alban, a gyda Llafur bydd unwaith eto'n dod yn eiriolwr dros yr Alban, gartref a thramor. Bydd Swyddfa'r Alban yn sicrhau bod llais yr Alban yn cael ei glywed yn briodol ar faterion o dan gymhwysedd Llywodraeth y DU. Mae gan yr Alban enw rhagorol yn rhyngwladol. Mae ei diwylliant, ei chynhyrchion a'i gwasanaethau yn enwog yn rhyngwladol – o wisgi ac eogiaid i ddatblygu gemau cyfrifiadurol, biowyddoniaeth a gwasanaethau ariannol. Bydd y Blaid Lafur yn hyrwyddo 'Brand Scotland' ledled y byd drwy Swyddfa'r Alban, a'n rhwydweithiau masnach a diplomyddol.

**Gogledd Iwerddon**

Mae angen sefydlogrwydd a sicrwydd hirdymor ar Ogledd Iwerddon ar ôl heriau'r blynyddoedd diwethaf. Bydd Llafur yn gweithio gyda'r Weithrediaeth a'r Cynulliad i wella gwasanaethau cyhoeddus a chreu twf economaidd, a gyda'r holl bleidiau gwleidyddol a chymunedau i sicrhau sefydlogrwydd llywodraeth ddatganoledig.

Mae Llafur wedi ymrwymo i weithredu Fframwaith Windsor yn ddidwyll a gwarchod marchnad fewnol y DU. Mae gan economi Gogledd Iwerddon gryfderau enfawr – gyda gweithlu medrus iawn, gwasanaethau cryf, gweithgynhyrchu a sectorau gwyddorau bywyd, a chyfleoedd gwych ar gyfer mewnfuddsoddi. Bydd llywodraeth Lafur yn hyrwyddo Gogledd Iwerddon ledled y byd ac yn gweithio gyda'r Weithrediaeth i annog mwy o fusnesau i fuddsoddi yn nyfodol Gogledd Iwerddon.

Mae Llafur wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â thrafodaethau gyda'r Weithrediaeth ynghylch fframwaith cyllidol ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Mae Cytundeb Dydd Gwener y Groglith, a'r heddwch a'r ffyniant y mae wedi'i gyflwyno i Ogledd

Iwerddon, yn un o lwyddiannau mwyaf balch y Llywodraeth Lafur ddiwethaf. Fel gwarantwr Cytundeb Dydd Gwener y Groglith, bydd llywodraeth Lafur yn cynnal ystyr ac ysbryd y Cytundeb, ynghyd â'r egwyddor o gydsyniad y mae'n seiliedig arni. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Iwerddon i gryfhau'r berthynas rhwng ein dwy wlad.

Mae'r Ddeddf Gwaddol yn gwadu cyfiawnder i deuluoedd a dioddefwyr y Trafferthion. Bydd Llafur yn ei diddymu ac yn ei disodli, drwy ddychwelyd at egwyddorion Cytundeb Tŷ Stormont, a cheisio cefnogaeth gan bob cymuned yng Ngogledd Iwerddon.

**Bydd Llafur yn rhoi terfyn ar yr anrhefn sy'n gysylltiedig â llygredd ac ymrannu, yn agor pennod newydd, ac yn ailosod gwleidyddiaeth er mwyn iddi wasanaethu pobl sy'n gweithio unwaith eto.**



# PRYDAIN WEDI'I HAILGYSYLLTU

- Ymrwymiad diwyro i NATO a'n arfau niwclear ataliol
- Sefyll dros ein lluoedd arfog a chyn-filwyr
- Cytundebau masnach newydd
- Prydain yn arwain Cynghrair Ynni Glân
- Moderneiddio datblygiad rhyngwladol



Gyda Llafur, bydd Prydain unwaith eto'n gryf ar lwyfan y byd, yn hyderus wrth fynd ar drywydd ein buddiannau cenedlaethol, ac yn flaengar ond yn realistig ynghylch yr heriau a wynebwn. Byddwn yn ailgysylltu â chynghreiriaid ac yn ffurfio partneriaethau newydd i sicrhau diogelwch a ffyniant gartref a thramor.

Mae Cymru'n falch o fod yn wlad glyfar ac arloesol, gydag enw da sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'n ffiniau.

Mae'r enw da hwn yn seiliedig ar gynifer o'r elfennau sy'n gwneud Cymru yn wlad hynod; o harddwch naturiol ac iaith unigryw, i gyflawniadau chwaraeon a diwylliant, treftadaeth unigryw a'r amrywiaeth gyfoethog o gymunedau sy'n gwneud hwn yn lle mor fywiog i fyw ynddo. Ac mae rhagoriaeth ein busnesau, ein hacademyddion a'n gweithlu yn golygu bod Cymru ar flaen y gad mewn sectorau fel gwyddor yr hinsawdd a seiberddiogelwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd a chynhyrchu ffilm a theledu. Gyda'r gefnogaeth briodol, mae gan y sectorau hyn – a llawer o sectorau eraill – y potensial i sicrhau twf economaidd a swyddi da'r dyfodol yma yng Nghymru.

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar gryfderau unigryw ein cenedl a'u hyrwyddo i'r byd. Mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Lafur Cymru yn nodi uchelgais i Gymru, i godi ein henw da a'n proffil yn rhyngwladol, i sefydlu ein henw da fel cenedl sydd wedi ymrwymo i greadigrwydd, cynaliadwyedd a thechnoleg.

Mae Cymru eisoes yn gartref i fuddsoddwyr a busnesau rhyngwladol mawr, gan gynnwys cwmnïau o'r Unol Daleithiau, yr Almaen, Ffrainc, Sbaen, Japan, Canada ac India ac, yn eu tro, mae cwmnïau o Gymru yn allforio ledled y byd. Bydd Llywodraeth Lafur Cymru yn parhau i weithio'n rhyngwladol i agor cyfleoedd masnachu a sbarduno mewnfuddsoddiad, yn union fel yr ydym wedi'i wneud yn llwyddiannus gyda KLA ar led-ddargludyddion.

Bydd yr uchelgeisiau yn y maniffesto hwn i sefydlu Prydain fel arweinydd byd-eang mewn sectorau adnewyddadwy fel ynni gwynt arnofiol ar y môr, pŵer niwclear a hydrogen, hefyd yn darparu cyfleoedd hanfodol i ddatblygu swyddi a chyfleoedd allforio'r dyfodol. A bydd ymrwymiad llywodraeth Lafur y DU yn y dyfodol i fynd i'r afael â rhwystrau masnach gyda'r UE hefyd yn helpu i ryddhau mwy o gyfleoedd allforio i fusnesau Cymru.

Dros y 14 mlynedd diwethaf, mae'r byd wedi tyfu'n fwy ansefydlog ac ansicr. Mae rhyfel wedi dychwelyd i Ewrop am y tro cyntaf ers cenhedlaeth, mae trais dinistriol yn y Dwyrain Canol, mae newid technolegol cyflym ac argyfwng yr hinsawdd yn achosi tensiynau geowleidyddol, ac mae

## Gyda Llafur, bydd Prydain unwaith eto'n gryf ar lwyfan y byd, yn hyderus wrth fynd ar drywydd ein buddiannau cenedlaethol. Mae ein hymrwymiad i NATO fel conglfaen diogelwch Ewropeaidd a byd-eang yn ddiwyro

gweithredwyr niweidiol yn ceisio ein gwahanu.

Mae'r dirwedd fyd-eang dywyll hon yn gofyn am Brydain gref a chysylltiedig.

Yn hytrach, mae polisi tramor anhrefnus y Ceidwadwyr wedi gwanhau ein cynghreiriau, wedi difetha ein harweinyddiaeth ar yr hinsawdd – cyfle diplomyddol



enfawr – ac wedi tanseilio ein henw da fel cynheiliaid cyfraith ryngwladol. Gartref, mae ymosodiadau'r Ceidwadwyr ar ein sefydliadau sy'n cael eu parchu'n fyd-eang – prifysgolion, llysoedd a'r BBC – wedi tanseilio ein pŵer meddal, a oedd yn draddodiadol yn ffynhonnell o gryfder mawr, ac wedi lleihau ein dylanwad.

Mae'r methiant hwn ar y llwyfan rhyngwladol wedi costio i bobl Prydain. Rydym yn llai diogel, gyda theuluoedd yn wynebu biliau ynni uchel a phrisiau bwyd uchel o ganlyniad.

Bydd Llafur yn agor pennod newydd ac yn gwrthdroi hyn, gan adfywio cynghreiriau a chreu partneriaethau newydd. Mae ein hymrwymiad i NATO fel conglfaen diogelwch Ewropeaidd a byd-eang yn ddiwyro. Byddwn yn hyderus yn ein statws y tu allan i'r UE, ond yn genedl flaenllaw yn Ewrop unwaith eto, gyda pherthynas well ac uchelgeisiol gyda'n partneriaid Ewropeaidd. Unwaith eto, byddwn yn bartner da ar gyfer datblygu rhyngwladol, ac yn amddiffynnydd rheol y gyfraith yn rhyngwladol. A byddwn yn dychwelyd i flaen y gad o ran gweithredu ar yr hinsawdd drwy greu swyddi gwyrdd y dyfodol gartref ac yn bwrw ymlaen â'r trawsnewid i ynni adnewyddadwy ar y llwyfan byd-eang.

Bydd Prydain yn bartner dibynadwy, yn gynghreiriad dibynadwy, ac yn gymydog da. Gwlad optimistaidd ar ddechrau cyfnod o adnewyddu.

**Ailadeiladu perthnasoedd**
Mae Prydain bob amser yn gryfach pan fyddwn yn gweithio gydag eraill. Mae'r Unol Daleithiau yn gynghreiriad anhepgor. Mae ein perthynas arbennig yn hanfodol ar gyfer diogelwch a ffyniant, ac mae'n mynd y tu hwnt i ba bynnag bleidiau gwleidyddol ac unigolion sydd mewn grym. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Unol Daleithiau ar sail ein gwerthoedd cyffredin a'n buddiannau cyffredin, gan gynnwys ar gydweithrediad economaidd, amddiffyn a chudd-wybodaeth.

Gyda Llafur, bydd Prydain yn aros y tu allan i'r UE. Ond er mwyn manteisio ar y cyfleoedd sydd o'n blaenau, rhaid i ni wneud i Brexit weithio. Byddwn yn ailosod y berthynas ac yn ceisio dyfnhau cysylltiadau â'n cyfeillion, ein cymdogion a'n cynghreiriaid yn Ewrop. Nid yw hynny'n golygu ailagor rhaniadau'r gorffennol. Ni fyddwn yn dychwelyd i'r farchnad sengl, i'r undeb tollau na rhyddid i symud.

Yn hytrach, bydd Llafur yn gweithio i wella perthynas masnach a buddsoddi'r DU â'r UE, drwy chwalu rhwystrau diangen i fasnach. Byddwn yn ceisio negodi cytundeb milfeddygol i atal archwiliadau diangen ar y ffin a helpu i fynd i'r afael â chost bwyd; byddwn yn helpu ein hartistiaid teithiol; a byddwn yn sicrhau cytundeb cydnabyddiaeth ar y cyd ar gyfer cymwysterau proffesiynol i helpu i agor marchnadoedd i allforwyr gwasanaethau yn y DU.

> Wrth wraidd ein diogelwch mae'r dynion a'r menywod sy'n gwasanaethu ac yn peryglu eu bywydau er mwyn y wlad hon. Byddwn yn cryfhau'r gefnogaeth i gymunedau ein Lluoedd Arfog

Bydd y Blaid Lafur yn ceisio cytundeb diogelwch newydd uchelgeisiol rhwng y DU a'r UE i gryfhau cydweithrediad ar y bygythiadau sy'n ein hwynebu. Byddwn yn ailadeiladu'r berthynas â chynghreiriaid Ewropeaidd allweddol, gan gynnwys Ffrainc a'r Almaen, drwy fwy o gydweithrediad ar amddiffyn a diogelwch. Byddwn

# Gyda Llafur, bydd cefnogaeth filwrol, ariannol, diplomataidd a gwleidyddoly DU i Wcráin yn aros yn gadarn

yn ceisio cael cytundebau dwyochrog newydd a gweithio'n agosach gyda phartneriaid y Cyd-fyddin Ymgyrchol. Bydd hyn yn cryfhau NATO ac yn cadw Prydain yn ddiogel.

Mae sefydliadau amlochrog yn parhau i fod yn anhepgor, ond maent yn wynebu anawsterau o ganlyniad i straen heriau byd-eang newydd. Bydd Llafur yn gweithio gyda chynghreiriaid i adeiladu, cryfhau a diwygio'r sefydliadau hyn. Byddwn yn defnyddio safle unigryw'r DU yn NATO, y Cenhedloedd Unedig, G7, G20 a'r Gymanwlad i fynd i'r afael â'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu, ac i gynnal hawliau dynol a chyfraith ryngwladol. Mae Llafur yn gwerthfawrogi cyfraith ryngwladol oherwydd y diogelwch a ddaw yn ei sgil. Bydd Prydain yn parhau i fod yn aelod o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ddigamsyniol.

**Amddiffyn diogelwch y DU**

Dyletswydd gyntaf y Blaid Lafur mewn llywodraeth fydd cadw ein gwlad yn ddiogel. Byddwn yn lansio Adolygiad Amddiffyn Strategol i asesu'r bygythiadau rydym yn eu hwynebu a'r galluoedd sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw. Wrth wraidd ein diogelwch mae'r dynion a'r menywod sy'n gwasanaethu ac yn peryglu eu bywydau er mwyn y wlad hon. Byddwn yn cryfhau'r gefnogaeth i gymunedau ein Lluoedd Arfog drwy roi Cyfamod y Lluoedd Arfog yn llawn mewn cyfraith a sefydlu Comisiynydd Annibynnol y Lluoedd Arfog i wella bywyd yn y lluoedd. Bydd Llafur yn sicrhau bod cyn-filwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Yng Nghymru, mae gwasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr Llywodraeth Lafur Cymru eisoes yn darparu gwasanaeth arbenigol â blaenoriaeth i unigolion sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ar unrhyw adeg yn eu bywydau ac sy'n profi anawsterau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig yn benodol â'u gwasanaeth milwrol. Byddwn hefyd yn cael gwared ar ffioedd fisa ar gyfer cyn-filwyr o'r tu allan i'r DU a'u dibynyddion sydd wedi gwasanaethu am bedair blynedd neu fwy.



Mae cryfhau diogelwch Prydain yn gofyn am bartneriaeth hirdymor gyda'n diwydiant amddiffyn domestig. Bydd Llafur yn cyflwyno strategaeth ddiwydiannol amddiffyn sy'n cyd-fynd â'n blaenoriaethau diogelwch ac economaidd. Byddwn yn sicrhau sector amddiffyn cryf a chadwyni cyflenwi cadarn, gan gynnwys dur, ar draws y DU gyfan. Byddwn yn sefydlu partneriaethau hirdymor rhwng busnes a'r llywodraeth, yn hyrwyddo arloesedd, ac yn gwella gwydnwch. Byddwn yn blaenoriaethu busnesau'r DU ar gyfer buddsoddi mewn amddiffyn ac yn diwygio caffael i leihau gwastraff. Bydd y Blaid Lafur yn cefnogi'r diwydiant i elwa o gyfleoedd allforio, yn unol â threfn gadarn ar gyfer allforio arfau sydd wedi ymrwymo i gynnal cyfraith ryngwladol.

Mae cryfhau ein hamddiffynfeydd hefyd yn gofyn am arweinyddiaeth gryfach, atebolrwydd cliriach, darpariaeth gyflymach, llai o wastraff a gwell gwerth am arian. Bydd Llafur yn sefydlu pencadlys strategol milwrol sy'n gweithredu'n llawn a chyfarwyddwr arfau cenedlaethol i greu canolfan amddiffyn gref sy'n gallu arwain Prydain wrth fynd i'r afael â'r bygythiadau cynyddol a wynebwn.

Gyda Llafur, bydd cefnogaeth filwrol, ariannol, diplomataidd a gwleidyddol y DU i Wcráin yn aros yn gadarn. Bydd Llafur yn cefnogi ymdrechion i ddal Rwsia Putin i gyfrif am ei rhyfel anghyfreithlon, gan gefnogi

# Mae Prydain yn genedl fasnachu falch ac mae busnes rhyngwladol llewyrchus yn rhan hanfodol o'n cynllun ar gyfer twf

galwadau am Dribiwnlys Arbennig ar gyfer Trosedd Ymosodedd. Byddwn yn gweithio gyda'n cynghreiriaid i alluogi atafaelu ac ail-bwrpasu asedau gwladwriaeth Rwsia sydd wedi'u rhewi i gefnogi Wcráin. A byddwn yn chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddarparu llwybr clir i Wcráin at fod yn aelod o NATO.

Bydd Llafur hefyd yn gweithio gyda'n cynghreiriaid a'n canolfannau ariannol rhyngwladol i fynd i'r afael â llygredd a gwyngalchu arian, gan gynnwys ym Mhrydain, Tiriogaethau Dibynnol y Goron, a Thiriogaethau Tramor Prydeinig.

Mae Llafur wedi ymrwymo'n llwyr i AUKUS, y bartneriaeth ddiogelwch dairochrog gydag Awstralia a'r Unol Daleithiau. Byddwn yn sicrhau ei bod yn cyflawni ei photensial economaidd llawn yn ogystal â'i photensial o ran diogelwch, gan gynyddu swyddi a buddsoddiad mewn cymunedau ledled y DU.

Ar ôl 14 mlynedd o anghysondeb niweidiol y Ceidwadwyr ynghylch Tsieina, bydd Llafur yn cyflwyno dull strategol a hirdymor o reoli ein cysylltiadau. Byddwn yn cydweithredu lle y gallwn, yn cystadlu lle bo angen, ac yn herio pan fo raid. Byddwn yn gwella gallu'r DU i ddeall ac ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd y mae Tsieina'n eu cynnig drwy archwilio ein perthynas ddwyochrog. Byddwn bob amser yn gweithredu er ein lles ac yn amddiffyn ein sofraniaeth a'n gwerthoedd democrataidd. Byddwn yn sefyll gyda ac yn cefnogi aelodau o gymuned Hong Kong sydd wedi adleoli i'r DU.

Mae amddiffyn ein diogelwch hefyd yn golygu diogelu Tiriogaethau Tramor Prydeinig a Thiriogaethau Dibynnol y Goron, gan gynnwys Ynysoedd y Falklands a Gibraltar. Bydd Llafur bob amser yn amddiffyn eu sofraniaeth a'u hawl i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

**Hyrwyddo ffyniant y DU**
Gorchwyl cyntaf y Blaid Lafur mewn llywodraeth fydd tyfu ein heconomi. Bydd hyn wrth galon popeth a wnawn, gan gynnwys ein



polisi tramor. Byddwn yn defnyddio ein rhwydwaith diplomyddol i ddenu buddsoddiad uniongyrchol o dramor i'r DU, ehangu marchnadoedd ar gyfer allforwyr ym Mhrydain, a siapio fframweithiau rheoleiddio sy'n dod i'r amlwg.

Mae Prydain yn genedl fasnachu falch ac mae busnes rhyngwladol llewyrchus yn rhan hanfodol o'n cynllun ar gyfer twf. Mae bod yn agored i fasnach yn caniatáu i'n cwmnïau dyfu ac yn rhoi mwy o ddewis a gwerth i ddefnyddwyr. Yn hytrach na blaenoriaethu cytundebau ansylweddol nad ydynt yn dod â manteision ystyrlon i'r DU, bydd Llafur yn ceisio cytundebau masnach wedi'u targedu sy'n cyd-fynd â'n strategaeth ddiwydiannol a'n cryfderau economaidd, er mwyn dod â ffyniant i gymunedau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Byddwn yn cyhoeddi strategaeth fasnach ac yn defnyddio pob lifer sydd ar gael i gael y mynediad sydd ei angen ar fusnesau yn y DU i farchnadoedd rhyngwladol. Bydd hyn yn hyrwyddo'r safonau uchaf o ran cynhyrchu bwyd. Yn ogystal â sicrhau cytundebau masnach rydd newydd, bydd Llafur yn ceisio negodi cytundebau sector annibynnol, fel cytundebau digidol, neu gytundebau cydnabyddiaeth gilyddol, i hyrwyddo ein hallforion gwasanaethau.

Byddwn yn arwain trafodaethau rhyngwladol i foderneiddio rheolau a chytundebau masnach fel eu bod yn gweithio i Brydain, gan hyrwyddo masnach a chydweithredu dyfnach,




gan gynnwys drwy Sefydliad Masnach y Byd a Phartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel Mae Llafur yn cefnogi defnyddio cyfradd isaf treth gorfforaethol fyd-eang y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, ac yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i sicrhau bod cwmnïau technoleg rhyngwladol yn talu eu cyfran deg o dreth.

Bydd Llafur yn adeiladu ac yn cryfhau partneriaethau modern gyda chynghreiriaid a phwerau rhanbarthol. Byddwn yn chwilio am bartneriaeth strategol newydd gydag India, gan gynnwys cytundeb masnach rydd, yn ogystal â dyfnhau cydweithredu mewn meysydd fel diogelwch, addysg, technoleg a newid yn yr hinsawdd. Byddwn yn dyfnhau ein cydweithrediad â phartneriaid ar draws y Gwlff ar ddiogelwch rhanbarthol, ynni a masnach a buddsoddi.

Gan gydnabod pwysigrwydd gwleidyddol ac economaidd cynyddol gwledydd Affrica, byddwn yn cyflwyno dull newydd o ymdrin â'r cyfandir i feithrin cyfleoedd er budd y ddwy ochr yn y tymor hir.

**Arweinyddiaeth hinsawdd**

Ni allwn fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur ar fyrder heb weithredu byd-eang cydgysylltiedig. Bydd methu â gweithredu yn achosi dinistr amgylcheddol, gan ysgogi dadleoli, gwrthdaro a newyn. Drwy fod yn arweinwyr hinsawdd gartref, gan gynnwys cyrraedd ein targedau y cytunwyd arnynt, bydd Llafur yn adfer yr arweinyddiaeth fyd-eang gref sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mae cynghreiriaid a chystadleuwyr rhyngwladol eisoes wedi cydnabod y cyfleoedd ac yn symud ymlaen, yn buddsoddi mewn technoleg newydd ac yn creu swyddi'r dyfodol. Dan y Ceidwadwyr, mae Prydain wedi difetha ein harweinyddiaeth, gan wastraffu ein cyfle yn sgil llywyddiaeth COP26 i wneud cynnydd hanesyddol. Bydd y Blaid Lafur yn symud yn gyflymach drwy gydweithio â'n partneriaid rhyngwladol, yn enwedig y rheini sydd ar flaen y gad yn yr argyfwng hinsawdd, gan gynnwys Pacistan a Bangladesh, a gwesteiwr COP30, Brasil.

Bydd Llafur yn creu Cynghrair Pŵer Glân newydd, gan ddod â chynghrair o wledydd sydd ar flaen y gad o ran gweithredu ar yr hinsawdd at ei gilydd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau biliau ynni is ar yr un pryd â chyflymu'r trawsnewid i ynni adnewyddadwy a diogelu a gwella cadwyni cyflenwi ynni glân.

**Cryfhau diplomyddiaeth**

Bydd Llafur yn cryfhau dylanwad Prydain dramor, gan amddiffyn ein buddiannau cenedlaethol, hyrwyddo gwerthoedd blaengar a diogelu gwladolion y DU.

## Bydd Llafur yn cryfhau dylanwad Prydain dramor, gan amddiffyn ein buddiannau cenedlaethol, hyrwyddo gwerthoedd blaengar a diogelu gwladolion y DU

Mae ein harweinyddiaeth ddiplomyddol yn cael ei hategu gan bŵer meddal ein sefydliadau diwylliannol sy'n arwain y byd. Yn hytrach na thanseilio'r sefydliadau hyn, byddwn yn gweithio ar draws y llywodraeth i ddod â sefydliadau creadigol a diwylliannol blaenllaw at ei gilydd i gynyddu dylanwad rhyngwladol y DU. A byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau ar wasgar balch i wella ein cysylltiadau diwylliannol ar draws y byd.

Bydd heddwch a diogelwch hirdymor yn y Dwyrain Canol yn ffocws ar unwaith. Bydd Llafur yn parhau i bwyso am gadoediad ar unwaith, rhyddhau pob gwystlon, cynnal cyfraith ryngwladol, a chynnydd




cyflym mewn cymorth i Gaza. Mae statws gwladwriaeth i Balesteina yw hawl diymwad i bobl Palesteina. Nid yw o fewn pŵer unrhyw gymydog ac mae hefyd yn hanfodol i ddiogelwch hirdymor Israel. Yr ydym wedi ymrwymo i gydnabod gwladwriaeth Balesteinaidd fel cyfraniad at broses heddwch newydd sy'n arwain at ddatrysiad o greu dwy wladwriaeth, gydag Israel ddiogel ochr yn ochr â gwladwriaeth Palesteinaidd hyfyw a sofran.

Bydd y Blaid Lafur hefyd yn cryfhau'r gefnogaeth i ddinasyddion Prydain dramor. Byddwn yn cyflwyno hawl newydd i gael cymorth consylaidd mewn achosion o dorri hawliau dynol.

**Moderneiddio datblygiad rhyngwladol**

Gyda llywodraethau Llafur blaenorol, enillodd Prydain arbenigedd byd-eang mewn datblygu rhyngwladol, gyda'r nod o wneud y byd yn lle mwy diogel a llewyrchus. Dan y Ceidwadwyr, mae'r capasiti hwn wedi dirywio, ac o ganlyniad mae Prydain wedi colli dylanwad.

Bydd Llafur yn agor pennod newydd i ailadeiladu enw da Prydain o ran datblygu rhyngwladol gyda dull newydd yn seiliedig ar barch gwirioneddol a phartneriaeth gyda De'r Byd i gefnogi ein buddiannau cyffredin.

Er mwyn mynd i'r afael â dylanwad cynyddol gweithredwyr niweidiol a hybu ymdrechion i fynd i'r afael â bygythiadau fel newid yn yr hinsawdd, rhaid i waith datblygu'r DU gyd-fynd yn agos â'n nodau polisi tramor, wedi'i gydlynu i fynd i'r afael â thlodi byd-eang, ansefydlogrwydd, a'r argyfwng hinsawdd a natur. Ein datganiad cenhadaeth fydd 'creu byd heb dlodi ar blaned y gellir byw arni' fel arwydd o'n hymrwymiad i weithredu mwy amlochrog, a'n bwriad i arwain ar yr agenda hon.

Mae adfer arweinyddiaeth fyd-eang Prydain ar ddatblygu yn rhan allweddol o'n cynllun i ailgysylltu â'n cynghreiriaid a'n partneriaid. Bydd Llafur yn cryfhau gwaith datblygu rhyngwladol yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu. Byddwn yn adnewyddu arbenigedd a ffocws, yn enwedig mewn meysydd blaenoriaeth fel cefnogi trawsnewid economaidd, mynd i'r afael â dyled anghynaladwy, grymuso menywod a merched, cefnogi atal gwrthdaro, a datgloi cyllid hinsawdd.

Mae Llafur wedi ymrwymo i adfer gwariant datblygu ar lefel o 0.7 y cant o'r incwm gwladol gros cyn gynted ag y bydd yr amgylchiadau cyllidol yn caniatáu. Byddwn yn darparu gwerth am arian i drethdalwyr Prydain drwy weithio'n agos gyda'r Comisiwn Annibynnol ar gyfer Effaith Cymorth

## Bydd Llafur yn agor pennod newydd i ailadeiladu enw da Prydain o ran datblygu rhyngwladol gyda dull newydd yn seiliedig ar barch gwirioneddol a phartneriaeth gyda De'r Byd i gefnogi ein buddiannau cyffredin

i gymhwyso'r safonau uchaf i'n gwariant ar gymorth – gan gyflwyno mesurau cadarn o effeithiolrwydd datblygu, tryloywder a chraffu.

**Bydd Llafur yn rhoi terfyn ar y dull anhrefnus o ymdrin â materion tramor, yn agor pennod newydd ac yn ailgysylltu â'n cynghreiriaid, i sefyll yn gryf unwaith eto ar lwyfan y byd.**


CHANGE

# NEWID

## Yn yr etholiad hwn gallwn newid Cymru a Phrydain.

Gallwn atal yr anhrefn, troi'r dudalen, a dechrau ailadeiladu ein gwlad, gyda dwy lywodraeth Lafur yn cydweithio.

Gwlad wedi'i hadfer i wasanaethu pobl sy'n gweithio; wedi'i huno yn y penderfyniad cyffredin i greu a rhannu cyfoeth. A gyda hyder o'r newydd y bydd y dyfodol yn well i'n plant.

## Mae'r maniffesto hwn yn cynnwys ein cynllun i ddechrau ar y gwaith hwnnw.

Er mwyn llwyddo, bydd angen i bob unigolyn a chymuned chwarae eu rhan. Rhaid inni ddod at ein gilydd, ar ôl 14 mlynedd o anhrefn ac ymraniad.

## Dyna sydd ei angen ar Brydain – a gobeithiwn y byddwch yn ymuno â ni yn yr ymdrech genedlaethol hon.

# Mae fersiynau hygyrch o'r maniffesto ar gael yn: labour.org.uk/accessiblemanifesto neu sganiwch y cod QR isod